Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for a |
| CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN | MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |
| a gynhelir yn | to be held at the |
| SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFA'R SIR LLANGEFNI | COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI |
| DYDD IAU, 12 MAI 2016 | THURSDAY, 12 MAY, 2016 |
| am 10.30 o'r gloch | at 10.30 a.m. |

**R H A G L E N**

1. **COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 10 Mawrth, 2016.

2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

3. **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR.**

4. **CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

5. **ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR**

Ystyried Adroddiad Blynyddol Arweinydd y Cyngor yn unol â pharagraff 4.1.16 y Cyfansoddiad.

6. **SAFONAU'R GYMRAEG A PHOLISI IAITH Y CYNGOR**

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Gwella, Partneriaethau, Cymunedau a Gwasanaethau).

7. **YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, fel y cafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 25 Ebrill, 2016.

8. **MABWYSIADU CÔD YMDDYGIAD NEWYDD AR GYFER AELODAU**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

9. **DOGFEN GYFLAWNI FLYNYDDOL (CYNLLUN GWELLA) 2016/17**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid.

10. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU AR GYFER 2015/16**

Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

11. **ADRODDIAD BLYNYDDOL SGRIWTINI 2015-16**

Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

## 12. <u>ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AR GYFER 2015/16</u>

Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

## 13. <u>ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU</u>

Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Jim Evans (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Robert G Parry OBE (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, Jeffrey M. Evans, Ann Griffith, John Griffith, D R Hughes, K P Hughes, T Ll Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, G O Jones, H E Jones, Raymond Jones, R Ll Jones, Alun W Mummery, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, Alwyn Rowlands a Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (CT),<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (AM),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol (yng nghyswllt Eitem 14),<br>Rheolwr Cynllunio (Polisi) (yng nghyswllt Eitem 9),<br>Uwch Swyddog Gorfodaeth (Safonau Masnach) (yng nghyswllt Eitem 8),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr R.Meirion Jones, Richard Owain Jones a Dafydd Rhys Thomas. |

### 1. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol a chadarnhawyd eu bod yn gywir:-

- 9 Rhagfyr, 2015 (Arbennig) (10.00 a.m.);
- 9 Rhagfyr, 2015 (2.00 p.m.).

### 2. DATGAN DIDDORDEB

Derbyniwyd datganiadau o ddiddordeb personol a oedd yn rhagfarnu yng nghyswllt Eitem 7 – Premiymau'r Dreth Gyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo sydd wedi bod yn Wag am Gyfnod Hir fel a ganlyn:-

Y Cynghorwyr R.A. Dew, Jeff M. Evans, Ann Griffith, K.P. Hughes, T.Ll. Hughes, T.V. Hughes, Aled M. Jones, Dylan Rees.

Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro

(Fe wnaeth yr Aelodau uchod a'r Swyddog adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem).

Derbyniwyd datganiad o ddiddordeb personol gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yng nghyswllt Eitem 9 – Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – Yr Amserlen yn y Cytundeb Cyflawni.

Fe wnaeth yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ynghyd â'r Penaethiaid Swyddogaeth ar gyfer Adnoddau a Busnes y Cyngor, ddatgan diddordeb personol a oedd yn rhagfarnu yn Eitem 13 - Datganiad Polisi Tâl ac nid oeddent yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

## 3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR.

Fe wnaeth y Cadeirydd y datganiadau a ganlyn:-

- Llongyfarchwyd Grŵp Cordia o Ysgol Uwchradd David Hughes ar ennill y gystadleuaeth Cân i Gymru ddydd Sul diwethaf, 5 Mawrth. Dyma'r ail flwyddyn i enillwyr y gystadleuaeth ddod o Ynys Môn.
- Mae dau o lysgenhadon chwaraeon ifanc o Ysgol Uwchradd David Hughes wedi cyrraedd y rhestr fer am wobrau cenedlaethol. Mae Glesni Tegid wedi cyrraedd y rhestr fer am y Wobr Myfyriwr y Flwyddyn – Sky Sports Living for Sport. Mae Cerys Davies wedi cyrraedd y rhestr fer am y Wobr Rising Star, Womenspire.
- Llongyfarchwyd Clwb Ffermwyr Ifanc Bodedern ar ennill cystadleuaeth y Wobr Ddrama Iaith Gymraeg trwy Gymru yn ddiweddar.
- Llongyfarchwyd Clwb Ieuenctid Brynsiencyn hefyd am eu hymdrechion wrth gasglu £280 tuag at Bwyllgor Apêl lleol Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017.
- Llongyfarchwyd y Cynghorydd Aled M. Jones ar ddod yn daid am y tro cyntaf.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Noson Elusen y Cadeirydd a fyddai'n cael ei chynnal yng Ngwesty Carreg Bran, Llanfairpwll ar 15 Ebrill, 2016.

Cydymdeimlwyd â Mr Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar ôl iddo golli ei dad yn ddiweddar.

Cydymdeimlodd y Cadeirydd ag unrhyw Aelod o'r Cyngor neu staff a oedd wedi dioddef profedigaeth yn ddiweddar.

Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion mewn tawelwch fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

## 4. CYFLWYNO DEISEBAU

Ni dderbyniwyd yr un ddeiseb.

## 5. CYLLIDEB 2016/17

Cyflwynodd y Deilydd Portffolio (Cyllid) gynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyllidebau Refeniw a Chyfalaf ar gyfer 2016/17, y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a gosod y Dreth Gyngor fel eitem 5 (a) i (ch) yn y Rhaglen. Dymunodd ddiolch i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'i staff am eu gwaith wrth baratoi'r gyllideb. Diolchodd hefyd i'r Deilydd Portffolio Cysgodol, y Cynghorydd Llinos M. Huws am fynychu nifer o gyfarfodydd ynglŷn â gosod y gyllideb ar gyfer 2016/17 ynghyd â'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r holl Aelodau Etholedig mewn amryw o seminarau a chyfarfodydd sydd wedi digwydd.

Adroddodd oherwydd yr arbedion a gyflawnwyd ei bod wedi bod yn bosib cynyddu cyllideb rhai gwasanaethau pwysig sydd dan bwysau. Bydd cyllideb y Gwasanaethau Plant ar gyfer 2016/17 yn cael ei chynyddu £500k i adlewyrchu'r pwysau cynyddol ar y gwasanaeth. Bydd cyllideb y Gwasanaethau Oedolion ar gyfer 2016/17 yn cael ei chynyddu tua £300k, a defnyddiwyd £400k o gronfeydd wrth gefn i gynyddu'r gyllideb ddirprwyedig i ysgolion ar gyfer 2016/17.

Oherwydd sylwadau yn ystod y broses ymgynghori cyhoeddus a thrafodaethau'r pwyllgor sgriwtini, bu'n bosib gostwng y cynnydd i'r Dreth Gyngor i 3.5% yn hytrach na 4.5% fel y cynigiwyd yn wreiddiol. Roedd y Deilydd Portffolio o'r farn fod y cynnydd yn cymharu'n dda gydag awdurdodau lleol eraill yng ngogledd Cymru. Roedd yn croesawu llwyddiant y Cyngor gyda'i raglen moderneiddio ysgolion a'r cyfleuster Gofal Ychwanegol yn Llangefni. Gyda dros £1m yn cael ei ychwanegu at gronfeydd wrth gefn yr awdurdod y llynedd, ystyriai fod y Cyngor mewn sefyllfa gadarn ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, dywedodd y Deilydd Portffolio (Cyllid) y byddai cyllideb y Cyngor ar gyfer 2017/18 yn dal i fod yn heriol a bydd yn rhaid i wasanaethau gael eu trawsnewid a bydd rhaid cwblhau'r prosiect Gweithio'n Gallach.

Roedd y Deilydd Portffolio Cysgodol ar gyfer Cyllid, y Cynghorydd Llinos M. Huws hefyd eisiau diolch i Swyddogion yr Adran Gyllid am eu gwaith o baratoi'r gyllideb. Fodd bynnag, dywedodd ei bod yn bryderus fod y Dreth Gyngor yn cynyddu 3.5%. Dywedodd y Cynghorydd Huws y byddai'n ymatal rhag pleidleisio oherwydd y toriad o 2% i'r setliad i lywodraeth leol ar gyfer cyllideb 2016/17 gan Lywodraeth Cymru. Nododd fod ganddi bryderon difrifol y byddai'r Awdurdod yn wynebu toriadau pellach i'w gyllideb eto y flwyddyn nesaf.

Roedd Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn absenoldeb y Cadeirydd, hefyd eisiau diolch i'r Swyddogion a'r holl Aelodau am eu gwaith o baratoi ar gyfer cyllideb 2016/17.

Roedd Aelodau'r Wrthblaid o'r farn y byddai'r cynnydd yn y Dreth Gyngor yn effeithio ar deuluoedd ifanc gyda phlant a'r henoed. Codwyd pryderon ynglŷn â chyflwr ysgolion h.y. toeau'n gollwng, toiledau mewn cyflwr gwael iawn a ffenestri sydd angen eu hamnewid.

Ar ôl ystyried y papurau fel pecyn sengl a'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod heddiw, cymerwyd pleidlais ar y gyllideb derfynol oedd yn cael ei chynnig gan y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2016/17. Roedd y bleidlais fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| **O blaid cynigion y gyllideb fel eu cyflwynwyd:** | **14** |
| **Yn erbyn cynigion y gyllideb:** | **1** |
| **Wedi ymatal:** | **11** |

**Yn dilyn y bleidlais PENDERFYNWYD:-**

- **Derbyn cynigion y gyllideb fel eu cyflwynwyd ar gyfer 2016/17;**
- **Derbyn y Penderfyniad drafft ar osod y Dreth Gyngor fel yn (ch) yn y Rhaglen:-**

**1. PENDERFYNWYD**

**(a)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, mabwysiadu'r Cynllun Ariannol Tymor Canol yn Adran 12 Cynllun Ariannol y Tymor Canol a'r Gyllideb 2016/17, fel Strategaeth Cyllideb oddi mewn i ystyr a roddir yn y Cyfansoddiad, ac i gadarnhau y daw'n rhan o'r fframwaith cyllidebol gyda'r eithriad o'r ffigyrau a ddisgrifir fel rhai cyfredol.

**(b)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, i fabwysiadu cyllideb refeniw 2016/17 fel y gwelir honno yn Atodiad 5 Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r Gyllideb 2016/17.

**(c)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, i fabwysiadu cyllideb cyfalaf fel y gwelir honno ym Mhapur Bidiau Cyfalaf 2016/17.

**(ch)** Dirprwyo i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) y pŵer i wneud addasiadau rhwng penawdau yn Atodiad 5 Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r Gyllideb 2016/17 er mwyn rhoi effaith i benderfyniadau'r Cyngor.

**(d)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, ym mlwyddyn ariannol 2016/17, y pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng penawdau fel a ganlyn:-

- **(i)** pwerau dilyffethair i wario pob pennawd cyllidebol unigol yn Atodiad 5 Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r Gyllideb 2016/17 yn erbyn pob gwasanaeth unigol, ar y gwasanaeth perthnasol;
- **(ii)** pwerau i gymeradwyo'r defnydd o'r arian wrth gefn heb ei glustnodi a rhai gwasanaeth i gyllido cynigion gwariant unwaith-ac-am-byth sy'n cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cyngor a gwella gwasanaethau;
- **(iii)** pwerau i drosglwyddo o'r ffynonellau incwm newydd neu uwch.

**(dd)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2016/17 ac ar gyngor y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau), y pŵer i ryddhau hyd at £500k o falansau cyffredinol i ddelio gyda blaenoriaethau yn codi yn ystod y flwyddyn.

**(e)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, mewn perthynas â'r cyfnod hyd at 31 Mawrth 2017, y pwerau a ganlyn:-

- **(i)** pwerau i wneud ymrwymiadau newydd o gyllidebau refeniw blynyddoedd y dyfodol hyd at y symiau a nodir ar gyfer blaenoriaethau newydd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;
- **(ii)** y pwerau a'r ddyletswydd i baratoi cynlluniau i gyflawni arbedion cyllidebol refeniw fel yr awgrymir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;
- **(iii)** pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng prosiectau cyfalaf yn y Papur Bidiau Cyfalaf 2016/17 ac ymrwymo adnoddau yn y blynyddoedd dilynol gan gydymffurfio gyda'r fframwaith cyllidebol.

**(f)** Pennu a chymeradwyo'r dangosyddion pwyllog a rhai'r trysorlys sy'n amcangyfrifon a therfynau am 2016/17 ymlaen fel sy'n ymddangos yn y papur Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2016/17.

**(ff)** Cymeradwyo'r Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am 2016/17.

**(g)** Cadarnhau y bydd eitemau 1(b) i (ff) yn dod yn rhan o'r fframwaith cyllidebol.

**2.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2016/17 benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 1998, bod y Cyngor Sir yn pennu lefel y disgownt sy'n gymwys i'r Dosbarth penodedig A a Dosbarth penodedig B o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Dosbarth Penodedig A | Dim Disgownt |
| Dosbarth Penodedig B | Dim Disgownt |

**3.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2016/17, benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2007 bod y Cyngor Sir yn pennu lefel disgownt sy'n briodol i Ddosbarth penodedig C o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004, fel a ganlyn:-

Dosbarth Penodedig C    Dim Disgownt

**4.** Nodi fod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 1996 wedi penderfynu na fydd yn trin unrhyw gostau yr aiff y Cyngor iddynt mewn rhan o'i ardal nac wrth gyfarfod unrhyw ardoll neu ardoll arbennig fel costau arbennig a bod y penderfyniadau i barhau mewn grym hyd oni fyddant yn cael ei diddymu'n benodol.

**5.** Y dylid nodi bod y Pwyllgor Gwaith, yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd 2015, wedi cymeradwyo'r symiau a glandrwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel sail y Dreth Gyngor ar gyfer 2016/17 a nodi ymhellach bod y Cyngor Llawn, yn ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr 2015, wedi cymeradwyo y bydd y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn lleol yn parhau fel y mae am 2016/17.

**6.** Yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd 2015, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith, yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor)(Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y'i diwygiwyd gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau)(Cymru)(Diwygiad) 2004, gymeradwyo'r symiau a glandrwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel ei sail dreth ac ar gyfer rhannau o'r ardal, am y flwyddyn 2016/17, fel a ganlyn:-

**a)** 30,250.23 yw'r swm a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel sail y dreth gyngor Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn.

**b)** Dyma'r symiau a glandrwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel symiau sail y dreth gyngor Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn ar gyfer y tai annedd hynny yn y rhannau hynny o'i ardal lle mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol, fel a ganlyn:-

| | |
|---|---:|
| Amlwch | 1,464.36 |
| Biwmares | 1,036.95 |
| Caergybi | 3,798.84 |
| Llangefni | 1,894.81 |
| Porthaethwy | 1,394.41 |
| Llanddaniel-fab | 370.17 |
| Llanddona | 359.12 |
| Cwm Cadnant | 1,124.64 |
| Llanfairpwllgwyngyll | 1,314.95 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 670.81 |
| Bodorgan | 436.68 |
| Llangoed | 627.71 |
| Llangristiolus a Cherrig Ceinwen | 600.12 |
| Llanidan | 397.94 |
| Rhosyr | 983.39 |
| Penmynydd | 234.82 |
| Pentraeth | 554.26 |
| Moelfre | 602.76 |
| Llanbadrig | 651.90 |
| Llanddyfnan | 486.52 |
| Llaneilian | 543.19 |
| Llannerch-y-medd | 500.27 |
| Llaneugrad | 178.60 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 1,745.30 |
| Cylch y Garn | 400.92 |
| Mechell | 526.01 |
| Rhos-y-bol | 460.39 |
| Aberffraw | 292.06 |
| Bodedern | 415.17 |
| Bodffordd | 416.68 |
| Trearddur | 1,222.42 |
| Tref Alaw | 248.22 |
| Llanfachraeth | 224.69 |

| | |
|---|---|
| Llanfaelog | 1,218.82 |
| Llanfaethlu | 280.72 |
| Llanfair-yn-Neubwll | 562.14 |
| Y Fali | 961.23 |
| Bryngwran | 355.40 |
| Rhoscolyn | 337.72 |
| Trewalchmai | 355.12 |

**7.** Bod y symiau a ganlyn bellach yn cael eu pennu gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2016/17, yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:-

**a)** £183,047,719 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2) (a) i (d) y Ddeddf.

**b)** £ 57,830,947 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3) (a) a (c) y Ddeddf.

**c)** £125,216,772 sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 7(a) uchod a chyfanswm 7(b) uchod, a bennwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf, yn gyllideb angenrheidiol ar gyfer y flwyddyn.

**ch)** £ 91,928,047 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i gronfa'r cyngor gyda golwg ar drethi annomestig a ail-ddosberthir, grant cynnal refeniw a grant arbennig, gan dynnu unrhyw swm a bennwyd yn unol ag Adran 33(3) y Ddeddf.

**d)** £ 1,100.44 sef y swm yn 7(c) uchod llai'r swm yn 7(ch) uchod, gan rannu'r cyfan â'r swm a nodir yn 6(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, sef sail y dreth gyngor am y flwyddyn.

**dd)** £ 1,179,318 sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) y Ddeddf.

**e)** £ 1,061.46 sef y swm yn 7(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 7(dd) uchod â'r swm yn 6(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, sef sŵn sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'r ardal lle na fo unrhyw eitem arbennig yn berthnasol.

**f)** 

| Rhan o Ardal y Cyngor | | D |
|---|---|---|
| Amlwch | £ | 1,122.31 |
| Biwmares | £ | 1,087.83 |
| Caergybi | £ | 1,161.86 |
| Llangefni | £ | 1,132.46 |
| Porthaethwy | £ | 1,126.72 |
| Llanddaniel-fab | £ | 1,082.13 |
| Llanddona | £ | 1,075.80 |
| Cwm Cadnant | £ | 1,089.47 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,091.12 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 1,086.06 |
| Bodorgan | £ | 1,079.78 |
| Llangoed | £ | 1,077.09 |
| Llangristiolus a Cherrig Ceinwen | £ | 1,070.62 |
| Llanidan | £ | 1,082.68 |
| Rhosyr | £ | 1,081.29 |
| Penmynydd | £ | 1,075.51 |
| Pentraeth | £ | 1,088.52 |
| Moelfre | £ | 1,080.46 |
| Llanbadrig | £ | 1,099.81 |
| Llanddyfnan | £ | 1,075.60 |
| Llaneilian | £ | 1,082.16 |
| Llannerch-y-medd | £ | 1,082.26 |
| Llaneugrad | £ | 1,083.86 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,089.96 |
| Cylch y Garn | £ | 1,076.43 |
| Mechell | £ | 1,077.60 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,074.49 |
| Aberffraw | £ | 1,085.43 |
| Bodedern | £ | 1,080.73 |
| Bodffordd | £ | 1,076.94 |
| Trearddur | £ | 1,086.91 |
| Tref Alaw | £ | 1,080.80 |
| Llanfachraeth | £ | 1,079.59 |
| Llanfaelog | £ | 1,081.97 |
| Llanfaethlu | £ | 1,081.94 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 1,079.43 |
| Y Fali | £ | 1,089.43 |
| Bryngwran | £ | 1,087.35 |
| Rhoscolyn | £ | 1,068.86 |
| Trewalchmai | £ | 1,079.76 |

sef y symiau a geir trwy ychwanegu at y swm a geir yn 7(e) uchod symiau'r eitem neu'r eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 7(b) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, sef symiau sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

**ff)** **Rhan o Ardal y Cyngor**

| Rhan o Ardal y Cyngor | | Bandiau Prisiau A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amlwch | £ | 748.21 | 872.91 | 997.61 | 1,122.31 | 1,371.71 | 1,621.11 | 1,870.52 | 2,244.62 | 2,618.72 |
| Biwmares | £ | 725.22 | 846.09 | 966.96 | 1,087.83 | 1,329.57 | 1,571.31 | 1,813.05 | 2,175.66 | 2,538.27 |
| Caergybi | £ | 774.57 | 903.67 | 1,032.76 | 1,161.86 | 1,420.05 | 1,678.24 | 1,936.43 | 2,323.72 | 2,711.01 |
| Llangefni | £ | 754.97 | 880.80 | 1,006.63 | 1,132.46 | 1,384.12 | 1,635.78 | 1,887.43 | 2,264.92 | 2,642.41 |
| Porthaethwy | £ | 751.15 | 876.34 | 1,001.53 | 1,126.72 | 1,377.10 | 1,627.48 | 1,877.87 | 2,253.44 | 2,629.01 |
| Llanddaniel-fab | £ | 721.42 | 841.66 | 961.89 | 1,082.13 | 1,322.60 | 1,563.08 | 1,803.55 | 2,164.26 | 2,524.97 |
| Llanddona | £ | 717.20 | 836.73 | 956.27 | 1,075.80 | 1,314.87 | 1,553.93 | 1,793.00 | 2,151.60 | 2,510.20 |
| Cwm Cadnant | £ | 726.31 | 847.37 | 968.42 | 1,089.47 | 1,331.57 | 1,573.68 | 1,815.78 | 2,178.94 | 2,542.10 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 727.41 | 848.65 | 969.88 | 1,091.12 | 1,333.59 | 1,576.06 | 1,818.53 | 2,182.24 | 2,545.95 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 724.04 | 844.71 | 965.39 | 1,086.06 | 1,327.41 | 1,568.75 | 1,810.10 | 2,172.12 | 2,534.14 |
| Bodorgan | £ | 719.85 | 839.83 | 959.80 | 1,079.78 | 1,319.73 | 1,559.68 | 1,799.63 | 2,159.56 | 2,519.49 |
| Llangoed | £ | 718.06 | 837.74 | 957.41 | 1,077.09 | 1,316.44 | 1,555.80 | 1,795.15 | 2,154.18 | 2,513.21 |
| Llangristiolus a Cherrig Ceinwen | £ | 713.75 | 832.70 | 951.66 | 1,070.62 | 1,308.54 | 1,546.45 | 1,784.37 | 2,141.24 | 2,498.11 |
| Llanidan | £ | 721.79 | 842.08 | 962.38 | 1,082.68 | 1,323.28 | 1,563.87 | 1,804.47 | 2,165.36 | 2,526.25 |
| Rhosyr | £ | 720.86 | 841.00 | 961.15 | 1,081.29 | 1,321.58 | 1,561.86 | 1,802.15 | 2,162.58 | 2,523.01 |
| Penmynydd | £ | 717.01 | 836.51 | 956.01 | 1,075.51 | 1,314.51 | 1,553.51 | 1,792.52 | 2,151.02 | 2,509.52 |
| Pentraeth | £ | 725.68 | 846.63 | 967.57 | 1,088.52 | 1,330.41 | 1,572.31 | 1,814.20 | 2,177.04 | 2,539.88 |
| Moelfre | £ | 720.31 | 840.36 | 960.41 | 1,080.46 | 1,320.56 | 1,560.66 | 1,800.77 | 2,160.92 | 2,521.07 |
| Llanbadrig | £ | 733.21 | 855.41 | 977.61 | 1,099.81 | 1,344.21 | 1,588.61 | 1,833.02 | 2,199.62 | 2,566.22 |
| Llanddyfnan | £ | 717.07 | 836.58 | 956.09 | 1,075.60 | 1,314.62 | 1,553.64 | 1,792.67 | 2,151.20 | 2,509.73 |
| Llaneilian | £ | 721.44 | 841.68 | 961.92 | 1,082.16 | 1,322.64 | 1,563.12 | 1,803.60 | 2,164.32 | 2,525.04 |
| Llannerch-y-medd | £ | 721.51 | 841.76 | 962.01 | 1,082.26 | 1,322.76 | 1,563.26 | 1,803.77 | 2,164.52 | 2,525.27 |
| Llaneugrad | £ | 722.57 | 843.00 | 963.43 | 1,083.86 | 1,324.72 | 1,565.58 | 1,806.43 | 2,167.72 | 2,529.01 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 726.64 | 847.75 | 968.85 | 1,089.96 | 1,332.17 | 1,574.39 | 1,816.60 | 2,179.92 | 2,543.24 |
| Cylch y Garn | £ | 717.62 | 837.22 | 956.83 | 1,076.43 | 1,315.64 | 1,554.84 | 1,794.05 | 2,152.86 | 2,511.67 |
| Mechell | £ | 718.40 | 838.13 | 957.87 | 1,077.60 | 1,317.07 | 1,556.53 | 1,796.00 | 2,155.20 | 2,514.40 |
| Rhos-y-bol | £ | 716.33 | 835.71 | 955.10 | 1,074.49 | 1,313.27 | 1,552.04 | 1,790.82 | 2,148.98 | 2,507.14 |
| Aberffraw | £ | 723.62 | 844.22 | 964.83 | 1,085.43 | 1,326.64 | 1,567.84 | 1,809.05 | 2,170.86 | 2,532.67 |
| Bodedern | £ | 720.49 | 840.57 | 960.65 | 1,080.73 | 1,320.89 | 1,561.05 | 1,801.22 | 2,161.46 | 2,521.70 |
| Bodffordd | £ | 717.96 | 837.62 | 957.28 | 1,076.94 | 1,316.26 | 1,555.58 | 1,794.90 | 2,153.88 | 2,512.86 |
| Trearddur | £ | 724.61 | 845.37 | 966.14 | 1,086.91 | 1,328.45 | 1,569.98 | 1,811.52 | 2,173.82 | 2,536.12 |
| Tref Alaw | £ | 720.53 | 840.62 | 960.71 | 1,080.80 | 1,320.98 | 1,561.16 | 1,801.33 | 2,161.60 | 2,521.87 |
| Llanfachraeth | £ | 719.73 | 839.68 | 959.64 | 1,079.59 | 1,319.50 | 1,559.41 | 1,799.32 | 2,159.18 | 2,519.04 |
| Llanfaelog | £ | 721.31 | 841.53 | 961.75 | 1,081.97 | 1,322.41 | 1,562.85 | 1,803.28 | 2,163.94 | 2,524.60 |
| Llanfaethlu | £ | 721.29 | 841.51 | 961.72 | 1,081.94 | 1,322.37 | 1,562.80 | 1,803.23 | 2,163.88 | 2,524.53 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 719.62 | 839.56 | 959.49 | 1,079.43 | 1,319.30 | 1,559.18 | 1,799.05 | 2,158.86 | 2,518.67 |
| Y Fali | £ | 726.29 | 847.33 | 968.38 | 1,089.43 | 1,331.53 | 1,573.62 | 1,815.72 | 2,178.86 | 2,542.00 |
| Bryngwran | £ | 724.90 | 845.72 | 966.53 | 1,087.35 | 1,328.98 | 1,570.62 | 1,812.25 | 2,174.70 | 2,537.15 |
| Rhoscolyn | £ | 712.57 | 831.34 | 950.10 | 1,068.86 | 1,306.38 | 1,543.91 | 1,781.43 | 2,137.72 | 2,494.01 |
| Trewalchmai | £ | 719.84 | 839.81 | 959.79 | 1,079.76 | 1,319.71 | 1,559.65 | 1,799.60 | 2,159.52 | 2,519.44 |

sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 7(e) a 7(f) uchod a'r rhif sydd, yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5(1) y Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisiau arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisiau D, a bennir gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn gyda golwg ar y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisiau.

**8.** Y dylid nodi, ar gyfer y flwyddyn 2016/17, fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:-

| **Awdurdod Praeseptio** | | **Bandiau Prisiau** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | £ | 160.08 | 186.76 | 213.44 | 240.12 | 293.48 | 346.84 | 400.20 | 480.24 | 560.28 |

**9.** Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn 7(ff) a 8 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn yn pennu'r symiau a ganlyn ar gyfer y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn 2016/17 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir isod:-

| | | **Bandiau Prisiau** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan o Ardal y Cyngor** | | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Amlwch | £ | 908.29 | 1,059.67 | 1,211.05 | 1,362.43 | 1,665.19 | 1,967.95 | 2,270.22 | 2,724.86 | 3,179.00 |
| Biwmares | £ | 885.30 | 1,032.85 | 1,180.40 | 1,327.95 | 1,623.05 | 1,918.15 | 2,213.25 | 2,655.90 | 3,098.55 |
| Caergybi | £ | 934.65 | 1,090.43 | 1,246.20 | 1,401.98 | 1,713.53 | 2,025.63 | 2,336.63 | 2,803.96 | 3,271.29 |
| Llangefni | £ | 915.05 | 1,067.56 | 1,220.07 | 1,372.58 | 1,677.60 | 1,982.62 | 2,287.63 | 2,745.16 | 3,202.69 |
| Porthaethwy | £ | 911.23 | 1,063.10 | 1,214.97 | 1,366.84 | 1,670.58 | 1,974.32 | 2,278.07 | 2,733.68 | 3,189.29 |
| Llanddaniel-fab | £ | 881.50 | 1,028.42 | 1,175.33 | 1,322.25 | 1,616.08 | 1,909.92 | 2,203.75 | 2,644.50 | 3,085.25 |
| Llanddona | £ | 877.28 | 1,023.49 | 1,169.71 | 1,315.92 | 1,608.35 | 1,900.77 | 2,193.20 | 2,631.84 | 3,070.48 |
| Cwm Cadnant | £ | 886.39 | 1,034.13 | 1,181.86 | 1,329.59 | 1,625.05 | 1,920.52 | 2,215.98 | 2,659.18 | 3,102.38 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 887.49 | 1,035.41 | 1,183.32 | 1,331.24 | 1,627.07 | 1,922.90 | 2,218.73 | 2,662.48 | 3,106.23 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 884.12 | 1,031.47 | 1,178.83 | 1,326.18 | 1,620.89 | 1,915.59 | 2,210.30 | 2,652.36 | 3,094.42 |
| Bodorgan | £ | 879.93 | 1,026.59 | 1,173.24 | 1,319.90 | 1,613.21 | 1,906.52 | 2,199.83 | 2,639.80 | 3,079.77 |
| Llangoed | £ | 878.14 | 1,024.50 | 1,170.85 | 1,317.21 | 1,609.92 | 1,902.64 | 2,195.35 | 2,634.42 | 3,073.49 |
| Llangristiolus a Cherrig Ceinwen | £ | 873.83 | 1,019.46 | 1,165.10 | 1,310.74 | 1,602.02 | 1,893.29 | 2,184.57 | 2,621.48 | 3,058.39 |
| Llanidan | £ | 881.87 | 1,028.84 | 1,175.82 | 1,322.80 | 1,616.76 | 1,910.71 | 2,204.67 | 2,645.60 | 3,086.53 |
| Rhosyr | £ | 880.94 | 1,027.76 | 1,174.59 | 1,321.41 | 1,615.06 | 1,908.70 | 2,202.35 | 2,642.82 | 3,083.29 |
| Penmynydd | £ | 877.09 | 1,023.27 | 1,169.45 | 1,315.63 | 1,607.99 | 1,900.35 | 2,192.72 | 2,631.26 | 3,069.80 |
| Pentraeth | £ | 885.76 | 1,033.39 | 1,181.01 | 1,328.64 | 1,623.89 | 1,919.15 | 2,214.40 | 2,657.28 | 3,100.16 |
| Moelfre | £ | 880.39 | 1,027.12 | 1,173.85 | 1,320.58 | 1,614.04 | 1,907.50 | 2,200.97 | 2,641.16 | 3,081.35 |
| Llanbadrig | £ | 893.29 | 1,042.17 | 1,191.05 | 1,339.93 | 1,637.69 | 1,935.45 | 2,233.22 | 2,679.86 | 3,126.50 |
| Llanddyfnan | £ | 877.15 | 1,023.34 | 1,169.53 | 1,315.72 | 1,608.10 | 1,900.48 | 2,192.87 | 2,631.44 | 3,070.01 |
| Llaneilian | £ | 881.52 | 1,028.44 | 1,175.36 | 1,322.28 | 1,616.12 | 1,909.96 | 2,203.80 | 2,644.56 | 3,085.32 |
| Llannerch-y-medd | £ | 881.59 | 1,028.52 | 1,175.45 | 1,322.38 | 1,616.24 | 1,910.10 | 2,203.97 | 2,644.76 | 3,085.55 |
| Llaneugrad | £ | 882.65 | 1,029.76 | 1,176.87 | 1,323.98 | 1,618.20 | 1,912.42 | 2,206.63 | 2,647.96 | 3,89.29 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 886.72 | 1,034.51 | 1,182.29 | 1,330.08 | 1,625.65 | 1,921.23 | 2,216.80 | 2,660.16 | 3,103.52 |
| Cylch y Garn | £ | 877.70 | 1,023.98 | 1,170.27 | 1,316.55 | 1,609.12 | 1,901.68 | 2,194.25 | 2,633.10 | 3,071.95 |
| Mechell | £ | 878.48 | 1,024.89 | 1,171.31 | 1,317.72 | 1,610.55 | 1,903.37 | 2,196.20 | 2,635.44 | 3,074.68 |
| Rhos-y-bol | £ | 876.41 | 1,022.47 | 1,168.54 | 1,314.61 | 1,606.75 | 1,898.88 | 2,191.02 | 2,629.22 | 3,067.42 |
| Aberffraw | £ | 883.70 | 1,030.98 | 1,178.27 | 1,325.55 | 1,620.12 | 1,914.68 | 2,209.25 | 2,651.10 | 3,092.95 |
| Bodedern | £ | 880.57 | 1,027.33 | 1,174.09 | 1,320.85 | 1,614.37 | 1,907.89 | 2,201.42 | 2,641.70 | 3,081.98 |
| Bodffordd | £ | 878.04 | 1,024.38 | 1,170.72 | 1,317.06 | 1,609.74 | 1,902.42 | 2,195.10 | 2,634.12 | 3,073.14 |
| Trearddur | £ | 884.69 | 1,032.13 | 1,179.58 | 1,327.03 | 1,621.93 | 1,916.82 | 2,211.72 | 2,654.06 | 3,096.40 |
| Tref Alaw | £ | 880.61 | 1,027.38 | 1,174.15 | 1,320.92 | 1,614.46 | 1,908.00 | 2,201.53 | 2,641.84 | 3,082.15 |
| Llanfachraeth | £ | 879.81 | 1,026.44 | 1,173.08 | 1,319.71 | 1,612.98 | 1,906.25 | 2,199.52 | 2,639.42 | 3,079.32 |
| Llanfaelog | £ | 881.39 | 1,028.29 | 1,175.19 | 1,322.09 | 1,615.89 | 1,909.69 | 2,203.48 | 2,644.18 | 3,084.88 |
| Llanfaethlu | £ | 881.37 | 1,028.27 | 1,175.16 | 1,322.06 | 1,615.85 | 1,909.64 | 2,203.43 | 2,644.12 | 3,084.81 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 879.70 | 1,026.32 | 1,172.93 | 1,319.55 | 1,612.78 | 1,906.02 | 2,199.25 | 2,639.10 | 3,078.95 |
| Y Fali | £ | 886.37 | 1,034.09 | 1,181.82 | 1,329.55 | 1,625.01 | 1,920.46 | 2,215.92 | 2,659.10 | 3,102.28 |
| Bryngwran | £ | 884.98 | 1,032.48 | 1,179.97 | 1,327.47 | 1,622.46 | 1,917.46 | 2,212.45 | 2,654.94 | 3,097.43 |

| Rhan o Ardal y Cyngor | | Bandiau Prisiau A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhoscolyn | £ | 872.65 | 1,018.10 | 1,163.54 | 1,308.98 | 1,599.86 | 1,890.75 | 2,181.63 | 2,617.96 | 3,054.29 |
| Trewalchmai | £ | 879.92 | 1,026.57 | 1,173.23 | 1,319.88 | 1,613.19 | 1,906.49 | 2,199.80 | 2,639.76 | 3,079.72 |

**(d) Newidiadau i'r Gyllideb**

Dim newidiadau.

**6. ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN – RHEOLI TRYSORLYS 2015/16**

Cyflwynwyd i'r Cyngor ei gymeradwyo, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ymgorffori adolygiad o'r sefyllfa canol blwyddyn yng nghyswllt gweithgarwch Rheoli Trysorlys.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Derbyn yr adroddiad adolygiad canol blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys.**
- **Cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Archwilio iddo ei adolygu a rhoi adborth.**

**7. PREMIYMAU'R DRETH GYNGOR AR GYFER AIL GARTREFI AC EIDDO SYDD WEDI BOD YN WAG AM GYFNOD HIR**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ynghylch a ddylid codi premiymau'r Dreth Gyngor ar anheddau sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir neu anheddau y mae rhywun yn byw ynddynt yn achlysurol (gelwir yn ail gartrefi fel arfer) o 1 Ebrill 2017 ymlaen, ac os penderfynir gwneud hynny, pennu pa ganran o bremiwm y Dreth Gyngor y dylid ei godi ar anheddau sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir ac ail gartrefi o 1 Ebrill 2017 ymlaen.

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod newidiadau deddfwriaethol wedi dod i rym yn sgil Deddf Tai (Cymru) 2014 oedd yn rhoi pwerau dewisol i awdurdodau lleol benderfynu codi premiwm ar anheddau sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir neu ail gartrefi (neu'r ddau). Roedd Deddf 2014 yn diwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 drwy roi dwy adran newydd i mewn ynddi, sef 12A a 12B, sy'n galluogi awdurdod sy'n bilio (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) yng Nghymru i dynnu unrhyw ddisgownt a roddir i anheddau sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir neu anheddau y mae rhywun yn byw ynddynt yn achlysurol, a chodi swm uwch o'r dreth gyngor (premiwm). Bydd gan awdurdodau lleol yn awr y dewis i benderfynu ar faint o bremiwm i'w godi, o 0% hyd at uchafswm o 100% o gyfradd safonol y dreth gyngor sy'n berthnasol i'r eiddo. Gall awdurdod sy'n bilio wneud, amrywio neu ddiddymu penderfyniad a wnaed dan Adrannau 12A a 12B y Ddeddf, ond dim ond cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r penderfyniad yn ymwneud â hi. Ar gyfer ail gartrefi fodd bynnag, mae'n rhaid i awdurdod sy'n bilio wneud ei benderfyniad cyntaf dan Adran 12B o leiaf flwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y bydd y premiwm yn berthnasol iddi. Golyga hyn er mwyn codi premiwm o 1 Ebrill 2017 bod rhaid i awdurdod sy'n bilio wneud ei benderfyniad ar gyfer ail gartrefi cyn 1 Ebrill 2016. Adroddwyd bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mawrth, 2016 wedi penderfynu argymell i'r Cyngor llawn y dylid gosod Premiwm y Dreth Gyngor ar 25% o gyfradd safonol y Dreth Gyngor ar gyfer anheddau sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir ac anheddau y mae rhywun yn byw ynddynt yn achlysurol (sef ail gartrefi).

Nododd yr aelodau fod angen dybryd am dai i deuluoedd ifanc lleol ar yr Ynys ac roeddent yn cefnogi'r cynnydd yn y Premiwm Dreth Gyngor. Dywedwyd fod angen i dai gwag fod ar gael i'w rhentu neu i'w prynu mewn cymunedau lleol. Roedd rhai o'r Aelodau'n ystyried y dylid cynyddu Premiwm y Dreth Gyngor 30%.

**PENDERFYNWYD:-**

**1. Bod Cyngor Sir Ynys Môn ("Cyngor Llawn"), fel awdurdod bilio yng Nghymru, yn defnyddio ei bwerau dewisol, o dan adrannau 12A a 12B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") i ddatgymhwyso unrhyw ddisgownt/disgowntiau a ganiatawyd i anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn achlysurol (a elwir fel arfer yn ail gartrefi) ac i gymhwyso mwy o'r dreth gyngor (a elwir yn Bremiwm y Dreth Gyngor) a bod hynny'n dod i rym o 1 Ebrill 2017.**

**2. Bod Premiwm y Dreth Gyngor yn cael ei osod i fod yn 25% o'r dreth gyngor safonol i'r ddau, sef anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiannir yn achlysurol (a elwir fel arfer yn ail gartrefi), a bod y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn cynnal adolygiad o bremiymau'r Dreth Gyngor yn ystod 2018/19 (ar ôl y flwyddyn gyntaf lawn o weithredu premiymau'r Dreth Gyngor) er mwyn penderfynu a yw'r premiymau a bennwyd wedi bodloni amcanion y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn ac o ganlyniad, a oes angen i lefelau'r premiwm a bennwyd gael eu hamrywio neu eu diddymu pan fo'r Cyngor Llawn yn pennu gofynion y Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20. Yna, os yn gymwys, bydd y premiymau diwygiedig yn dod i rym o 1 Ebrill 2019.**

**3. Bod y Cyngor Llawn yn cyfarwyddo ac yn awdurdodi'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 i:–**

- **i. Gyhoeddi rhybudd o'i benderfyniad i godi premiwm mewn papur newydd lleol o fewn 21 diwrnod o'i benderfyniad;**

- **ii. Cyfathrebu ei benderfyniad, hefyd o fewn 21 diwrnod, ac yn arbennig i'r rhai y bydd hyn efallai yn effeithio arnynt, trwy gyhoeddi hysbysiadau yn y wasg, darparu gwybodaeth ar wefannau neu ddefnyddio dulliau eraill o godi ymwybyddiaeth. Bydd hyn yn cynnwys cyfathrebu'n uniongyrchol â threthdalwyr y cyngor sy'n debygol o fod yn atebol i dalu'r premiwm, ac yn arbennig y rhai hynny sydd fel arfer yn byw y tu allan i ardal yr awdurdod lleol;**

- **iii. Sicrhau bod trefniadau gweinyddol wedi eu sefydlu er mwyn amcangyfrif (cyn i'r Pwyllgor Gwaith gyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18 a bod y Cyngor Llawn yn pennu gofynion y Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18) faint o anheddau sy'n wag am gyfnod hir a faint o anheddau a feddiennir yn achlysurol (a elwir fel arfer yn ail gartrefi) fydd yn gymwys i godi premiwm y Dreth Gyngor arnynt o dan Ddeddf 1992, fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf 2014, yn amodol ar eithriadau a ganiateir gan reoliadau;**

- **iv. Sicrhau bod trefniadau gweinyddol yn cael eu sefydlu er mwyn gweinyddu a gorfodi premiwm y Dreth Gyngor yn briodol o 1 Ebrill 2017, a nodi bod y Pwyllgor Gwaith yn cytuno mewn egwyddor (yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith) ag unrhyw adnoddau ychwanegol y tybir sydd eu hangen (gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151), er mwyn sicrhau bod premiwm y Dreth Gyngor yn cael ei weinyddu a'i orfodi yn**

**briodol, fydd ar y cychwyn yn cynnwys amcangyfrif faint o anheddau fydd yn gymwys i dalu premiwm y Dreth Gyngor.**

**4. Bod y Cyngor Llawn hefyd yn cyfarwyddo ac yn awdurdodi’r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 (cyn i’r Pwyllgor Gwaith gyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18 ac i’r Cyngor Llawn bennu gofynion y Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18) i gynghori’r Pwyllgor Gwaith a’r Cyngor Llawn (fel awdurdod bilio yng Nghymru) ynghylch a fydd angen penderfynu, o dan adran 13A Deddf 1992, defnyddio ei bwerau dewisol i ostwng atebolrwydd y dreth gyngor fydd yn deillio o godi premiwm y Dreth Gyngor, i’r graddau y mae’n credu sy’n briodol. Er mwyn tegwch a thryloywder, petai angen penderfyniad o’r fath, bydd cyngor yn cael ei roi petai’r Cyngor Llawn yn mabwysiadu polisi clir ynghylch a ddylid defnyddio’r pwerau hyn neu beidio ag ym mha fodd, gydag awdurdod gwneud penderfyniadau dirprwyedig priodol yn cael ei ddarparu yng Nghyfansoddiad y Cyngor, ond hefyd byddid yn cydnabod bod angen i bob achos gael ei ystyried ar sail teilyngdod gan ystyried amgylchiadau pob achos unigol.**

## 8. POLISI TRWYDDEDU

Cyflwynwyd – adroddiad ar adolygiad o Bolisi Trwyddedu’r Awdurdod.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo’r adroddiad a’r Polisi Trwyddedu diwygiedig.**

## 9. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – AMSERLEN CYTUNDEB CYFLAWNI

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ar y broses a ddilynwyd, a chyfeiriwyd at yr Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg a chynaladwyedd.

Amlinellodd y Deilydd Portffolio (Cynllunio) y broses roedd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn ei dilyn yn ei waith ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Yn unol â’r cytundeb rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Môn, roedd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi ystyried yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer y Cytundeb Cyflawni yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr, 2016. Penderfynodd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd argymell bod y ddau Gyngor yn cymeradwyo’r amserlen ddiwygiedig yn unigol, sef yr amserlen a welir yn Atodiad 1 yr adroddiad. Rhoddodd Cyngor Gwynedd ystyriaeth i’r adroddiad yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth, 2016 a phenderfynodd gymeradwyo’r amserlen. Nodwyd, pan fydd y Cynghorau wedi cymeradwyo’r amserlen ddiwygiedig, bydd y Cytundeb Cyflawni’n cael ei ddiwygio’n unol â hynny a’i anfon i Lywodraeth Cymru am ei chefnogaeth.

Codwyd cwestiynau pam nad oedd Asesiad Iaith Gymraeg annibynnol wedi cael ei gynnal yng nghyswllt y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Atebodd y Rheolwr Cynllunio (Polisi) fod yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi cynnal Asesiad Iaith Gymraeg ei hun ar ran Cynghorau Môn a Gwynedd a’i bod wedi defnyddio methodoleg gydnabyddedig i wneud y gwaith. Nododd fod y fethodoleg yn ymdrin â’r mater mewn ffordd holistaidd, gan gydnabod bod bywyd yn y cymunedau wedi newid dros y blynyddoedd, sydd oll yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg. Ystyrir bod y sawl sy’n cynllunio defnydd tir mewn sefyllfa dda i allu ystyried a dod i farn ddeallus ar y mater. Dymunai’r Swyddog Monitro nodi, o dan Gyfansoddiad y Cyngor nid oes gan y Cyngor yr awdurdod i awgrymu y dylid cynnal asesiad iaith gwahanol. Mae’r Cyngor wedi gweithio ar y cyd â Chyngor Gwynedd ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ac mae hyn yn cyfyngu unrhyw newidiadau fel y nodir uchod.

Cynigiodd yr Wrthblaid y byddai cyfnod o adolygu’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn rhoi cyfle i ailymweld â’r mater a hoffai wneud y pwynt yn glir y dylid cynnal Asesiad Iaith Gymraeg annibynnol fel rhan o’r cyfle hwnnw. Fe wnaeth aelodau’r Wrthblaid ymatal rhag pleidleisio.

**PENDERFYNWYD bod Cyngor Sir Ynys Môn yn cymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig (ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad), ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd er mwyn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol.**

**10. CYNLLUN RHEOLI ASEDAU CORFFORAETHOL Y CYNGOR (TIR AC ADEILADAU)**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo mewn perthynas â'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ar gyfer Tir ac Adeiladau 2015/2020.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ar gyfer Tir ac Adeiladau am y cyfnod 2015/2020.**

**11. PENDERFYNIADAU BRYS Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyflwynwyd a nodwyd, er gwybodaeth, y penderfyniadau brys a ganlyn gan y Pwyllgor Gwaith a wnaed yn unol ag adran 4.5.16.10 y Cyfansoddiad.

- 3 Chwefror, 2016 – Adroddiad yn awdurdodi caffael rhanbarthol (cefnogaeth i ysgolion) a sicrhau'r prisiau gorau *(mae dolen i wybodaeth yn yr agenda)*;
- 4 Chwefror, 2016 – Adroddiad yn awdurdodi rhyddhau arian i drwsio difrod a achoswyd gan stormydd mewn canolfannau hamdden fel nad oes angen eu cau dros dro *(mae dolen i wybodaeth yn yr agenda)*;
- 22 Chwefror, 2016 – Adroddiad ar y Datblygiad Tai Gofal Ychwanegol, Llangefni i fodloni amserlen grantiau Llywodraeth Cymru a sicrhau na chaiff y grant ei golli *(mae dolen i wybodaeth yn yr agenda)*;

**12. YMGYNGHORIAD HORIZON IONAWR 2016 – DIWEDDARIAD AR BROSIECT WYLFA NEWYDD A FFEITHLENNI AR BYNCIAU**

Rhoddodd y Prif Weithredwr adroddiad llafar ar yr angen i ymateb i Ymgynghoriad Horizon, Ionawr 2016 – Diweddariad ar Brosiect Wylfa Newydd a Ffeithlenni ar Bynciau, erbyn 24 Mawrth 2016. Yn dilyn sesiynau briffio ar y mater bydd ymateb y Cyngor yn cael ei ymgorffori ar ôl ymgynghori gydag Arweinyddion y Grwpiau i roi cyfle i'r Aelodau Etholedig ymateb i'r ymgynghoriad.

**PENDERFYNWYD dirprwyo'r awdurdod i'r Prif Weithredwr ymateb ar ran y Cyngor i Ymgynghoriad Horizon, Ionawr 2016 mewn ymgynghoriad ag Arweinyddion y Grwpiau.**

**13. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro wrth y Cyngor mai pwrpas Eitem 14 – Datganiad ar y Polisi Tâl ar yr Agenda yw i'r Cyngor dderbyn y Datganiad Polisi Tâl Drafft. Bydd y Datganiad Polisi Tâl ar gael wedi hynny ar wefan y Cyngor Sir. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno canllawiau ond nid gofynion statudol y dylai'r eitem gael ei thrafod yn gyhoeddus. Nododd fod y mater wedi cael ei roi o dan y pennawd 'Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd' i roi cyfle i'r Cyngor drafod unrhyw fater yr ystyrir sy'n gyfrinachol.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, gan y byddai'r adroddiad ar gael wedi hynny ar wefan y Cyngor ac oherwydd y newidiadau a'r arbedion a wnaed yn ddiweddar i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, ei fod yn ystyried na ddylai'r mater gael ei drafod yn breifat.

**PENDERFYNWYD na ddylid cau allan y wasg a'r cyhoedd ar gyfer Eitem 14 – Datganiad Polisi Tâl ac y dylai gael ei thrafod mewn sesiwn agored.**

## 14. DATGANIAD AR Y POLISI TÂL

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Deilydd Portffolio (Rheolwr Busnes y Pwyllgor Gwaith, Perfformiad, Trawsnewid, y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol) fod Deddf Lleoliaeth 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ddatblygu a chyhoeddi eu polisi tâl ar bob agwedd o Gyflogau Prif Swyddogion. Roedd yn dymuno diolch i'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a'i staff am eu gwaith wrth gwblhau'r broses arfarnu swyddi.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad ar y Polisi Tâl ar gyfer 2016/17.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.45 pm

**Y CYNGHORYDD JIM EVANS**
**CADEIRYDD**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL YR ARWEINYDD 2016

## RHAGAIR A CHYD-DESTUN ARIANNOL

Dyma fy nhrydydd adroddiad blynyddol fel Arweinydd ac rwyf am neidio i mewn yn syth i'r pwnc sydd yng nghefn fy meddwl yn ddyddiol - y gyllideb a sut y gallwn ddiogelu gwasanaethau.

Y prif fater sydd wedi bod yn gyson ers cychwyn ein taith ar y weinyddiaeth hon yn 2013 yw'r toriadau ariannol a'r her o ddod o hyd i arbedion flwyddyn ar ôl blwyddyn. Heb fynd i sôn am ansicrwydd Ad-drefnu Llywodraeth Leol yr her fwyaf sy'n ein hwynebu unwaith eto am o leiaf dair blynedd arall yw mwy o doriadau ariannol.

Er mwyn atgoffa pawb o raddfa'r toriadau, roedd ein setliad gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau ein blwyddyn etholiad yn oddeutu £100,685 miliwn gan gynnwys grant cytundeb canlyniad, eleni roedd ein setliad yn £91,928m. Dros y tair blynedd diwethaf (yn cynnwys y flwyddyn ariannol hon tan ddiwedd mis Mawrth nesaf) byddwn wedi gorfod gwneud arbedion o oddeutu £14 miliwn. Er hyn i gyd rydym wedi gallu diogelu ein gwasanaethau rheng flaen a hyd yn oed buddsoddi mewn rhai sydd yn gweld twf fel Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bu'r broses o osod y gyllideb ddiwethaf yn un dwys a welodd yr holl aelodau'n cyfrannu mewn pedwar gweithdy diwrnod llawn yn dilyn sesiynau adolygu gwasanaethau yn yr haf. Yn wreiddiol roeddem yn edrych am arbedion o dros £5 miliwn, er yr holl waith crafu pen dim ond £3.9 miliwn y daethom o hyd iddo. Yn ffodus roedd hyn yn ddigonol am y flwyddyn hon, ond gyda'r angen i ddod o hyd at efallai £9.7 miliwn dros y tair blynedd nesaf mae'n golygu bod penderfyniadau caled o'n blaenau.

Er nid yn ateb i bopeth mae pob Cyngor yn ymchwilio i ddulliau amgen o redeg gwasanaethau a bu gweithdy diweddar ar y pwnc yn amserol. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo efo is-grŵp o Gynghorau Tref a Chymuned sydd wedi bod yn rhoi mewnbwn i'n Polisi Partneriaeth ac yn helpu i ddatblygu teclyn partneriaeth fydd yn ein cynorthwyo i sefydlu partneriaethau efo Cynghorau Tref a Chymuned neu Fentrau Cymdeithasol. Un esiampl benodol o grŵp cymunedol yn rhedeg cyfleuster nad oedd yn bosib i ni ei redeg mwyach oedd allanoli cwrs golff Llangefni i Bartneriaeth Tref Llangefni. Mae'r math yma o drefniadau yn anorfod yn y dyfodol os ydym am i rai gwasanaethau barhau.

Fel y gwyddoch, mae gwaith wrthi'n cael ei wneud i edrych ar ffyrdd gwahanol o redeg ein hatyniadau treftadaeth ar hyn o bryd, yn ogystal â hyn mae'r Gwasanaeth Llyfrgell ac Ieuenctid hefyd yn edrych ar ffyrdd gwahanol o redeg eu gwasanaethau. Wrth ymgynghori yn eang a chynnig ystod o opsiynau sy'n boddhau'r defnyddwyr fe ddylem fedru diogelu'r gwasanaethau pwysig yma. Ychydig o esiamplau ydi'r rhain o beth sydd yn ein hwynebu.

Un o brif newidiadau'r flwyddyn ddiwethaf oedd ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i lawr o 5 i 3. Fe gychwynnodd Dr Gwynne Jones yn ei swydd fel Prif Weithredwr fis Mehefin diwethaf ac fe ddilynodd y Prif Weithredwyr Cynorthwyol, Dr Caroline Turner a Mrs Annwen Morgan ar ddiwedd flwyddyn diwethaf. Mae Caroline yn gyfrifol am fusnes mewnol y Cyngor (ac wedi ei dynodi'n Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol) tra bod Annwen yn gyfrifol am ein gwaith partneriaethol. Er nad oes rhaid i mi atgoffa'r Aelodau bod yr ailstrwythuro wedi dod ag arbedion sylweddol i ni mae'n bwysig nodi hynny fel bod y cyhoedd sy'n darllen yr adroddiad hwn yn ymwybodol ein bod yn gwneud arbedion ar bob lefel o reolaeth y Cyngor.

**CYNLLUN CORFFORAETHOL**

Yn y rhan hwn o'r adroddiad byddaf yn rhoi braslun o'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar y gwaith sy'n rhan o'n Cynllun Corfforaethol. Cynllun gwella tymor hir yw hwn, a'i nod yw gyrru rhaglen o welliant parhaol a datblygiadau strategol fydd yn gwella perfformiad ac effeithlonrwydd y Cyngor.

Cyn sôn am y Cynllun Corfforaethol mae hi'n bwysig nodi'r gwaith dydd i ddydd y mae'r Cyngor yn ei gwblhau. Un o'r sylwadau mwyaf cyffredin dwi'n ei glywed wrth drafod arbedion a sut mae modd diogelu'n gwasanaethau rheng flaen yw 'be da ni'n gael am ein treth Cyngor' – mae'r Cyngor yn addysgu tua 10,000 o ddisgyblion mewn 48 ysgol gynradd a 5 ysgol uwchradd, yn rhedeg gwasanaeth Llyfrgelloedd, diwylliant ac ieuenctid, yn edrych ar ôl ein hoedolion a phlant bregus, yn rhedeg chwe cartref preswyl, cynnal a chadw ffyrdd a llwybrau'r Sir, hel gwastraff a gwastraff ailgylchu domestig, rhedeg Gwasanaeth Tai, darparu Gwasanaeth Cynllunio a thrwyddedu, diogelu'r cyhoedd trwy baratoi gwasanaethau safonau masnach ac iechyd yr amgylchedd, yn gweinyddu taliadau budd-dal, yn gwneud gwaith datblygu'r economi a hybu twristiaeth, rhedeg pedair canolfan hamdden ac yn rheoli asedau morwrol.

Isod ceir penawdau'r Cynllun Corfforaethol a'r cynnydd sydd wedi'i wneud arnynt hyd yn hyn, nid wyf yn bwriadu mynd trwy bob is-flaenoriaeth -

**Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn**

Yn ddiweddar arwyddwyd cytundeb efo Cymdeithas Dai Pennaf i adeiladu cartrefi Gofal Ychwanegol yn Llangefni. Mae bwriad hefyd i adeiladu cartrefi gofal ychwanegol yng ngogledd a de-ddwyrain yr ynys. Er bod cynnydd yn y maes efo'r cynllun yn Llangefni ar fin cychwyn mae dod o hyd i safleoedd a phartneriaid wedi bod yn broblemus yn yr ardaloedd eraill. Mae'r gwaith hwn dal yn mynd yn ei flaen ac fe ddylid adolygu'r flaenoriaeth hon wrth ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol nesaf.

Mae'r gwaith o wella ystod ac argaeledd gwasanaethau yn y gymuned ar gyfer pobl hŷn yn dod yn ei flaen yn dda. Mae ein canolfannau heneiddio'n dda wedi'u sefydlu a'r prosiect Lleisiau Lleol yn ardal Seiriol yn dwyn ffrwyth.

Ar hyn o bryd mae 37 o safleoedd yn cynnig gwahanol safleoedd i oedolion gymdeithasu a chefnogi ei gilydd. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau tro da, grwpiau dros 50, prosiectau atal codwm, caffis cofio a chanolfannau heneiddio’n dda.

Mae’r ddarpariaeth gofal cartref mewnol wedi symud i ganolbwyntio ar ail-alluogi i helpu pobl i wella ar ôl dod adref o’r ysbyty neu gyfnodau o waeledd, y bwriad yw iddynt adfer eu hannibyniaeth ac aros yn eu cartrefi cyhyd ag y bo modd. Mae hyn yn unol â’r dyhead yn y cynllun.

Mae’r nod o gydweithio’n agosach efo’r gwasanaeth iechyd yn datblygu’n raddol. Mae nyrsys wedi eu lleoli yma ym mhencadlys y Cyngor a gweithwyr cymdeithasol wedi eu lleoli allan yn y maes mewn canolfannau iechyd. Yn ogystal â hyn mae’r adran wedi gweithio yn agos efo’r bwrdd iechyd i ddatblygu’r model MEC neu ofal uwch Môn i gadw pobl fregus allan o’r ysbyty.

**Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi**

Mae’r nod o gymryd ein cyfrifoldebau cynllunio o ddifrif i hybu datblygiadau mawr yn profi’n effeithiol, ochr yn ochr â’r nod hwn mae gwaith y prosiect Ynys Ynni i hybu’r ynys fel canolfan datblygu ynni yn aeddfedu efo nifer o ddatblygiadau sylweddol yn prysur ddod yn realiti.

Mae Wylfa Newydd yn agosáu, mae ymgynghoriad anffurfiol cyn PAC 2 newydd orffen a disgwylir ceisiadau cynllunio ar gyfer y gwaith o glirio’r safle a gwneud gwelliannau i’r A5025 o’r Fali i’r safle erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd yr ymgynghoriad ffurfiol olaf (PAC 2) yn cychwyn ym mis Gorffennaf gyda’r bwriad wedyn o gyflwyno’r ceisiadau am ddatblygiadau safleoedd cyswllt y flwyddyn nesaf yn ogystal â chyflwyno’r cais am yr orsaf ei hun i’r Adran Ynni a Newid Hinsawdd erbyn mis Chwefror 2017. Mae swyddfeydd Horizon ar y safle wedi ehangu’n ddiweddar gyda 150 o weithwyr yno ac 20 prentis newydd gael eu cymryd ymlaen.

Yn gysylltiedig â phrosiect Wylfa Newydd mae datblygiad Land and Lakes. Mae’r cais cynllunio hwn am barc gwyliau a llety gweithwyr i Wylfa Newydd a’r cytundeb 106 sydd ynghlwm â fo rŵan wedi’i gwblhau. Mae’r cwmni wrthi’n negodi telerau efo Horizon ar hyn o bryd. Dyma esiampl o brosiect Ynys Ynni yn dad-risgio ac yn cynorthwyo.

Er mai Wylfa yw sylfaen y prosiect Ynys Ynni mae tri phrosiect ynni sylweddol ar y gweill hefyd. Mae cwmni Orthios wedi denu buddsoddiad gan gwmni Sino-Fortone o Tsieina i adeiladu pwerdy a parc-eco cynhyrchu bwyd ar hen safle Alwminiwm Môn. Maent wedi cyflogi 12 gweithiwr hyd yma ac yn bwriadu cychwyn adeiladu yn 2017. Pan fydd yn weithredol bydd yn cyflogi rhwng 500 a 600 o weithwyr.

Mae’r astudiaethau ar gyflymder y llanw i’r gorllewin o Gaergybi yn dangos bod y lleoliad ymysg y goreuon ym Mhrydain i osod tyrbeini creu trydan drwy

ddefnyddio rhediad y llanw. Mae dau brosiect wedi eu sefydlu i fanteisio ar hyn. Mae cwmni Minesto o Sweden yn bwriadu gosod tyrbeini arloesol yn y parth mwyaf gorllewinol. Maent wedi dechrau cyflogi gweithwyr a sefydlu swyddfa yng Nghaergybi. Os bydd y fenter hon yn llwyddiannus ei bwriad yw adeiladu'r tyrbeini ar Ynys Môn. Mae'r prosiect wedi denu £9.5 miliwn o gymorth gan Lywodraeth Cymru.

Yr ail brosiect sy'n bwriadu sefydlu 7 parth i dreialu tyrbeini gan wahanol gwmnïau rhyngwladol yw Morlais. Menter Môn sydd wedi sefydlu'r prosiect. Ar hyn o bryd mae'r prosiect yn gweithio ar gynyddu'r buddsoddiad i osod cysylltiad trydan i'r parth. Mae potensial enfawr i'r ddau brosiect yma osod Ynys Môn ar y map fel canolfan ragoriaeth ar gyfer creu ynni drwy ddefnyddio'r llanw.

Un o'r nodau o dan y pennawd hwn o'r cynllun corfforaethol yw adnewyddu cymunedol. Y prif brosiect o dan y pennawd hwn sydd wedi bod yn ofnadwy o lwyddiannus yw denu'r grant Lleoedd Llewyrchus o £7.9 miliwn i fuddsoddi yng Nghaergybi. I unrhyw un sy'n mynd i'r dref yn rheolaidd mae'r buddsoddiad yn hollol amlwg, mae'r gwaith ar y Stryd Fawr wedi gwella delwedd y stryd yn enfawr. Allbwn y prosiect yw 18 prosiect cyfalaf, 62 o fusnesau o faint bach a chanolig yn elwa trwy ennill cytundebau, 22 o gartrefi wedi'u gwella a 22 wedi eu hadeiladu o'r newydd, 6 cyfleuster cymunedol a hamdden wedi cael eu creu neu eu gwella a £13 miliwn o gyllid cyfatebol wedi'i sicrhau.

Yn olaf mae gwaith wedi cychwyn ar Barc Gwyddoniaeth y Brifysgol yn y Gaerwen. Pwrpas y Parc yw rhoi gofod i gwmnïau newydd fydd yn arloesi yn y meysydd ynni a thechnoleg. Drwy greu isadeiledd a ffatrïoedd ar yr ynys bydd modd i ni elwa o'r cwmnïau a fydd yn ffynnu yn y parc os ydynt yn penderfynu sefydlu eu busnesau ar yr ynys.

Tîm Twristiaeth bach ofnadwy sydd gan yr Adran Datblygu'r Economi ond maent wedi gallu denu llawer o ddigwyddiadau cyffrous i sefydlu ar yr ynys yn ystod misoedd yr haf i ddenu a chadw twristiaid yma. Mae cwmni Always Aim High yn trefnu'r triathlon Sandman yn Llanddwyn a'r ras feicio Tour De Môn o amgylch yr Ynys. Yr haf diwethaf dechreuodd y Tour de Britain ym Miwmares.

Digwyddiadau eraill o bwys yw'r Ŵyl Fwyd ym Mhorthaethwy a Biwmares, mae'r rhain wedi tyfu y llynedd ac wedi ehangu i gynnal 'slams bwyd' o amgylch yr ynys. Mae'r gweithgareddau hyn yn hyrwyddo'r diwydiant bwyd sy'n datblygu yma ym Môn ac yn ddiweddar mae bwyty Dylans wedi cymryd dwy uned ym Mharc Cefni i baratoi cynnyrch maent am geisio ei farchnata mewn archfarchnadoedd a siopau.

**Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion**

Mae'r strategaeth moderneiddio ysgolion yn mynd yn ei flaen yn llwyddiannus, yng Nghaergybi mae'r gwaith o adeiladu'r ysgol gynradd newydd wedi cychwyn efo'r ffrâm i'r adeilad newydd yn ei le a'r hen adeilad wedi ei 'gytio'

ac yn cael ei addasu. Mae Pennaeth wedi'i benodi ac mae corff llywodraethwyr cysgodol yn ei le.

Yn Llanfaethlu mae safle newydd Ysgol Rhyd Y Llan wedi cael ei glirio a bydd y gwaith adeiladu yn cychwyn ddiwedd y mis. Eto, mae Pennaeth wedi'i phenodi a chorff cysgodol yn ei le.

Mae'r achos busnes terfynol i ysgol ardal ym mro Rhosyr yn cael ei gwblhau a safleoedd yn cael eu hystyried.

Mae'r gwaith i godi a chynnal safonau yn cael sylw gyda strategaeth i rwystro ysgolion rhag llithro categori wedi'i lunio ac ar waith. Rydym ni fel aelodau yn chwarae rhan yn y broses hon trwy'r panel codi safonau sy'n herio a dal yr ysgolion yn atebol.

**Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi**

Mae'r Cyngor, fel un sydd dal yn cynnal ei stoc tai ei hun, wedi prynu allan o'r cynllun cyfrif refeniw tai. Golyga hyn ein bod rŵan yn gallu adeiladu a phrynu tai i ychwanegu at ein stoc o dai rhent cymdeithasol. Dros y flwyddyn nesaf ein bwriad yw prynu 15 tŷ y gellir eu gosod a hefyd adeiladu 15 o'r newydd. Er mwyn cynnal y nifer o dai i ymateb i'r galw am dai rhent fforddiadwy mae'r Cyngor wedi penderfynu dod â'r cynllun hawl i brynu i ben. Yn ogystal â'r datblygiadau hyn mae cynllun blynyddol cyfalaf y cyfrif refeniw tai yn dal i wneud gwelliannau i godi safon ein stoc.

Mae prosiect i drawsnewid a moderneiddio'r uned cynnal a chadw tai yn dechrau dod i ben. Mae'r prosiect hwn wedi dod â'r costau cynnal i lawr a hefyd wedi gwella ein cefnogaeth i denantiaid.

Mae'r adran hefyd wedi gweithio yn agos efo'r cynllun VVP yng Nghaergybi i wella ac adeiladu tai.

**Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd**

Mae'r gwaith o foderneiddio ein Canolfannau Hamdden wedi gweld cynnydd sylweddol. Bwriad y prosiect yw dod â'r buddsoddiad mae'r Cyngor yn ei ariannu i lawr 60%. Mae'r system bwcio gyfrifiadurol wedi cael ei diweddaru a'r system talu am aelodaeth drwy ddebyd uniongyrchol wedi codi incwm y canolfannau. Yng nghanolfan Caergybi mae buddsoddiad gan y Cyngor a'r cynllun VVP wedi ein galluogi i wella ansawdd yr adeilad. Mae buddsoddiad gan y Cyngor yn mynd i mewn i atgyweirio canolfannau Llangefni ac Amlwch hefyd. Mae'r adran wrthi'n moderneiddio delwedd y gwasanaeth a bydd brand Môn Actif yn cael ei lansio'n fuan.

Mae'r gwaith o drawsnewid ein Llyfrgelloedd wedi cychwyn drwy ymgynghori â'r defnyddwyr a chynnal sesiynau agored mewn pedwar man yn y Sir. Mae gwaith manwl ar ddatblygu opsiynau yn digwydd ar hyn o bryd efo'r bwriad o

fynd allan i ymgynghori ar gynigion mwy manwl gyda hyn. Y bwriad yw dod â chynigion terfynol i sgriwtini ac wedyn i'r Pwyllgor Gwaith erbyn mis Hydref.

**Canolbwyntio ar ein Cwsmeriaid, Dinasyddion a Bro a Thrawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)**

Mae'r prosiect Gweithio'n Gallach yn chwarae rhan allweddol yn y blaenoriaethau yma. Bydd y gwaith o ailfodelu'r dderbynfa a gwneud addasiadau i'r prif adeilad i roi lle i staff sy'n symud o swyddfeydd tu allan i'r pencadlys yn cychwyn yn fuan. Rhoddwyd cytundebau'n ddiweddar i gwmnïau lleol. Mae'r costau'n rhatach na'r amcan brisiau gwreiddiol. Mae symudiadau adran wedi cychwyn o fewn y prif adeilad.

Pwrpas y dderbynfa newydd yw creu gofod siop un stop fydd yn gwella ansawdd gofal cwsmer efo'r bwriad o allu delio efo ceisiadau defnyddwyr gwasanaethau yn gynt.

Rhan o'r ymrwymiad i wella gofal cwsmer yw'r Siarter Gofal Cwsmer sydd wedi'i fabwysiadu. Mae hwn yn gasgliad o egwyddorion y disgwylir i'n staff eu dilyn i hyrwyddo arfer dda wrth wasanaethu ein cwsmeriaid.

Datblygiad arall yng ngofal cwsmer yw cyflwyniad AppMôn. Meddalwedd cyfrifiadurol i ffonau symudol yw hwn sy'n golygu y gall ein cwsmeriaid wneud cais am wasanaeth yn rhwyddach a chyflymach. Hwn yw'r ap dwyieithog cyntaf o'i fath.

Yn y maes technoleg gwybodaeth mae nifer fawr o ddatblygiadau a gwelliannau wedi digwydd ac yn dal i ddigwydd. Rhoddwyd isadeiledd 'serfiwr' newydd yn ei le efo storfa electronig newydd. Mae system Citrix sy'n gadael i'n gweithwyr weithio o unrhyw fan yn cael ei gyflwyno. Mae'r system Microsoft Lync wedi cael ei rhoi mewn lle. Rhedir canolfannau data modern ar isadeiledd o serfiwr rhith, mae'r gwaith hwn yn gweld cynnydd sylweddol. Rydym wedi creu arbedion mewn gwaith argraffu trwy osod dyfeisiau argraffu amlbwrpas sy'n cael eu rhannu gan staff. Fel arfer mae cynllun gwaith o foderneiddio isadeiledd technoleg gwybodaeth fel hyn yn cymryd amser maith. Mae'r gwaith hwn i gyd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf.

**DATBLYGIADAU ERAILL**

Ni ellir cynllunio am bob digwyddiad ac mae rhaid i'r Cyngor ddelio efo rhai pethau yn ei bwysau. Eleni rydym wrthi'n gwneud trefniadau i dderbyn dau deulu o ffoaduriaid o Syria ac yn ceisio dod o hyd i safleoedd i sipsiwn a theithwyr.

Ym mis Mehefin fe gynhaliwyd cyfarfod i groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i'r ynys yn 2017. Erbyn hyn mae pwyllgorau apêl lleol wedi'u sefydlu a £192,000 wedi ei hel at yr achos yn barod.

Yn olaf ar ddiwedd y flwyddyn fe ddaeth cynhyrchu trydan i ben yn Wylfa ar ôl 40 mlynedd. Fel y soniwyd eisoes rydym yn chwarae ein rhan yn natblygiad Wylfa Newydd.

Cymeraf y cyfle hwn i ddiolch i'r Prif Weithredwr, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Penaethiaid a holl staff y Cyngor am eu gwaith caled a'u hymroddiad dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolch hefyd i'm cyd-aelodau am eich cefnogaeth.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad:** | **12 Mai 2016** |
| **Teitl yr adroddiad:** | **Safonau'r Gymraeg a Pholisi Iaith y Cyngor** |
| **Adroddiad gan:** | **Prif Weithredwr Cynorthwyol – Gwella Partneriaethau, Cymunedau a Gwasanaethau** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cymeradwyo Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor** |

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, roedd yn ofynnol i sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru baratoi cynlluniau iaith Gymraeg fel modd o egluro sut y byddent yn mynd ati i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Roedd yn ofynnol i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r Cynllun trwy gyfraith.

1.2 Mae Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 yn seiliedig ar yr egwyddorion na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru ac y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae'r Mesur wedi galluogi Gweinidogion Cymru bennu Safonau ymddygiad sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Derbyniodd y Cyngor hwn Hysbysiad Cydymffurfio ar y Safonau Terfynol ar 30 Medi 2015 a daeth Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor i ben ar 30 Mawrth 2016, sef ar y diwrnod yr oedd hi'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg am y tro cyntaf.

## 2.0 Yr angen i fabwysiadu polisi

2.1 Mae'r Cyngor eisoes wedi bod yn cydymffurfio â nifer sylweddol o'r 160 o Safonau a osodwyd arno, a hynny'n unol â'i Gynllun Iaith a ddaeth i ben ar 30 Mawrth 2016. Roedd y Cynllun Iaith hefyd yn mynd ymhellach na'r Safonau Iaith mewn sawl maes ac ystyrir na ddylid gwanhau sefyllfa bresennol y Cyngor o ran yr iaith trwy gyfyngu at gydymffurfio â'r Safonau yn unig.

2.2 O ganlyniad, fe ddatblygwyd polisi iaith drafft sy'n seiliedig ar y Cynllun Iaith ac sydd hefyd yn ymgorffori'r Safonau y mae'r Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

2.3 Cyflwynwyd y polisi drafft i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 25 Ebrill 2016. Yn y cyfarfod hwnnw, dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor y derbyniwyd ystod o sylwadau ar y cynnwys. Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r polisi iaith ac awdurdodi'r swyddogion perthnasol, mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio, i gwblhau unrhyw waith golygu pellach i'r polisi drafft cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn.

2.4 Mae'r Polisi drafft bellach wedi'i addasu er mwyn adlewyrchu'n gliriach geiriad Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 – gweler Atodiad 1.

2.5 Er hwylustod, nodir y safon perthnasol, neu'r rhan perthnasol o'r Cynllun iaith, trwy'r ddogfen ddrafft. Bwriedir hepgor y cyfeiriadau hyn cyn cyhoeddi'r ddogfen derfynol.

## 3.0 Fframwaith Polisi'r Cyngor

3.1 Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg wedi ei gynnwys yn Fframwaith Polisi'r Cyngor. Er dilyniant a chysondeb, argymhellir y dylai'r Polisi Iaith newydd gymryd lle'r Cynllun Iaith Gymraeg yn y Fframwaith Polisi, ond fel mater o ddewis lleol yn hytrach na gofyniad cyfreithiol.

## 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyngor:

4.1.1 Gymeradwyo Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn

4.1.2 Ystyried yr argymhelliad canlynol a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 25 Ebrill 2016:

"argymell i'r Cyngor Sir y dylid mabwysiadu Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor fel mater o ddewis lleol a newid fframwaith polisi'r Cyngor fel a ganlyn er mwyn adlewyrchu hynny:

> dileu'r 'Cynllun Iaith Gymraeg' o'r rhestr o gynlluniau y mae'n rhaid i'r Cyngor eu mabwysiadu yn ôl y gyfraith (rhan 3.2.2.1.1 o'r Cyfansoddiad)
>
> cynnwys 'Polisi Iaith Gymraeg' o dan y rhestr o'r cynlluniau a'r strategaethau eraill y penderfynodd y Cyngor y dylai'r Cyngor llawn eu mabwysiadu fel mater o ddewis lleol (rhan 3.2.2.1.3 o'r Cyfansoddiad)"

 **ATODIAD 1**

# Polisi Iaith Gymraeg
# DRAFFT
# Cyngor Sir Ynys Môn

# Fersiwn 2.0 (Mai 2016)

DRAFT

**Am y polisi hwn**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru ac y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae'r polisi hwn yn nodi sut y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu'r egwyddor honno hyn wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'r polisi hefyd yn esbonio sut y mae'r Cyngor yn bwriadu cydymffurfio â safonau'r Gymraeg y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

Cefnogir y Polisi gydag adnoddau ar wefan y Cyngor.

 **ATODIAD 1**

**Hanes Adolygu**

| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
|---|---|---|
| 1.0 | Ebrill 2016 | Drafft cyntaf i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith. |
| 2.0 | Mai 2016 | Drafft diwygiedig i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn. |

| **Dyddiad yr adolygiad nesaf** | |
|---|---|
| Bydd y polisi'n cael ei adolygu : | Mai 2018 |
| Cynhelir yr adolygiad gan: | Prif Weithredwr Cynorthwyol - Gwella Partneriaethau, Cymunedau a Gwasanaethau |

**Manylion cyswllt:**

Dylai unrhyw un sy'n dymuno cysylltu â'r Cyngor mewn perthynas â'r Polisi hwn gysylltu â'r Swyddog Iaith :

Carol Wyn Owen
Uned Bolisi – Gwasanaethau Democrataidd
Busnes y Cyngor
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Rhif Ffôn : 01248 752561
Rhif Ffacs : 01248 750839
E-bost : cwoce@ynysmon.gov.uk

## Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais – defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg. Os ydych yn darllen y fersiwn electronig, defnyddiwch y ddolen "English" ar ochr dde'r bar uchaf. Os ydych yn darllen copi papur, defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda i gael copi o'r fersiwn Saesneg.

This document is available in English. If you are reading the electronic version, please use the "English" link on the right hand side of the top bar. If you are reading a paper copy, please use the above contact details to obtain an English version.



DRAFFT

## Cynnwys

| | | Tud. |
|---|---|---|
| **1.0** | **Rhagarweiniad** | **5** |
| 1.1 | Ynys Môn | 5 |
| 1.2 | Cyngor Sir Ynys Môn | 5 |
| 1.3 | Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru | 5 |
| 1.4 | Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 | 5 |
| 1.5 | Comisiynydd y Gymraeg | 6 |
| 1.6 | Cynlluniau Iaith Gymraeg | 6 |
| 1.7 | Safonau'r Gymraeg | 6 |
| 1.8 | Hybu'r Gymraeg | 6 |
| 1.9 | Cyfrifoldeb am Weithredu'r Polisi | 7 |
| **2.0** | **Datganiad Polisi** | **7** |
| **3.0** | **Cynllunio Gwasanaethau Dwyieithog** | **7** |
| 3.1 | Ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg | 7 |
| 3.2 | Defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol y Cyngor | 8 |
| **4.0** | **Cyflwyno Gwasanaethau Dwyieithog** | **11** |
| 4.1 | Egwyddorion cyffredinol | 11 |
| 4.2 | Dyfarnu Contractau | 11 |
| 4.3 | Gwasanaethau ar ran y Cyngor gan bartïon eraill | 12 |
| 4.4 | Dyfarnu Grantiau | 13 |
| 4.5 | Cyflawni swyddogaethau statudol – Rheoleiddio | 14 |
| 4.6 | Partneriaeth (ffurfiol ac anffurfiol) | 14 |
| 4.7 | Cyd-ddarparu gwasanaethau | 15 |
| 4.8 | Cyrsiau a gynigir i'r Cyhoedd | 15 |
| **5.0** | **Delio â'r cyhoedd** | **16** |
| 5.1 | Delio wyneb yn wyneb â'r cyhoedd | 16 |
| 5.2 | Gohebiaeth | 16 |
| 5.3 | Ffonio | 17 |
| 5.4 | Cyfarfodydd nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol | 18 |
| 5.5 | Cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd (yn cynnwys gwrandawiadau, ymholiadau ac achosion cyfreithiol eraill) | 19 |
| 5.6 | Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan y Cyngor | 20 |
| 5.7 | Cyfarfodydd eraill | 20 |
| 5.8 | Gwefannau, gwasanaethau ar-lein a'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol | 21 |
| 5.9 | Peiriannau hunanwasanaeth | 21 |

DRAFT

## Cynnwys

Tud.


| | | |
|---|---|---|
| **6.0** | **Wyneb cyhoeddus y Cyngor** | **21** |
| 6.1 | Hunaniaeth gorfforaethol | 21 |
| 6.2 | Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan y Cyngor | 22 |
| 6.3 | Arwyddion | 22 |
| 6.4 | Enwau lleoedd | 23 |
| 6.5 | Systemau annerch cyhoeddus a negeseuon sain | 23 |
| 6.6 | Cyhoeddi, argraffu ac arddangos deunydd cyhoeddus | 23 |
| 6.7 | Taflenni, llyfrynnau, ffurflenni a deunydd esboniadol | 24 |
| 6.8 | Datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau | 25 |
| 6.9 | Hysbysebu a chyhoeddusrwydd | 25 |
| 6.10 | Hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau swyddogol | 25 |
| 6.11 | Deunydd gwledol a clywedol electronig | 26 |
| 6.12 | Gwaith marchnata | 26 |
| 6.13 | Hysbysebion swyddi | 26 |
| **7.0** | **Gweithredu'r Polisi** | **27** |
| 7.1 | Staffio | 27 |
| 7.2 | Cwynion a wneir gan aelod o staff y Cyngor | 28 |
| 7.3 | Disgyblu staff | 29 |
| 7.4 | Technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan y Cyngor, a'r fewnrwyd | 29 |
| 7.5 | Meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi'r gweithlu | 30 |
| 7.6 | Recriwtio ac apwyntio | 32 |
| 7.7 | Hyfforddiant | 33 |
| 7.8 | Y Gwasanaeth Cyfieithu | 34 |
| 7.9 | Pryderon a Chwynion | 35 |
| **8.0** | **Hybu'r Gymraeg** | **35** |
| **9.0** | **Cadw Cofnodion** | **36** |
| **10.0** | **Materion Atodol** | **37** |
| 10.1 | Rhoi cyhoeddusrwydd i safonau'r Gymraeg | 37 |
| 10.2 | Cyhoeddi gweithdrefn gwyno | 37 |
| 10.3 | Cyhoeddi trefniadau goruchwylio, hybu ayyb | 37 |
| 10.4 | Llunio adroddiad blynyddol | 38 |
| 10.5 | Rhoi cyhoeddusrwydd i'r modd y bwriedir cydymffurfio â safonau'r Gymraeg | 38 |
| 10.6 | Darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg | 38 |
| **11.0** | **Gwella'r Gwasanaeth** | **39** |


DRAFT

# 1.0 Rhagarweiniad

## 1.1 Ynys Môn

Dengys Cyfrifiad 2011 bod 57.2% o boblogaeth Ynys Môn (dros 3 oed) yn siarad Cymraeg o'i gymharu â 19% thros Gymru. Er bod hyn yn gosod Môn yn un o gadarnleoedd y Gymraeg ac yn un o'r ddwy Sir yng Nghymru lle mae dros hanner y boblogaeth yn siarad Cymraeg, mae'n dangos gostyngiad o 2.9% ers Cyfrifiad 2001. Y Cyngor Sir yw'r cyflogwr mwyaf ar yr ynys. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei gyfrifoldeb i hyrwyddo'r iaith yn gymunedol ac fel cyflogwr i ddenu a chadw siaradwyr Cymraeg i'r sefydliad i ddarparu safon uchel o wasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd.

## 1.2 Cyngor Sir Ynys Môn

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am ddarparu'r holl wasanaethau llywodraeth leol i bobl Ynys Môn.

Mae canolfan weinyddol y Sir yn Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni.

Mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau trwy strwythur uwch-reolaeth sydd yn cynnwys y Prif Weithredwr a dwy swydd Prif Weithredwyr Cynorthwyol newydd sydd yn gyfrifol am y meysydd canlynol:

- Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes
- Gwella Partneriaethau, Cymunedau a Gwasanaethau

Mae materion o ran yr iaith yn un o brif gyfrifoldebau'r swydd sy'n ymwneud â Gwella Partneriaethau, Cymunedau a Gwasanaethau.

Mae gan Benaethiaid Gwasanaeth y Cyngor gyfrifoldebau gweithredol unigol am ein gwasanaethau.

## 1.3 Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru

1.3.1 Mae'r Cyngor yn cefnogi amcanion Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru ac yn ystyried ei Bolisi Iaith Gymraeg fel cyfraniad lleol pwysig tuag at wireddu'r strategaeth genedlaethol ehangach honno. (CI 1.3)

## 1.4 Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011

1.4.1 Nod y Mesur Iaith newydd yw cynnig mwy o eglurder a chysondeb i siaradwyr Cymraeg o ran y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn y Gymraeg. Mae'r Gymraeg bellach yn iaith swyddogol yng Nghymru yn sgil y Mesur yma a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2011. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i weithredu'n gadarnhaol i ymgymryd â swyddogaethau o dan y Mesur Iaith.



'CI…' – o'r Cynllun Iaith Gymraeg (Mawrth 2012)



DRAFT

## 1.5 Comisiynydd y Gymraeg

1.5.1 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Prif nod Comisiynydd y Gymraeg yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

## 1.6 Cynlluniau Iaith Gymraeg

1.6.1 O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, roedd yn ofynnol i sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru baratoi Cynllun Iaith Gymraeg fel modd o egluro sut y byddent yn mynd ati i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn galluogi Gweinidogion Cymru bennu Safonau ymddygiad sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Bydd y Safonau hyn yn cymryd lle'r Cynlluniau Iaith.

1.6.2 Derbyniodd y Cyngor hwn [1]Hysbysiad Cydymffurfio ar y Safonau Terfynol ar 30 Medi 2015. O ganlyniad, daeth Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor i ben ar 30 Mawrth 2016, sef ar y diwrnod y daeth hi'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg am y tro cyntaf.

## 1.7 Safonau'r Gymraeg

1.7.1 Mae'r polisi hwn yn ymgorffori'r Safonau y mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy. Ceir rhestr o'r Safonau hynny ar wefan y Cyngor ac mae copïau papur, neu fformatau eraill, ar gael ar gais. Defnyddiwch y manylion cyswllt ar dudalen 2 os gwelwch yn dda.

## 1.8 Hybu'r Gymraeg

**1.8.1 Corfforaethol - Grŵp Tasg Iaith -** Mae'r Cyngor Sir wedi sefydlu Grŵp Tasg Iaith i hybu'r Gymraeg ym mhob agwedd o waith y Cyngor. Rôl y Grŵp Tasg Iaith fydd ceisio hyrwyddo'r Gymraeg yn gorfforaethol mewn modd trawsbynciol a thraws adrannol. Yn ogystal, bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn cwrdd â'i ymrwymiad i'r Gymraeg trwy gyflawni'r tasgau a ganlyn:-

- Goruchwylio gweithredu Safonau'r Gymraeg
- Adolygu a sefydlu cyfundrefnau monitor

[1] Yn unol ag Adran 44, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

- Trosglwyddo unrhyw risgiau o ran perfformiad i sylw'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'w craffu'n ymhellach

**1.8.2 Cymunedol – Fforwm Iaith -** Mae Fforwm Iaith partneriaethol yn bodoli ar lefel sirol er mwyn rhoi ffocws strategol i'r Iaith Gymraeg ar yr Ynys. Mae'r Fforwm yn gyfrifol am adnabod blaenoriaethau a llunio Strategaeth Iaith Gymraeg sirol ar gyfer y 5 mlynedd nesaf lle rhoddir ffocws ar gynyddu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

### 1.9 Cyfrifoldeb Am Weithredu'r Polisi

1.9.1 Bydd y Cyngor yn dynodi Uwch Swyddog o fewn y sefydliad i gydlynu'r iaith yn strategol ac yn gorfforaethol. Y Prif Weithredwr Cynorthwyol - Gwella Partneriaethau, Cymunedau a Gwasanaethau ('Prif Weithredwr Cynorthwyol') sy'n cyflawni'r swyddogaeth ar hyn o bryd. Bydd y swyddog yma, gyda chefnogaeth yr Uned Bolisi, yn hyrwyddo gweithrediad y polisi hwn ac yn chwilio am gyfleoedd i gynghori ac annog adrannau i brif ffrydio'r Gymraeg i bolisïau a mentrau newydd.

1.9.2 Bydd y Penaethiaid Gwasanaeth yn gyfrifol am sicrhau fod eu gwasanaethau yn gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg ynghyd â'r polisi hwn.

## 2.0 Datganiad Polisi

2.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru ac y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Y Gymraeg a'r Saesneg fydd ieithoedd swyddogol y Cyngor a bydd iddynt yr un statws a dilysrwydd yng ngweinyddiaeth a gwaith y Cyngor. Mae diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a datblygu'r defnydd ohoni oddi fewn ac oddi allan i'r Cyngor yn un o amcanion sylfaenol y Cyngor. (CI 1.2)

2.2 Bydd gweinyddiaeth a gwaith y Cyngor yn seiliedig ar y ddwy egwyddor a nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sef:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

# 3.0 Cynllunio Gwasanaethau Dwyieithog

### 3.1 Ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg

3.1.1 Sicrheir bod unrhyw gynlluniau, mentrau neu bolisïau a fabwysiedir gan y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion y polisi hwn. (CI 2.1)



'CI…' – o'r Cynllun Iaith Gymraeg (Mawrth 2012)

3.1.2 Bydd cyfeiriad at y polisi hwn mewn unrhyw gynlluniau, mentrau neu bolisïau o eiddo'r Cyngor lle bo hynny'n berthnasol. (CI 2.1.2)

3.1.3 Ni fydd y Cyngor yn gweithredu unrhyw fesurau a allai danseilio'r polisi hwn a'i amcanion. (CI 2.1.3)

3.1.4 Gwneir asesiad o effaith tebygol neu wirioneddol unrhyw bolisi neu arfer gwaith y bydd y Cyngor yn ei lunio neu yn ei addasu, a hynny ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Rhoddir ystyriaeth i’r canlynol:

(a) pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw’r rheini’n bositif neu’n andwyol) y byddai’r penderfyniad polisi yn eu cael. (Safon 88)

(b) sut y gellid llunio’r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai’r penderfyniad polisi’n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif. (Safon 89)

(c) sut y gellid llunio’r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai’r penderfyniad polisi’n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai’n cael effeithiau llai andwyol. (Safon 90)

3.1.5 Mae’r templed asesu effaith o ran cydraddoldeb a ddatblygwyd gan y Cyngor yn cynnwys yr iaith Gymraeg fel un o’r elfennau sydd angen sylw wrth gynnal asesiad o’r fath. Hefyd, mae’r canllawiau drafft sy’n mynd gyda’r templed yn cynnwys cyngor ar y math o faterion y dylid eu hystyried o ran yr iaith. (CI 2.1.3)

3.1.6 Pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy’n ymwneud â phenderfyniad polisi, bydd y ddogfen honno’n ystyried a cheisio barn ynghylch yr effaith ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Rhoddir ystyriaeth i’r canlynol:

(a) yr effeithiau (pa un ai yw’r rheini’n bositif neu’n andwyol) y byddai’r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael (Safon 91)

(b) sut y gellid llunio neu addasu’r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai’n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif. (Safon 92)

(c) sut y gellid llunio neu addasu’r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai’n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai’n cael effeithiau llai andwyol. (Safon 93)

3.1.7 Pan fydd y Cyngor yn comisiynu neu’n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i’w gynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, bydd yn sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried yr effeithiau ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Rhoddir ystyriaeth i’r canlynol:



‘CI…’ – o’r Cynllun Iaith Gymraeg (Mawrth 2012)

(a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael. (Safon 95)

(b) sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif. (Safon 96)

(c) sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol. (Safon 97)

**3.2 Defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol y Cyngor** (Safon 98)

3.2.1 Bydd y Cyngor yn defnyddio ac yn cyfeirio at y polisi hwn wrth lunio a diwygio polisïau, cynlluniau a mesurau eraill ymhob gwasanaeth, fel bod agweddau Cymraeg gwasanaeth y Cyngor yn cael eu hintegreiddio i bob maes o fewn ei brosesau gweinyddol arferol. Yn ogystal, cynhelir ymarferion codi ymwybyddiaeth o egwyddorion y polisi ymhlith staff. (CI 6.5.1)

3.2.2 Bydd Aelodau'r Cyngor, y Prif Weithredwr, y Prif Weithredwyr Cynorthwyol a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn gefnogol i holl fesurau'r polisi hwn. (CI 6.5.2)

3.2.3 Y Prif Weithredwr Cynorthwyol fydd yn gyfrifol am gylchredeg gwybodaeth, cyfarwyddiadau ac arweiniad am y polisi i bob gwasanaeth, a bydd pob Pennaeth Gwasanaeth wedyn yn gyfrifol am ei gylchredeg o fewn ei (g)wasanaeth. Mae hi'n bwysig fod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o ofynion y polisi er mwyn iddo weithio'n effeithiol. (CI 6.5.3)

3.2.4 Nod y Cyngor yw sicrhau mai Cymraeg fydd prif iaith gweinyddiaeth fewnol y Cyngor, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Er mwyn cyflawni hyn bydd y Cyngor yn monitro cynnydd yn flynyddol. (CI 2.2.1)

3.2.5 Yn wyneb polisi uchod y Cyngor bydd y Penaethiaid Gwasanaeth yn gyfrifol am annog eu swyddogion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio a chyfathrebu'n fewnol, ar lafar ac yn ysgrifenedig. (CI 2.2.1)

3.2.6 O gydnabod yr angen statudol i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac yn wyneb dymuniad y Cyngor Sir i hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg, bydd targedau'n cael eu gosod ac amserlen yn cael ei phennu ar gyfer gwella sgiliau (llafar ac ysgrifenedig) dwyieithrwydd staff. (CI 2.2.1)

3.2.7 Anogir staff i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â'i gilydd ar lafar ac yn ysgrifenedig. Darperir y pecyn meddalwedd cyfrifiadurol 'CySill/CysGair' i staff er mwyn annog a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. (CI 2.2.2) (Safon S120)

DRAFT



'CI…' – o'r Cynllun Iaith Gymraeg (Mawrth 2012)

3.2.8 Serch hynny, bydd gan aelodau staff y Cyngor yr hawl i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg cyn belled ag y bo hynny'n gyson â darpariaethau'r polisi hwn ac nad yw'n amharu'n sylweddol ar effeithiolrwydd cyfathrebu mewnol. (CI 2.2.2)

3.2.9 Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg mewn cyfarfodydd o weithgorau swyddogion a chyrsiau hyfforddi staff fel bo'r angen. (CI 2.2.3)

3.2.10 Bydd pob gohebiaeth ysgrifenedig mewnol cyffredinol yn ddwyieithog, p'un ac ydyw ar bapur neu ar ffurf e-bost. Bydd staff yn cael eu hannog i anfon gohebiaeth at ddarllenwyr Cymraeg yn y Gymraeg. (CI 2.2.4)

3.2.11 Er mwyn sicrhau unffurfiaeth ac er mwyn osgoi dryswch, un wyddor fydd yn cael ei defnyddio wrth ddynodi paragraffau ac adrannau ayyb mewn testunau, a'r wyddor Gymraeg fydd honno. (CI 5.3.3)

3.2.12 Gydag unrhyw ohebu dwyieithog, bydd yr ohebiaeth naill ai gyda'r Gymraeg yn ymddangos uwchben y Saesneg neu ar ffurf gyfochrog, gyda'r Gymraeg ar y chwith a'r Saesneg ar y dde. Bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd. (CI 2.2.5)

3.2.13 Mae'r fewnrwyd gyfrifiadurol 'MonITor' wedi cael ei sefydlu i ledaenu gwybodaeth gorfforaethol i staff y Cyngor. Bydd y wybodaeth a ddarperir trwy'r cyfrwng hwn yn ddwyieithog. Hefyd, mae'r papur newydd mewnol i'r staff, "Medra" yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog. (CI 2.2.6)

3.2.14 Os bydd swyddog yn gohebu ag aelod o'r cyhoedd ar ôl siarad wyneb yn wyneb ag o/hi yn Gymraeg neu ar ôl siarad gydag o/hi dros y ffôn yn Gymraeg, bydd yr ohebiaeth honno yn Gymraeg oni bai fod yr aelod o'r cyhoedd yn dymuno derbyn gohebiaeth yn y Saesneg. (CI 4.2.4) (Safon 21)

3.2.15 Pan fydd swyddog Di-Gymraeg, neu swyddog ansicr ei Gymraeg, yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg bydd yn sicrhau cymorth cydweithiwr neu gyfieithwyr y Cyngor er mwyn ymateb yn Gymraeg i'r ohebiaeth. Oni ddefnyddir gwasanaeth y cyfieithwyr, defnyddir cydweithiwr sydd â Chymraeg ysgrifenedig o safon uchel. (CI 4.2.5)

3.2.16 Bydd Penaethiaid Gwasanaeth y Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod holl staff eu gwasanaethau yn ymwybodol o'r trefniadau hyn ac am hysbysu swyddogion Di-Gymraeg o'r ddarpariaeth sydd ar gael er mwyn gohebu yn Gymraeg h.y. oni allant lunio llythyr yn y Gymraeg eu hunain, dylent wneud trefniadau i'w gyfieithu i'r Gymraeg o fewn yr adran neu, os oes angen, gael yr Uned gyfieithu i brawf- ddarllen y llythyr Cymraeg cyn ei anfon. (CI 4.2.6)

3.2.17 Bydd pecyn CysGair ar gael ar gyfer pob swyddog a bydd y Cyngor yn hyrwyddo'r defnydd o becynnau meddalwedd Cymraeg a dwyieithog yn gorfforaethol. (Safon 120) (CI 4.2.7; CI 6.5.4)



'CI…' – o'r Cynllun Iaith Gymraeg (Mawrth 2012)



DRAFT

3.2.18 Darperir geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith. (Safon 134) (gweler hefyd 6.5.21)

# 4.0 Cyflwyno Gwasanaethau Dwyieithog

## 4.1 Egwyddorion cyffredinol

4.1.1 Bydd y Cyngor yn darparu gwasanaeth cyflawn i'r cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg ar draws ei holl wasanaethau. Ni fydd dewis yr iaith yr ymdrinnir â hi wrth ymhél â gwaith y Cyngor, boed hi'n Gymraeg neu'n Saesneg, yn amharu ar effeithiolrwydd a safon y gwasanaeth hwn. (CI 3.1)

4.1.2 Y nod fydd darparu gwasanaeth o safon ymhob agwedd o waith y Cyngor - ymhob gwasanaeth, yn fewnol ac yn allanol, ac yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn unol ag ymrwymiadau'r polisi hwn. (CI 3.1)

4.1.3 Bydd safon y gwasanaeth hwn yn destun arolygu cyson gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol, gyda'r nod o wella'r safon yn barhaus. Defnyddir amryw o ddulliau gwahanol i fonitro megis gwerthuso'r elfennau Gofal Cwsmer a chynhyrchu Adroddiad Blynyddol. (CI 3.1)

4.1.4 Bydd y Prif Weithredwr Cynorthwyol hefyd yn gyfrifol am oruchwylio'r gwasanaeth dwyieithog a dderbynnir gan sefydliadau cyhoeddus eraill yng Nghymru y bydd y Cyngor yn ymwneud â nhw, gyda'r nod o annog, hwyluso a chefnogi'r sefydliadau hyn i ddarparu gwasanaeth dwyieithog cyflawn i'r cyhoedd. (CI 3.1)

## 4.2 Dyfarnu Contractau

4.2.1 Bydd unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract a gyhoeddir gan y Cyngor yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog, ac ni fydd fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn cael ei drin yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono. (Safon 76)

4.2.2 Pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, bydd yn datgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg. (Safon 77)

4.2.3 Ni fydd y Cyngor yn trin tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwyr am benderfyniadau). (Safon 77A)

4.2.4 Os bydd y Cyngor yn cael tendr yn Gymraeg, a bod angen cyfweld â thendrwr fel rhan o'r asesiad o'r tendr, bydd y Cyngor yn cynnig cynnal y cyfweliad hwnnw yn Gymraeg ac, os yw'r tendrwr yn dymuno hynny, cynhelir y cyfweliad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). (Safon 78)



'CI…' – o'r Cynllun Iaith Gymraeg (Mawrth 2012)

4.2.5 Pan fydd y Cyngor yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'r penderfyniad mewn perthynas â thendr, bydd yn gwneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg. (Safon 80)

**4.3 Gwasanaethau ar ran y Cyngor gan bartïon eraill**

4.3.1 Bydd unrhyw gytundeb neu drefniant a wneir gyda thrydydd parti, ac sydd yn ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, yn gyson â thelerau'r polisi hwn. Bydd hyn yn cynnwys (heb gyfyngiad) gwasanaethau a gaiff eu contractio allan. (CI 3.2.1)

4.3.2 Yn achos unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan drydydd parti, bydd y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod manylion llawn am ofynion penodol y Polisi Iaith sy'n berthnasol i'r gwasanaeth a gontractir allan yn cael eu cyflwyno i ddarpar ddarparwr. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am fonitro'r gydymffurfiaeth hon â'r polisi. (CI 3.2.1)

4.3.3 Bydd y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw ddarpar ddarparwyr yn ymwybodol bod angen iddynt fodloni'r Cyngor y gallant ddarparu gwasanaeth dwyieithog, yn unol ag agweddau perthnasol y polisi iaith, i'r gwasanaeth/maes dan sylw. (CI 3.2.1)

4.3.4 Yn wyneb goblygiadau Rheoli Perfformiad, dibyniaeth y Cyngor ar asiantaethau, cwmnïau, ymgynghorwyr proffesiynol, cyrff gwirfoddol ac unigolion allanol i gyflawni rhai o'i ddyletswyddau, mae hi'n bwysig bod y Cyngor, trwy gyfrwng y trefniadau i osod cytundeb i asiantaethau, cwmnïau, ymgynghorwyr proffesiynol, cyrff gwirfoddol ac unigolion allanol yn sicrhau bod yr asiantaeth, cwmni, ymgynghorwyr proffesiynol, cyrff gwirfoddol neu'r unigolion hynny yn gweithredu unrhyw elfennau perthnasol o'r polisi hwn wrth ymdrin â'r cyhoedd ym Môn. (CI 3.2.2)

4.3.5 Mae'r polisi hwn yr un mor berthnasol i unrhyw asiantaeth neu gwmni allanol sy'n darparu gwasanaeth ar ran y Cyngor ag ydyw i'r Cyngor ei hun wrth ymdrin â'r cyhoedd. (CI 3.2.3)

4.3.6 Wrth osod unrhyw gytundeb, bydd y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod yr asiantaeth neu'r cwmni sy'n ymgymryd â gwaith, sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth i'r cyhoedd, ar ran y Cyngor, yn cydymffurfio ag anghenion ieithyddol penodol y gwasanaeth yn erbyn y polisi hwn. Gwneir hynny trwy gynnwys manylion perthnasol am ofynion y polisi yn y dogfennau tendro a yrrir at yr asiantaeth neu'r cwmni perthnasol. (CI 3.2.4)

4.3.7 Lle bydd disgwyl i drydydd parti ddarparu deunydd ysgrifenedig neu wneud cyflwyniadau i gyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor, bydd y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n ddwyieithog trwy gynnwys amodau penodol o fewn y cytundeb gyda'r trydydd parti dan sylw. (CI 3.2.4)



'CI…' – o'r Cynllun Iaith Gymraeg (Mawrth 2012)



DRAFT

## 4.4 Dyfarnu Grantiau

4.4.1 Bydd y Cyngor yn ystyried effeithiau'r materion a ganlyn ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, pan fydd yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant –

(a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael;
(b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif;
(c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol;
(ch) a oes angen gofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i asesu effaith dyfarnu grant. (Safon 94)

4.4.2 Bydd unrhyw ddogfennau y bydd y Cyngor yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog, ac ni fydd y Cyngor yn trin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt. (Safon 71)

4.4.3 Pan fydd y Cyngor yn gwahodd ceisiadau am grant, bydd yn datgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. (Safon 72)

4.4.4 Ni fydd y Cyngor yn trin ceisiadau am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau). (Safon 72A)

4.4.5 Os bydd y Cyngor yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyfweld ag ymgeisydd fel rhan o asesiad y Cyngor o'r cais, bydd y Cyngor yn cynnig cynnal y cyfweliad yn Gymraeg ac, os yw'r ymgeisydd yn dymuno hynny, cynhelir y cyfweliad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). (Safon 73)

4.4.6 Pan fydd y Cyngor yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'r penderfyniad mewn perthynas â chais am grant, bydd yn gwneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg. (Safon 75)

4.4.7 Bydd y Cyngor yn annog sefydliadau, cyrff neu unigolion, nad ydynt yn cynrychioli cyrff cyhoeddus ond sydd yn derbyn nawdd ariannol gan y Cyngor hwn i ddarparu ei wasanaethau i'r cyhoedd yn ddwyieithog neu'n Gymraeg. (CI 3.3.1)


'CI…' – o'r Cynllun Iaith Gymraeg (Mawrth 2012)


DRAFT

4.4.8 Yn yr un modd, yn achos sefydliadau, cyrff neu unigolion, nad ydynt yn cynrychioli cyrff cyhoeddus, y bydd y Cyngor yn cydweithio gyda nhw, neu yn achos unrhyw bartneriaeth rhwng y Cyngor a sefydliadau, cyrff neu unigolion eraill, anogir prosiectau neu bartneriaethau o'r fath i ddarparu eu gwasanaethau i'r cyhoedd yn ddwyieithog. (CI 3.3.2)

4.4.9 Yn achos unrhyw nawdd sy'n cael ei gynnig i sefydliadau, cyrff neu unigolion, bydd y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn gyfrifol am annog derbynnydd y nawdd i ddefnyddio cyfran o'r nawdd hwnnw er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn ei weithgareddau. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am fonitro sut mae'r Gymraeg wedi cael ei hyrwyddo. (CI 3.3.3)

## 4.5 Cyflawni Swyddogaethau Statudol – Rheoleiddio

4.5.1 Bydd y Cyngor, wrth weithredu swyddogaeth o reoleiddio, yn annog unrhyw sefydliad, corff neu unigolyn, nad ydyw'n cynrychioli corff cyhoeddus, i ddefnyddio'r Gymraeg yn ei weithgareddau. Yn ôl yr angen, darperir cyngor ar arfer da. (CI 3.4.1)

4.5.2 Bydd y Cyngor, wrth brynu gwasanaethau gan drydydd parti ar ran y cyhoedd, mewn amgylchiadau na chyfeiriwyd atynt yn barod, yn annog y trydydd parti i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. (CI 3.4.2)

4.5.3 Bydd gofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol annog y sawl sy'n cael ei reoleiddio ganddo/i i hyrwyddo'r Gymraeg yn ei weithgareddau e.e. cynhyrchu taflenni, arwyddion, hysbysebion dwyieithog. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am fonitro sut mae'r Gymraeg wedi cael ei hyrwyddo. (CI 3.4.3)

## 4.6 Partneriaeth (ffurfiol ac anffurfiol) (CI 3.5)

4.6.1 Pan fo'r Cyngor yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn ariannol, bydd yn sicrhau fod y ddarpariaeth gyhoeddus yn cydymffurfio â gofynion y Polisi Iaith hwn.

4.6.2 Pan fo'r Cyngor yn ymuno â phartneriaeth y mae corff arall yn ei harwain, bydd mewnbwn y Cyngor i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â gofynion y Polisi Iaith hwn a bydd y Cyngor yn annog y partïon eraill i gydymffurfio.

4.6.3 Pan fo'r Cyngor yn gweithredu fel rhan o gonsortia, bydd yn annog y consortia i fabwysiadu polisi iaith. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r Consortia bydd y Cyngor yn gweithredu'n unol â gofynion y Polisi Iaith hwn.

4.6.4 Pan fo'r Cyngor yn ymuno â neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am eu polisïau iaith neu'r modd y maent yn bwriadu gweithredu yn ddwyieithog. Fel rhan o bob partneriaeth, bydd y Cyngor yn cynnig cyngor a chymorth i'r partïon eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth.

### 4.7 Cyd-ddarparu Gwasanaethau (CI 3.6)

4.7.1 Mae trefniadau cyd-ddarparu a chyd-ariannu gwasanaethau yn allweddol i'r dyfodol ac yn faes y bydd gofyn i'r Cyngor ei ddatblygu fwyfwy. Wrth ddatblygu strwythurau a chytundebau gydag eraill, bydd y Cyngor yn gwarchod a sicrhau disgwyliadau trigolion y Sir o safbwynt gwasanaethau dwyieithog.

4.7.2 Wrth ddrafftio ac adolygu cytundebau cyd-ddarparu a chyd-ariannu, bydd y Cyngor yn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Polisi hwn a hynny er mwyn sicrhau nad yw'r trefniadau'n arwain at unrhyw ddirywiad mewn darpariaeth ddwyieithog i'r cyhoedd. Byddwn yn monitro'r cytundebau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

4.7.3 Bydd y Cyngor yn manteisio ar y cyfle a gynigir i godi ymwybyddiaeth o broffil a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg o fewn y Sir gyda'n cyd-ddarparwyr ac i gydweithio tuag at well darpariaeth ddwyieithog ar draws wasanaethau.

4.7.4 Bydd y Cyngor hwn yn pwyso am gyfleoedd i alluogi aelodau staff i barhau i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg wrth gyd-ddarparu.

### 4.8 Cyrsiau a gynigir i'r cyhoedd

4.8.1 Os bydd y Cyngor yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, bydd yn ei gynnig yn Gymraeg. Bydd y Cyngor yn gwneud hyn ymhob amgylchiad, ac eithrio pan fo asesiad a gynhaliwyd yn unol â rhan 4.8.2 isod yn dod i'r casgliad nad oes angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg (Safon 84)

4.8.2 Os bydd y Cyngor yn datblygu cwrs addysg sydd i'w gynnig i'r cyhoedd, bydd yn asesu'r angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg; a sicrheir bod yr asesiad wedi ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. (Safon 86)

## 5.0 Delio â'r cyhoedd

### 5.1 Delio wyneb yn wyneb â'r cyhoedd

5.1.1 Bydd croeso i bobl siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg wrth ymdrin â staff y Cyngor. Ni fydd unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg. Bydd angen i wasanaethau gymryd camau i sicrhau bod eu staff rheng flaen, sy'n gwasanaethu'r cyhoedd o ddydd i ddydd, e.e. delio gydag ymholiadau, ateb galwadau ffôn, yn siarad Cymraeg. Mae pob Adain Gwasanaeth o fewn y Cyngor fel arfer yn gallu darparu gwasanaeth dwyieithog. (Safon 64) (CI 4.1)

5.1.2 Os bydd y sawl sy'n galw yn un o sefydliadau'r Cyngor yn siarad Cymraeg a'r swyddog sy'n ei (g)wasanaethu yn methu siarad Cymraeg, dylai'r swyddog esbonio na all siarad Cymraeg a gofyn a ydyw'r cwsmer yn dymuno siarad hefo siaradwr Cymraeg. Os bydd y cwsmer yn dymuno siarad hefo siaradwr Cymraeg dylid nôl swyddog dwyieithog i wasanaethu'r cwsmer. (Mewn



'CI…' – o'r Cynllun Iaith Gymraeg (Mawrth 2012)

achosion lle bo'r swyddog sy'n gwasanaethu yn ddysgwr(aig), anogir y swyddog i ddefnyddio ac ymarfer ei G/Chymraeg). (CI 4.1)

5.1.3 Yn y modd hwn, nod y Cyngor yw hysbysu ei gwsmeriaid am y polisi a'i amcanion, yn ogystal â'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan y Cyngor yng nghyswllt gwasanaeth dwyieithog cyflawn. (CI 4.1)

5.1.4 Bydd y Cyngor yn sicrhau ac yn hyrwyddo amgylchedd dwyieithog gweledol yn swyddfeydd ac adeiladau'r Cyngor sy'n agored i'r cyhoedd. Arddangosir arwydd sy'n datgan (yn ddwyieithog) fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa a bydd staff yn y dderbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny. (Safonau 67 a 68) (CI 4.6.2)

5.1.5 Mewn llecynnau arddangos, bydd y deunydd a arddangosir yn ddwyieithog. (CI 4.6.2)

## 5.2 Gohebiaeth

5.2.1 Bydd croeso i unrhyw un ohebu yn ysgrifenedig â'r Cyngor yn y Gymraeg neu'r Saesneg fel ei gilydd. Bydd yr ohebiaeth yn cael ei hateb gan y Cyngor yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol a bydd llythyrau a anfonir gan y Cyngor, boed y rheiny yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn cael eu llofnodi. Bydd llythyrau, ym mha iaith bynnag y bônt, yn cael eu hateb yn unol â'r targedau ateb llythyrau corfforaethol (o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr gwreiddiol neu o fewn targedau eraill y cytunwyd arnynt). (Safonau 1 a 6) (CI 4.2.1)

5.2.2 Pan fo'r Cyngor yn cychwyn gohebiaeth, gwneir hynny yn newis iaith y derbynnydd os yw hynny'n wybyddus ac, os nad ydyw, bydd yr ohebiaeth yn ddwyieithog. (Safon 5) (CI 4.2.2)

5.2.3 Pan fo swyddog yn cychwyn gohebiaeth gyda chorff cyhoeddus arall, anogir y swyddog i ohebu'n Gymraeg. (CI 4.2.2)

5.2.4 Gellir gohebu â chorff cyhoeddus y tu allan i Gymru fodd bynnag yn iaith y wlad lle lleolir y corff hwnnw yn unig. Mae rhai cyrff cyhoeddus a'u canolfannau yn Lloegr hefyd yn gwasanaethu Cymru. Mewn achosion o'r fath, anogir swyddogion y Cyngor hwn i ohebu'n Gymraeg gyda chyrff o'r fath. (CI 4.2.2)

5.2.5 Bydd unrhyw bapur newydd, cylchlythyrau neu lythyrau safonol a yrrir at y cyhoedd yn ddwyieithog. (Safonau 4 a 6) (CI 4.2.3)

5.2.6 Os bydd swyddog yn gohebu ag aelod o'r cyhoedd ar ôl siarad wyneb yn wyneb ag o/hi yn Gymraeg neu ar ôl siarad gydag o/hi dros y ffôn yn Gymraeg, bydd yr ohebiaeth honno yn Gymraeg oni bai fod yr aelod o'r cyhoedd yn dymuno derbyn gohebiaeth yn y Saesneg. (CI 4.2.4)



'CI…' – o'r Cynllun Iaith Gymraeg (Mawrth 2012)

5.2.7 Bydd y Cyngor yn datgan –

(a) mewn gohebiaeth, a
(b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth ato,

ei fod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y bydd yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. (Safon 7)

5.2.8 Darperir geiriad ar gyfer cyflogeion fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon ebost. (Safon 135)

5.2.9 Mewn achosion lle fo'r Cyngor yn defnyddio gwasanaeth postio uniongyrchol, bydd y testunau cysylltiedig yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg ar y chwith neu uwchben y Saesneg, pa ddiwyg bynnag sydd fwyaf perthnasol. Yn ogystal, bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd. (CI 5.11)

5.2.10 Pan fydd swyddog Di-Gymraeg, neu swyddog ansicr ei Gymraeg, yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg bydd yn sicrhau cymorth cydweithiwr neu gyfieithwyr y Cyngor er mwyn ymateb yn Gymraeg i'r ohebiaeth. Oni ddefnyddir gwasanaeth y cyfieithwyr, defnyddir cydweithiwr sydd â Chymraeg ysgrifenedig o safon uchel. (CI 4.2.5)

5.2.11 Bydd Penaethiaid Gwasanaeth y Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod holl staff eu gwasanaethau yn ymwybodol o'r trefniadau hyn ac am hysbysu swyddogion Di-Gymraeg o'r ddarpariaeth sydd ar gael er mwyn gohebu yn Gymraeg h.y. oni allant lunio llythyr yn y Gymraeg eu hunain, dylent wneud trefniadau i'w gyfieithu i'r Gymraeg o fewn y gwasanaeth neu, os oes angen, gael yr Uned gyfieithu i brawf- ddarllen y llythyr Cymraeg cyn ei anfon. (CI 4.2.6)

## 5.3 Ffonio

5.3.1 Bydd croeso i bobl siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg wrth ffonio'r Cyngor. (Safon 10) (CI 4.3.2)

5.3.2 Bydd galwadau a dderbynnir i:

unrhyw un o brif rifau ffôn y Cyngor,
unrhyw rifau llinell cymorth neu rif canolfan alwadau,
unrhyw rif llinell uniongyrchol

yn cael eu hateb yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Trwy gychwyn y cyfarchiad yn Gymraeg, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i'r sawl sy'n galw bod gwasanaeth Gymraeg ar gael. Ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y galwr. (Safonau 8, 9 a 20) (CI 4.3.1)


'CI…' – o'r Cynllun Iaith Gymraeg (Mawrth 2012)


DRAFT

5.3.3 Os bydd y sawl sy'n galw yn siarad Cymraeg a'r swyddog sy'n ateb yn methu â chynnal y sgwrs yn Gymraeg ar ôl gwneud y cyfarchiad, dylai'r swyddog esbonio na all siarad Cymraeg a gofyn a ydyw'r galwr yn dymuno siarad hefo siaradwr Cymraeg. Os bydd y galwr yn dymuno siarad hefo siaradwr Cymraeg dylid trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg a all ymdrin â'r mater, neu, onid oes neb ar gael, hysbysu'r galwr y bydd siaradwr Cymraeg yn ei ffonio'n ôl cyn gynted â phosibl. (Mewn achosion lle bo'r swyddog sy'n ateb galwad yn ddysgwr(aig), anogir y swyddog i ddefnyddio ac ymarfer ei G/Chymraeg). (Safonau 10, 17 ac 18) (CI 4.3.3)

5.3.4 Bydd negeseuon ar holl beiriannau ateb y Cyngor yn ddwyieithog, gyda'r neges Gymraeg yn gyntaf, ac yn rhoi gwybod i'r galwr fod modd gadael neges yn Gymraeg. (Safon 16) (CI 4.3.4; CI 5.1.2)

5.3.5 Bydd unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gan y Cyngor yn darparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn ddwyieithog. (Safon 22)

5.3.6 Pan fydd y Cyngor yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, ni fydd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. (Safon 12)

5.3.7 Os bydd y Cyngor yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar ei brif rif ffôn (neu ar un o'i brif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, bydd rhif ffôn y gwasanaeth Cymraeg yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol. (Safon 13)

5.3.8 Pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi ei brif rif ffôn, neu unrhyw rifau ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, bydd yn nodi (yn Gymraeg) ei fod yn croesawu galwadau yn Gymraeg. (Safon 14)

5.3.9 Os oes gan y Cyngor ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, bydd yn sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg. (Safon 15)

5.3.10 Pan fydd y Cyngor yn ffonio unigolyn am y tro cyntaf, bydd yn sefydlu dewis iaith yr unigolyn ar y cychwyn.

## 5.4 Cyfarfodydd nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

5.4.1 Os bydd y Cyngor yn gwahodd un person yn unig i gyfarfod (neu i gyfarfod i drafod mater sy'n ymwneud â llesiant y person), bydd y Cyngor yn:

(a) gofyn i'r unigolyn a yw'n dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, a
(b) os yw'r unigolyn yn hysbysu'r Cyngor ei (f)bod yn dymuno hynny,

cynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). (Safonau 23 a 25)


'CI…' – o'r Cynllun Iaith Gymraeg (Mawrth 2012)


DRAFT

5.4.2 Os bydd y Cyngor yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir):

(a) bydd y Cyngor yn gofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, (Safon 27) ac,

(b) os yw o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi hysbysu'r Cyngor eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, bydd yn trefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod. (Safon 27A)

(c) os yw pawb a gafodd wahoddiad wedi hysbysu'r Cyngor eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, cynhelir y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). (Safon 27CH)

5.4.3 Os bydd y Cyngor yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod y cyfarfod hwnnw yn ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, bydd y Cyngor yn:

(a) gofyn i'r unigolyn hwnnw neu i bob un o'r unigolion hynny a yw'n dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, ac

(b) os yw'r unigolyn hwnnw, neu os yw pob un o'r unigolion hynny, yn hysbysu'r Cyngor ei fod yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod hwnnw yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). (Safon 28)

**5.5 Cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd (yn cynnwys gwrandawiadau, ymholiadau ac achosion cyfreithiol eraill)**

5.5.1 Anfonir gwahoddiadau i gyfarfodydd yn ddwyieithog a bydd croeso i staff y Cyngor a'r cyhoedd, mewn cyfarfodydd cyhoeddus a drefnir gan y Cyngor, siarad Cymraeg neu Saesneg yn ôl eu dymuniad gan y bydd y Cyngor yn cynnal y cyfarfodydd yn ddwyieithog. Defnyddir offer cyfieithu parhaol yn yr ystafelloedd hynny o eiddo'r Cyngor lle mae offer o'r fath, neu fel arall defnyddir offer cyfieithu symudol. Wrth ateb cwestiwn gan aelod o'r cyhoedd mewn cyfarfod o'r fath, bydd yr ymateb yn yr iaith y gofynnwyd y cwestiwn ynddi. (Safon 31) (CI 4.4.1)

5.5.2 Hysbysir y cyhoedd mewn cyfarfodydd o'r fath bod offer cyfieithu ar gael ac y bydd croeso iddynt ddefnyddio eu dewis iaith. Fodd bynnag y nod fydd gwneud cyfarfodydd dwyieithog yn norm fel na fydd angen cyhoeddiadau o'r fath. (Safon 32) (CI 4.4.2)

5.5.3 Mewn cyfarfodydd cyhoeddus gwneir pob ymdrech i sicrhau y bydd swyddogion sy'n gwasanaethu'r Cyngor yn swyddogion dwyieithog. Oni ellir trefnu hyn, defnyddir offer cyfieithu symudol y Cyngor i sicrhau y gall y rhai sy'n bresennol siarad yn eu dewis iaith. Gwneir pob ymdrech i sicrhau fod delwedd a gweinyddiaeth y cyfarfodydd yn ddwyieithog. (CI 4.4.3)



'CI…' – o'r Cynllun Iaith Gymraeg (Mawrth 2012)



DRAFT

5.5.4 Yn achos cyfarfodydd o'r fath, bydd y sawl sy'n gyfrifol am drefnu'r cyfarfod hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod neges yn cael ei chyfleu ar raglen, gwahoddiad, neu hysbyseb sydd ynglŷn â'r cyfarfod, i ddynodi y bydd gwasanaeth cyfieithu ar gyfer y Di-Gymraeg yn y cyfarfod. Bydd yn gyfrifoldeb ar Gadeirydd y cyfarfod i roi arweiniad ar y defnydd iaith ar gychwyn y cyfarfod. Bydd hyn yn dwyn pwysau oddi ar y swyddogion mewn cyfarfodydd o'r fath i gyfeirio at y gwasanaeth cyfieithu ac yn gwneud y drefn o gynnal cyfarfodydd dwyieithog yn un naturiol. (Safonau 30 a 33) (CI 4.4.4)

5.5.5 Os bydd y Cyngor yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod a drefnwyd sy'n agored i'r cyhoedd, bydd yn sicrhau bod y deunydd hwnnw'n cael ei arddangos yn ddwyieithog, ac ni fydd unrhyw destun Cymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. (Safon 34)

## 5.6 Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan y Cyngor

5.6.1 Os bydd y Cyngor yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, bydd yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg:

wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad). (Safon 35)

yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo). (Safon 36)

## 5.7 Cyfarfodydd eraill

5.7.1 Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bob amser y bydd staff sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd, boed hynny yn y swyddfa, yn y cartref, ar safle ayyb, yn ddwyieithog. (CI 4.5.1)

5.7.2 Oni fydd hyn yn bosibl yn y swyddfa dylai'r swyddog Di-Gymraeg esbonio i'r aelod o'r cyhoedd dan sylw na all siarad Cymraeg a gofyn a ydyw'n dymuno siarad hefo siaradwr Cymraeg. Os bydd yr aelod o'r cyhoedd yn dymuno siarad Cymraeg dylid nôl swyddog dwyieithog i ddelio gyda'r mater. (Mewn achosion o'r fath lle bo'r swyddog yn ddysgwr(aig), anogir y swyddog i ddefnyddio ac ymarfer ei G/Chymraeg). (CI 4.5.1)

5.7.3 Yn achos cyfarfodydd y tu allan i adeiladau'r Cyngor e.e. cyfarfodydd yng nghartrefi aelodau o'r cyhoedd neu gyfarfodydd yn y maes, gwneir trefniadau i sicrhau mai swyddog dwyieithog fydd yn mynd i'r cyfarfod. Os bydd y Cyngor yn ymwybodol o ddewis iaith y cwsmer ymlaen llaw, bydd gallu ieithyddol y swyddog yn adlewyrchu hynny. (CI 4.5.2)



'CI…' – o'r Cynllun Iaith Gymraeg (Mawrth 2012)



DRAFT

### 5.8 Gwefannau, gwasanaethau ar-lein a'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol

5.8.1 Bydd unrhyw gysylltiadau â'r cyhoedd trwy gyfrwng cyfrifiadurol e.e. gwefan y Cyngor, gwasanaethau ar-lein, e-bost, sgriniau cyffwrdd, systemau sain cyhoeddus, offer fideo gynadledda, rhwydweithiau cymdeithasol (megis facebook, twitter ayyb) yn cydymffurfio gyda'r ddarpariaeth dan 'Gohebiaeth' uchod. (Safon 58 a 59) (CI 4.6.1)

5.8.2 Bydd unrhyw ddeunydd neu wybodaeth a roddir ar wefan y Cyngor yn gwbl ddwyieithog, gyda dewis iaith ar y dudalen agoriadol, ac ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar wefan y Cyngor. (Safon 52 a 56) (CI 4.6.1)

5.8.3 Lle mae tudalen Gymraeg sy'n cyfateb i dudalen Saesneg ar wefan y Cyngor, nodir yn glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darperir dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg cyfatebol. (Safon 55)

5.8.4 Bydd pob ap y mae'r Cyngor yn ei gyhoeddi yn gweithredu'n llawn yn ddwyieithog, ac ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw. (Safon 57)

### 5.9 Peiriannau Hunanwasanaeth

5.9.1 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw beiriannau hunanwasanaeth sydd ganddo yn gweithio'n llawn yn ddwyieithog, ac ni fydd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r peiriant hwnnw. (Safon 60 ERBYN MEDI 2016)

## 6.0 Wyneb cyhoeddus y Cyngor

### 6.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

6.1.1 Bydd wyneb cyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn gwbl ddwyieithog ac ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. (Safon 83) (CI 5.1.1)

6.1.2 Bydd hyn yn cynnwys enw'r Cyngor a'i wasanaethau, a'i holl gyfeiriadau perthnasol, ei logo, ei slogan corfforaethol, papur pennawd, cyhoeddiadau a'i holl ddeunydd ysgrifenedig cyhoeddus boed hwnnw ar ffurf adroddiad, arwydd, ffurflen, hysbysiad, rhybudd neu ysgrifen ar adeilad, cerbyd neu beiriant o eiddo'r Cyngor. (CI 5.1.2)

6.1.3 Yn achos arwyddeiriau megis "Môn Mam Cymru", ni fyddant yn cael eu cyfieithu. (CI 5.1.3)



'CI…' – o'r Cynllun Iaith Gymraeg (Mawrth 2012)



DRAFT

## 6.2 Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan y Cyngor

6.2.1 Bydd y Cyngor yn hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir ganddo, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn ddwyieithog. (Safon 81)

6.2.2 Bydd unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen y mae'r Cyngor yn ei llunio, neu wefan y mae'n ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg yn nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg. (Safon 82)

## 6.3 Arwyddion

6.3.1 Bydd holl arwyddion mewnol ac allanol y Cyngor (gan gynnwys arwyddion/ marciau ffyrdd) yn gwbl ddwyieithog. (CI 5.2.1)

6.3.2 Bydd y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant. (Safon 63)

6.3.3 Pan fydd y Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd ar arwyddion byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd, a bydd y Gymraeg naill ai uwchben y Saesneg, neu os ydyw'r ddwy iaith yn gyfochrog ar y chwith. Os bydd yn rhaid eu darparu ar wahân, byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd a bydd yr arwydd Cymraeg un ai uwchben yr un Saesneg neu os byddant ochr yn ochr, ar y chwith. (Safon 61 a 62) (CI 5.2.3)

6.3.4 Cyn bo ceisiadau cynllunio am arwyddion yn cael eu caniatáu, anogir y sawl a fydd yn holi am fanylion cyflwyno cais cynllunio i osod arwydd(ion) dwyieithog ac yn unol â hyn bydd y Gwasanaeth Cynllunio yn cynnwys 'Cymorth Dylunio' i'r ymgeisydd, sef taflen fer sy'n rhoi cymorth a chyngor iddo/i gynllunio a chyfieithu arwydd. Bydd y daflen hon yn ddwyieithog. (CI 5.2.4)

6.3.5 Pan fydd y Cyngor yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn ei weithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), bydd unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân), ac ni fydd y testun Cymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. (Safon 141)

6.3.6 Pan fydd y Cyngor yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn ei weithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu'r un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhoddir y testun Cymraeg mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. (Safon 142)

6.3.7 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a arddangosir yn ei weithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant. (Safon 143)



DRAFT

**6.4 Enwau lleoedd**

6.4.1 Bydd y Cyngor yn arddel y fersiwn Gymraeg yn unig o enwau lleoedd, afonydd, mynyddoedd ayyb, ac ar sefydliadau'r Cyngor heblaw mewn achosion lle mae'r Cyngor wedi cydnabod fersiwn Saesneg swyddogol. (CI 5.2.2)

6.4.2 Lle cydnabyddir fersiwn Saesneg swyddogol dylid ei defnyddio mewn cyd-destun Saesneg yn unig. (CI 5.2.2)

6.4.3 Lle enwir strydoedd neu ystadau newydd, bydd yr enwau newydd yn cael eu seilio ar enwau cynhenid, hanesyddol yr ardal yn Gymraeg. Pan fo'n rhaid bathu enw newydd, gwneir hynny'n Gymraeg yn unig. (CI 5.2.2) Mae'r Polisi ar Enwi a Rhifo Strydoedd a Thai yn amlinellu pwerau'r Cyngor Sir mewn perthynas ag enwi a rhifo strydoedd ac annog ymarfer da yn ogystal â darparu arweiniad i ddatblygwyr a phreswylwyr ar enwi a rhifo strydoedd a thai o fewn y sir – http://www.ynysmon.gov.uk/trafnidiaeth-a-ffyrdd/lonydd-priffyrdd-a-phalmentydd/enwi-strydoedd-a-rhifo-eiddo/

**6.5 Systemau annerch cyhoeddus a negeseuon sain**

6.5.1 Pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus, gwneir y cyhoeddiad hwnnw yn ddwyieithog gyda chyhoeddiad yn Gymraeg yn gyntaf. (Safon 87)

6.5.2 Pan fydd y Cyngor yn gwneud cyhoeddiadau dros offer sain yn ei weithle, bydd y cyhoeddiad hwnnw gael ei wneud yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf. (Safon 144)

**6.6 Cyhoeddi, argraffu ac arddangos deunydd cyhoeddus**

6.6.1 Bydd unrhyw ddeunydd cyhoeddus neu ddeunydd hysbysebu a gyhoeddir gan y Cyngor, yn gwbl ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys adroddiadau, cofnodion, ffurflenni, polisïau, is-ddeddfau ayyb. (Safonau 37 a 38) (CI 5.3.1)

6.6.2 Bydd hyn hefyd yn cynnwys deunydd cyrff a chwmnïau eraill a fydd o dro i dro yn cael ei arddangos yn adeiladau'r Cyngor. (CI 5.3.1)

6.6.3 Bydd deunydd printiedig yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog ar yr un ddalen neu yn yr un ddogfen (fel y bo'n briodol), ac yn gyfochrog, gyda'r Gymraeg ar y chwith a'r Saesneg ar y dde. (CI 5.3.2)

6.6.4 Lle nad ydyw'n bosibl neu'n ymarferol cyhoeddi deunydd printiedig yn y ddwy iaith ar yr un ddalen neu yn yr un ddogfen, bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd, ac yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd a bydd hi'r un mor hawdd i gael copi o'r testun yn y naill iaith neu'r llall. Bydd y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg yn ogystal â datganiad i'r gwrthwyneb. (Safon 49) (CI 5.3.2)



'CI…' – o'r Cynllun Iaith Gymraeg (Mawrth 2012)



DRAFT

6.6.5 Mae'n bwysig nodi nad yw meddalwedd darllen sgrin yn gallu darllen testun mewn modd rhesymegol pan mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos yn gyfochrog ar yr un dudalen. Y rheswm am hyn yw bod y meddalwedd yn darllen o'r chwith i'r dde ar draws y dudalen. Os yw'r Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos ar yr un dudalen mewn deunydd electronig, dylid sicrhau bod fersiwn hygyrch yn cael ei chyhoeddi hefyd. (CI 5.3.2)

6.6.6 Bydd deunydd arddangos cysylltiol mewn perthynas ag arddangosfeydd, cynadleddau a seminarau yn ddwyieithog bob amser gyda'r Gymraeg ar y chwith neu uwchben y Saesneg, pa ddiwyg bynnag sydd fwyaf perthnasol. Yn ogystal, bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd. (CI 5.10)

## 6.7 Taflenni, llyfrynnau, ffurflenni a deunydd esboniadol

6.7.1 Bydd unrhyw daflenni, llyfrynnau, ffurflenni a deunydd esboniadol a lunnir at ddefnydd y cyhoedd yn gwbl ddwyieithog. (Safonau 40 a 50) (CI 5.4.1)

6.7.2 Bydd deunydd printiedig o'r fath yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog ar yr un ddalen neu yn yr un ddogfen (fel y bo'n briodol), yn gyfochrog, gyda'r Gymraeg ar y chwith a'r Saesneg ar y dde. (CI 5.4.2)

6.7.3 Pan fydd y Cyngor yn llunio dogfen neu ffurflen yn y Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd, ac yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd a bydd hi'r un mor hawdd i gael copi o'r testun yn y naill iaith neu'r llall. (Safonau 48, 49) (CI 5.4.2)

6.7.4 Lle nad ydyw'n bosibl neu'n ymarferol cyhoeddi taflenni, llyfrynnau, ffurflenni a deunydd esboniadol yn y ddwy iaith ar yr un ddalen neu yn yr un ddogfen, bydd y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg yn ogystal â datganiad i'r gwrthwyneb. (Safon 50A)

6.7.5 Os bydd y Cyngor yn llunio ffurflen yn y Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), ni fydd yn gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen) (Safon 50B)

6.7.6 Os bydd y cyngor yn mewnosod gwybodaeth ar fersiwn Gymraeg o ffurflen (er enghraifft, cyn ei hanfon at aelod o'r cyhoedd er mwyn iddo wirio'r cynnwys neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen), sicrheir bod yr wybodaeth y mewnosodir yn cael ei mewnosod yn Gymraeg. (Safon 51)

6.7.7 Gall ffurflenni neu ddeunydd esboniadol fod yn rhan o'r prif destun neu ar wahân. Os bydd ar wahân, rhaid sicrhau y bydd ar gael ar yr un pryd a'r prif destun. (CI 5.4.3)



'CI…' – o'r Cynllun Iaith Gymraeg (Mawrth 2012)



DRAFT

6.7.8 Mae'n bwysig nodi nad yw meddalwedd darllen sgrin yn gallu darllen testun mewn modd rhesymegol pan mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos yn gyfochrog ar yr un dudalen. Y rheswm am hyn yw bod y meddalwedd yn darllen o'r chwith i'r dde ar draws y dudalen. Os yw'r Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos ar yr un dudalen mewn deunydd electronig, dylid sicrhau bod fersiwn hygyrch yn cael ei chyhoeddi hefyd. (CI 5.4.2)

6.7.9 Mae'r Cyngor yn cynhyrchu Llyfryn Twristiaeth Ynys Môn fel rhan o'i strategaeth i farchnata'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i gynyddu'r nifer o ymwelwyr i'r Ynys ac i roi gwybodaeth ddefnyddiol a pherthnasol iddynt am yr hyn sydd gan Ynys Môn i'w gynnig. Bydd pob llawlyfr a thaflen sy'n darparu gwybodaeth dwristiaeth fanwl, ac sy'n cael eu cylchredeg trwy Ogledd Cymru, yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. (CI 5.4.4)

## 6.8 Datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau

6.8.1 Bydd pob datganiad gan y Cyngor i'r wasg neu i'r cyfryngau yn gwbl ddwyieithog. (CI 5.5.1)

6.8.2 Bydd cysylltiadau â'r wasg neu'r cyfryngau yn Gymraeg neu'n Saesneg, gan ddibynnu ar iaith y gohebydd perthnasol. Oni fydd swyddog yn gwybod am allu ieithyddol gohebwyr dylai gysylltu trwy ohebiaeth ddwyieithog. (CI 5.5.2; CI 5.6.4)

## 6.9 Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd

6.9.1 Bydd ymgyrchoedd hysbysebu a chyhoeddusrwydd y Cyngor yn rhai cwbl ddwyieithog ym mha bynnag ffurf y bo e.e. datganiadau, taflenni, posteri, rhybuddion ayyb. (CI 5.6.1)

6.9.2 Bydd y fersiwn Gymraeg uwchben y fersiwn Saesneg, neu lle bo'r testun yn gyfochrog, bydd y fersiwn Gymraeg ar y chwith, a byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd, boed hynny yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu fel arall. (CI 5.6.2)

6.9.3 Yr unig eithriad fydd yn achos rhaglenni radio neu deledu. Bydd iaith yr hysbyseb yn dibynnu ar y sianel dan sylw. Yn achos sianelau a dderbynnir yng Nghymru (boed y rheiny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg), bydd hysbysebion yn ddwyieithog. Ar y llaw arall, yn achos sianelau a dderbynnir yn Lloegr yn bennaf, bydd unrhyw hysbysebion a ddarlledir arnynt yn Saesneg yn unig. (CI 5.6.3)

## 6.10 Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysiadau Swyddogol

6.10.1 Bydd hysbysiadau cyhoeddus swyddogol y Cyngor yn rhai cwbl ddwyieithog ar ffurf gyfochrog gyda'r testun Cymraeg ar y chwith. Lle na fydd hyn yn ymarferol, bydd un testun uwchben y llall gyda'r Gymraeg uchaf. Ymhob achos fodd bynnag, bydd y testunau yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd, boed hynny yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu fel arall. (Safonau 69 a 70) (CI 5.7)



'CI…' – o'r Cynllun Iaith Gymraeg (Mawrth 2012)



DRAFT

6.10.2 Mae’n bwysig nodi nad yw meddalwedd darllen sgrin yn gallu darllen testun mewn modd rhesymegol pan mae’r Gymraeg a’r Saesneg yn ymddangos yn gyfochrog ar yr un dudalen. Y rheswm am hyn yw bod y meddalwedd yn darllen o’r chwith i’r dde ar draws y dudalen. Os yw’r Gymraeg a’r Saesneg yn ymddangos ar yr un dudalen mewn deunydd electronig, dylid sicrhau bod fersiwn hygyrch yn cael ei chyhoeddi hefyd. (CI 5.7)

## 6.11 Deunydd gweledol a chlywedol electronig

6.11.1 Bydd deunydd gweledol a chlywedol electronig sy'n gysylltiedig â gwasanaethu'r cyhoedd un ai yn ddwyieithog gyda’r Gymraeg yn gyntaf, neu yn Gymraeg a Saesneg ar wahân (pa un bynnag sydd yn briodol). Bydd y naill iaith neu'r llall ar gael bob amser beth bynnag fo iaith y gynulleidfa. Pan fo'r gynulleidfa yn ddwyieithog, dylid defnyddio'r ddwy iaith gan ddefnyddio'r Gymraeg yn gyntaf. (CI 5.9)

## 6.12 Gwaith marchnata

6.12.1 Bydd unrhyw ymgyrchoedd marchnata a gynhelir gan, neu ar ran y Cyngor yn rhai cwbl ddwyieithog (ac eithrio rhai ymgyrchoedd y tu allan i Gymru i ddenu mewnfuddsoddiad neu dwristiaid). (CI 5.13)

6.12.2 Golyga hyn y bydd unrhyw waith hysbysebu, cyhoeddi, ymchwil yn gwbl ddwyieithog, ac yn achos arolygon ymchwil, bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd staff a fydd yn dod i gysylltiad â’r cyhoedd, byddent nhw yn uniongyrchol gyflogedig gan y Cyngor, neu o gwmni/corff allanol trwy gytundeb, yn ddwyieithog, ac yn cynnwys gwasanaeth cwbl ddwyieithog i’r cyhoedd e.e. wrth gwblhau holiaduron. Yn ogystal, cynigir unrhyw gyfweliad yn Gymraeg neu Saesneg. Gallai arolygon hefyd fod yn ceisio barn siaradwyr Cymraeg yn benodol, er mwyn cael darlun o safon ac amrediad y gwasanaeth Cymraeg. (CI 5.13)

## 6.13 Hysbysebion Swyddi

6.13.1 Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi yn gwbl ddwyieithog, ynghyd â’r deunydd atodol a nodir isod. Bydd hysbysebion yn cynnwys datganiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. Ni fydd fersiynau Cymraeg o’r dogfennau a nodir isod yn cael eu trin yn llai ffafriol nag unrhyw fersiynau Saesneg. (Mae hyn yn cynnwys hysbysebion yn y wasg Saesneg yng Nghymru ac mewn cylchgronau neu bapurau newydd yn Lloegr): (CI 5.8)

(a) ffurflenni cais am swyddi;
(b) deunydd esboniadol ynghylch y broses ar gyfer ymgeisio am swyddi;
(c) gwybodaeth am y broses gyfweld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi;
(ch) swydd-ddisgrifiadau (Safonau 136A rhannol, 137 a 137A)



‘CI…’ – o’r Cynllun Iaith Gymraeg (Mawrth 2012)



DRAFT

6.13.2 Bydd hysbysebion printiedig o'r fath yn gyfochrog gyda'r Gymraeg ar y chwith. Lle na fydd hyn yn ymarferol, bydd un testun uwchben y llall gyda'r Gymraeg uchaf. Ymhob achos fodd bynnag, bydd y testunau yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd, boed hynny yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu fel arall. (Safon 137A) (CI 5.8)

6.13.3 Mae'n bwysig nodi nad yw meddalwedd darllen sgrin yn gallu darllen testun mewn modd rhesymegol pan mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos yn gyfochrog ar yr un dudalen. Y rheswm am hyn yw bod y meddalwedd yn darllen o'r chwith i'r dde ar draws y dudalen. Os yw'r Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos ar yr un dudalen mewn deunydd electronig, dylid sicrhau bod fersiwn hygyrch yn cael ei chyhoeddi hefyd. (CI 5.8)

6.13.4 Yn achos swyddi mewn ysgolion, cyfrifoldeb y llywodraethwyr yw hysbysebu'r swyddi hynny a mater iddynt hwy yw penderfynu ar natur, cost a chynnwys yr hysbysebion ond disgwylir i'r Corff Llywodraethol weithredu yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor. Hysbysebir yn ddwyieithog ar y we ac yn y wasg. (CI 5.8 – diwygiedig)

6.13.5 Bydd hysbysebion mewn papurau/cylchgronau Cymraeg eu hiaith yn Gymraeg yn unig. (CI 5.8)

# 7.0 Gweithredu'r Polisi

## 7.1 Staffio

7.1.1 Pan fydd y Cyngor yn cynnig swydd newydd i unigolyn, bydd yn gofyn i'r unigolyn hwnnw a yw'n dymuno i'r contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg; ac os yw'r unigolyn yn dymuno hynny bydd yn darparu'r contract yn Gymraeg. (Safon 99)

7.1.2 Bydd y Cyngor yn –
(a) gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth, ac sydd wedi ei chyfeirio ato'n bersonol, yn Gymraeg, a
(b) os yw cyflogai yn dymuno hynny,
darparu unrhyw ohebiaeth o'r fath iddo yn Gymraeg. (Safon 100)

7.1.3 Bydd y Cyngor yn gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion ei hyfforddiant yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny bydd yn darparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg. (Safon 101)

7.1.4 Bydd y Cyngor yn gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu ei amcanion perfformiad yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny bydd yn darparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg. (Safon 102)



DRAFT

7.1.5 Bydd y Cyngor yn gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi ei gynllun gyrfa yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny bydd yn darparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg. (Safon 103)

7.1.6 Bydd y Cyngor yn gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi gwyliau, absenoldebau o'r gwaith, ac oriau gwaith hyblyg, yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny bydd yn darparu unrhyw ffurflenni o'r fath iddo yn Gymraeg. (Safon 104)

7.1.7 Os bydd y Cyngor yn cyhoeddi unrhyw bolisïau, gan gynnwys y materion isod, fe'u cyhoeddir yn ddwyieithog:

Ymddygiad yn y gweithle (Safon 105)
Iechyd a lles yn y gweithle (Safon 106)
Cyflogau neu fuddion yn y gweithle (Safon 107)
Rheoli perfformiad (Safon 108)
Absenoldeb o'r gwaith (Safon 109)
Amodau gwaith (Safon 110)
Patrymau gwaith (Safon 111)

### 7.2 Cwynion a wneir gan aelod o staff y Cyngor

7.2.1 Bydd y Cyngor yn caniatáu i bob aelod o'i staff wneud cwynion yn Gymraeg, ac ymateb i unrhyw gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg. (Safon 112)

7.2.2 Bydd y Cyngor yn datgan mewn unrhyw ddogfen sydd ganddo sy'n nodi ei weithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff wneud cwyn iddo yn Gymraeg, ac ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef neu hi yn Gymraeg; a bydd yn rhoi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno. (Safon 112A)

7.2.3 Os bydd y Cyngor yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, bydd yn cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg ac, os yw'r aelod o staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynhelir y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). (Safon 113)

7.2.4 Pan fydd y Cyngor yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'r penderfyniad mewn perthynas â chŵyn a wneir gan yr aelod hwnnw, neu mewn perthynas â chŵyn a wneir amdano ef neu hi, bydd yn gwneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff –

(a) wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg,
(b) wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn amdano ef neu hi,
(c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu
(ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn. (Safon 115)

## 7.3 Disgyblu staff

7.3.1 Bydd y Cyngor yn caniatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn mewn unrhyw broses ddisgyblu fewnol. (Safon 116)

7.3.2 Bydd y Cyngor yn datgan mewn unrhyw ddogfen sydd ganddo sy'n nodi trefniadau'r Cyngor ar gyfer disgyblu staff y caiff unrhyw aelod o staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn ac, os bydd yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhoi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno. (Safon 116A)

7.3.3 Os bydd y Cyngor yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, bydd yn cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg ac, os yw'r aelod o staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). (Safon 117)

7.3.4 Pan fydd y Cyngor yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'r penderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu, bydd yn gwneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg, wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu. (Safon 119)

### 7.4 Technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan y Cyngor, a'r fewnrwyd

7.4.1 Bydd y Cyngor yn darparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'n staff, a darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael). (Safon 120)

7.4.2 Bydd y Cyngor yn sicrhau –

(a) bod testun pob tudalen ar ei fewnrwyd ar gael yn Gymraeg,
(b) bod pob tudalen Gymraeg ar ei fewnrwyd yn gweithredu'n llawn, ac
(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ei fewnrwyd. (Safon 121 – ERBYN MEDI 2016)

7.4.3 Lle mae gan y Cyngor dudalen Gymraeg ar ein mewnrwyd sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, bydd yn nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a bydd yn darparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg cyfatebol. (Safon 124)

7.4.4 Bydd y Cyngor yn neilltuo a chynnal tudalen (neu dudalennau) ar ei fewnrwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cymorth i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo eich staff i ddefnyddio'r Gymraeg. (Safon 125)



DRAFT

7.4.5 Bydd y Cyngor darparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar ei dudalennau mewnrwyd yn ddwyieithog. (Safon 126)

**7.5 Meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi gweithlu**

7.5.1 Er mwyn gallu sicrhau nad ydym yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, bydd y Cyngor yn mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol er mwyn sicrhau bod y swyddogion hynny y mae'n rhesymol disgwyl iddynt ddelio gyda'r cyhoedd yn medru gwneud hynny yn newis iaith y cyhoedd. (CI 6.1.1)

7.5.2 Bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd gweithleoedd o fewn yr awdurdod, sydd â chysylltiad â'r cyhoedd, yn cynnwys swyddog(ion) dwyieithog digonol (gan gynnwys dysgwyr sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg hyd at lefel sydd yn dderbyniol i ofynion y swydd), fel bod gwasanaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg ar gael i'r cyhoedd. (CI 6.1.1)

7.5.3 Mae'r broses Adolygu Perfformiad yn darparu asesiad blynyddol o feistrolaeth ar iaith pob aelod o'r staff ynghyd ag unrhyw anghenion datblygu. (Safon 127) (CI 6.1.1)

7.5.4 Bydd rhai swyddi lle na fydd eu deiliaid yn dod i gysylltiad â'r cyhoedd. Serch hynny, oherwydd natur rhai o'r swyddi hyn, bydd gofyn i'r deiliaid fod â sgiliau dwyieithog fydd yn amrywio o swydd i swydd. Yn achos rhai swyddi eraill, lle na fydd y swyddogion yn dod i gysylltiad â'r cyhoedd a lle na fydd y gallu i siarad Cymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer y swydd, bydd y swyddogion hynny yn cael eu hannog i ddysgu Cymraeg er mwyn hwyluso'r cydweithio gyda staff o fewn eu hunedau/gwasanaethau, a rhwng gwasanaethau yn gyffredinol. (CI 6.1.2)

7.5.5 Bydd y Cyngor yn dynodi pa sgiliau ieithyddol llafar ac ysgrifenedig sydd eu hangen ar gyfer pob swydd. Bydd y gofynion hyn yn unigryw ar gyfer pob swydd ac yn nodi'r hyfedredd sydd ei angen ar lafar ac yn ysgrifenedig ar gyfer pob swydd a bydd y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys wrth hysbysebu unrhyw swydd yn y dyfodol, ac yn cael ei chofnodi'n ganolog ar sail penodiadau. (CI 6.1.3)

7.5.6 Bydd angen i bob Pennaeth Gwasanaeth ystyried yn ofalus natur a dyletswyddau'r swyddi unigol sydd o fewn eu cyfrifoldebau a phennu pa sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer pob swydd a balans ieithyddol y tîm. Dylid cyflwyno'r wybodaeth honno i'w hystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac i'w chymeradwyo gan y pwyllgor gweithredol. (CI 6.1.4)

7.5.7 Cydnabyddir fod cynllunio ieithyddol yn bwysig ynghyd â chael cyfundrefn o fonitro faint o siaradwyr Cymraeg sydd o fewn y sefydliad. Bydd y Cyngor yn asesu sgiliau Cymraeg ei gyflogeion. (Safon 127) (CI 6.1.4)



'CI…' – o'r Cynllun Iaith Gymraeg (Mawrth 2012)



DRAFT

7.5.8 Bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os y darperir hyfforddiant o'r fath yn Saesneg –

(a) recriwtio a chyfweld;
(b) rheoli perfformiad;
(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu;
(ch) ymsefydlu;
(d) delio â'r cyhoedd; ac
(dd) iechyd a diogelwch. (Safon 128)

7.5.9 Bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant (yn Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd; cyfweliadau; a gweithdrefnau cwyno a disgyblu. (Safon 129)

7.5.10 Darperir cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i gyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, ac i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr. (Safon 130)

7.5.11 Darperir cyfleoedd i gyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith. (Safon 131)

7.5.12Darperir cyrsiau hyfforddi er mwyn i gyflogeion ddatblygu –

(a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);
(b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg;
(c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. (Safon 132)

7.5.13 Nod y Cyngor yw darparu cyrsiau addas ar bob lefel i gryfhau sgiliau ieithyddol y staff er mwyn gwireddu'r polisi hwn. Mae'r Strategaeth Hyfforddiant Iaith yn rhan allweddol o gyfundrefn datblygiad personol y Cyngor. (CI 6.2.1)

7.5.14 Rhoddir anogaeth gref i bob swyddog o fewn y Cyngor ddysgu neu wella'i Gymraeg. Bydd y math o gwrs a gynigir yn fater i'r Cyngor ei drafod gyda'r swyddog dan sylw. Gall amrywio o gyrsiau ar gyfer dechreuwyr pur i gyrsiau gloywi ysgrifenedig i'r rheiny sy'n rhugl yn y Gymraeg ar lafar/ysgrifenedig. (CI 6.2.1)

7.5.15 Rhoddir blaenoriaeth i'r swyddogion hynny y mae'n ofynnol iddynt fod â hyfedredd yn y Gymraeg er mwyn cydymffurfio â'u disgrifiad swydd neu amod cyflogi, a hefyd i ddechreuwyr sydd yn dod i gysylltiad â'r cyhoedd. (CI 6.2.2)



'CI…' – o'r Cynllun Iaith Gymraeg (Mawrth 2012)



DRAFT

7.5.16 Darperir cyrsiau addas ar gyfer staff ynghyd â chefnogaeth yn y gweithle. (CI 6.2.3)

7.5.17 Darperir hyfforddiant Cymraeg i ddysgwyr/a rhai sydd angen gloywi yn unol â Strategaeth Hyfforddiant Cymraeg y Cyngor a fydd, ymysg pethau eraill, yn:

- asesu anghenion dysgwyr a'r rheini sydd angen gloywi ac yn gosod targedau iddynt;
- monitro cyrhaeddiad dysgwyr a'r rheini sydd angen gloywi;
- galluogi staff i weithio yn eu dewis iaith ar lafar neu yn ysgrifenedig;
- cynyddu sgiliau llafar ac ysgrifenedig staff dwyieithog. (CI 6.2.4)

7.5.18 Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol fydd yn gyfrifol am arolygu'r darpariaethau dysgu Cymraeg. (CI 6.2.5)

7.5.19 Darperir hyfforddiant arbenigol hefyd mewn meysydd penodol sydd yn berthnasol i waith y Cyngor. (CI 6.2.6)

7.5.20 Sicrheir fod swyddogion sy'n dysgu Cymraeg yn mynychu nifer penodol o oriau hyfforddiant iaith mewn blwyddyn. (CI 6.2.7)

7.5.21 Pan fydd y Cyngor yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, fel rhan o broses ymsefydlu), darperir gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg. (Safon 133)

7.5.22 Darperir geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith. (Safon 134)

## 7.6 Recriwtio ac Apwyntio

7.6.1 Pan fydd y Cyngor yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, bydd yn asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys –

(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;
(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;
(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu
(ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol. (Safon 136)

7.6.2 Os bydd y Cyngor wedi categoreiddio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, bydd yn pennu hynny wrth hysbysebu'r swydd. (Safon 136A - rhannol) (CI 6.3.1 - rhannol)

7.6.3 Oni ellir penodi person dwyieithog i swydd lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol yn dilyn hysbyseb o'r fath, bydd y swydd honno yn cael ei hail hysbysebu gyda'r un amod(au) ieithyddol. (CI 6.3.1)



'CI…' – o'r Cynllun Iaith Gymraeg (Mawrth 2012)



DRAFT

7.6.4 Fodd bynnag, yn achos yr ail hysbyseb gogyfer rhai swyddi penodol, bydd croeso i bersonau heb sgiliau Cymraeg ymgeisio am y swyddi hyn. Gyda rhai swyddi eraill, bydd yn angenrheidiol cael swydd ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf er mwyn diwallu gofynion y gwasanaeth. Os penodir ymgeisydd di-Gymraeg i'r swydd gofynnir iddo/iddi dderbyn, fel amod penodi, dargedau datblygu sgiliau iaith Gymraeg yn codi o'r fanyleb person i'r swydd a chytuno ar gyfnod amser penodol i gyrraedd lefel rhuglder derbyniol yng nghyswllt bodloni gofynion y swydd. Bydd y Cyngor yn rhoi pob cymorth o ran ariannu cyrsiau a neilltuo amser o'r gwaith, i alluogi swyddogion di-Gymraeg i ddysgu'r iaith. Bydd y Cyngor hefyd yn monitro cynnydd yn rheolaidd er mwyn asesu pa mor briodol yw'r cwrs i'r unigolyn. (CI 6.3.1)

7.6.5 Ar gyfer rhai swyddi penodol, bydd cymal yn cael ei gynnwys mewn ail hysbysebion o'r fath i ddynodi eu bod yn ail-hysbysebion ac yn dynodi fod croeso i bersonau heb sgiliau Cymraeg ymgeisio am y swydd. Yn ogystal, yn y pecyn gwybodaeth am y swydd a ddarperir i ymgeiswyr, rhoddir gwybodaeth am yr amod i ennill sgiliau ieithyddol fel y nodir uchod. (CI 6.3.1)

7.6.6 Ni fydd y Cyngor yn trin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, o ran y dyddiad cau yr ydym yn ei osod ar gyfer cael ceisiadau, ac o ran amseriad rhoi gwybod i unigolion ynghylch penderfyniadau). (Safon 137B)

7.6.7 Bydd ffurflenni cais y Cyngor am swyddi yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno cael cyfweliad neu'r dull arall o asesiad yn Gymraeg ac, os yw unigolyn yn dymuno hynny, cynhelir unrhyw gyfweliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). (Safon 138)

7.6.8 Pan fydd y Cyngor yn rhoi gwybod i unigolyn beth yw'n penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, gwneir hynny yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg. (Safon 140)

7.6.9 Bydd Grŵp Tasg Iaith y Cyngor yn derbyn adroddiadau chwarterol ar benodiadau staff a bydd unrhyw risgiau'n cael eu trosglwyddo i sylw'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'w craffu ymhellach. (CI 6.3.1)

## 7.7 Hyfforddiant

7.7.1 Wrth drefnu hyfforddiant, bydd gofyn hysbysu swyddogion am gyrsiau priodol sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant lle bynnag y bo hynny'n briodol i hwyluso gweithredu'r polisi hwn. Bydd yn cyflawni hynny trwy asesu beth yw anghenion hyfforddiant staff y Cyngor. (CI 6.4.1)

7.7.2 Bydd anogaeth i swyddogion ddilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg pan fo hynny'n berthnasol. (CI 6.4.1)



DRAFT

7.7.3 Yn achos cyrsiau a ddarperir yng Nghymru trwy gyfrwng y Saesneg, bydd y Prif Weithredwr yn gyfrifol am annog y cyrff arholi/asesu perthnasol i gynnig cyfle ieithyddol cyfartal i fyfyrwyr, fel y gallant sefyll arholiadau/gyflwyno gwaith i'w asesu, yn Gymraeg. (CI 6.4.2)

**7.8 Y Gwasanaeth Cyfieithu**

7.8.1 Bydd y Cyngor yn cyflogi tîm o gyfieithwyr cymwys er mwyn cyfieithu unrhyw ddeunydd a fydd yn cael ei gyhoeddi. Bydd y tîm cyfieithu'n defnyddio i'r eithaf technoleg newydd a fyddai'n cefnogi a chryfhau capasiti'r gwasanaeth. (CI 6.6.1)

7.8.2 Pan fo sefydliad preifat, corff preifat, neu unigolyn yn cyflwyno unrhyw ddogfennau, adroddiadau neu lythyrau i'r Cyngor yn Saesneg yn unig, a'r angen yn codi i gyflwyno'r testun i Bwyllgor neu Banel, yna disgwylir i'r sefydliad preifat, corff preifat neu unigolyn i gyflwyno'r wybodaeth yn ddwyieithog. (CI 6.6.2)

7.8.3 Disgwylir i gyrff cyhoeddus gyflwyno pob gohebiaeth ac adroddiad yn ddwyieithog neu'n Gymraeg ond anogir cyrff yn y sectorau gwirfoddol a phreifat i gyflwyno gohebiaeth yn ddwyieithog, gan arddel yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. (CI 6.6.2)

7.8.4 Bydd gan bawb yr hawl i siarad Cymraeg neu Saesneg yn ôl eu dymuniad yng nghyfarfodydd y Cyngor a darperir offer cyfieithu ar y pryd i gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg yn holl gyfarfodydd y Cyngor pan fo'i angen. (CI 6.6.3)

7.8.5 Dan amgylchiadau lle bydd yr offer yn torri yn ystod cyfarfod, bydd y cyfieithydd/ cyfieithwyr yn cyfieithu'n bersonol i'r sawl sydd angen cyfieithiad. Onid yw hyn yn ymarferol, gofynnir i'r rheiny sydd yn bresennol yn y cyfarfod ac sy'n ddibynnol ar wasanaeth cyfieithu, symud at berson addas a fydd yn crynhoi'r drafodaeth ar adegau cyfleus, a hynny dan reolaeth y Cadeirydd. Yn ogystal, ar ddiwedd pob trafodaeth bydd y Cadeirydd yn trefnu i grynhoi'r drafodaeth a'r penderfyniad yn Saesneg.

7.8.6 Os nad oes offer cyfieithu parhaol mewn ystafell a ddefnyddir i gynnal cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau, Is-Bwyllgorau neu Banelau'r Cyngor yna, darperir offer symudol ynddi yn ôl y galw.

7.8.7 Pan fo cyfarfod yn cael ei gynnal mewn adeilad sy'n eiddo i gorff arall, a'r Cyngor yn rhan o'r gwaith trefnu, yna defnyddir yr offer symudol yn ôl y galw.

7.8.8 Bydd yr Uned Gyfieithu yn cynorthwyo yn y broses o fonitro defnydd ysgrifenedig o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth y Cyngor fel rhan o'r broses o gyfieithu testunau. Bydd hyn yn rhan o ymarfer o ymestyn effeithlonrwydd gwasanaethau i allu darparu gwasanaeth Cymraeg a Saesneg cyflawn heb orfod bod yn or-ddibynnol ar yr Uned Gyfieithu.



DRAFT

### 7.9 Pryderon a Chwynion

7.9.1 Daeth Polisi Pryderon a Chwynion newydd i rym yng Nghyngor Sir Ynys Môn ar 1 Ebrill, 2013 sy'n golygu yr ymatebir i gwynion mewn ffordd wahanol ac y cymerir camau i ddysgu o bryderon a fynegir gan gwsmeriaid. Mae'r polisi yn seiliedig ar y Polisi Enghreifftiol a ddatblygwyd gydag Ombwdsman Cyhoeddus Cymru fel system gyffredin i ddarparwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ddelio ô chwynion. Fe ymgorfforir cwynion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg i'r drefn hon (rhaid i bob cofnod nodi os yw'r gwyn yn ymwneud yn benodol â'r maes iaith).

## 8.0 Hybu'r Gymraeg

8.1 Bydd y Cyngor yn llunio, a chyhoeddi ar ei wefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut y mae'n bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn ei ardal; a bydd y strategaeth yn cynnwys (ymysg pethau eraill) –

(a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn ei ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn ei ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a

(b) datganiad sy'n esbonio sut y mae'n bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; ac fe adolygir y strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar ei wefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni). (Safon 145 – ERBYN MEDI 2016)

8.2 Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol ag 8.1 uchod bydd y Cyngor yn -

(a) asesu i ba raddau y mae wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a

(b) cyhoeddi'r asesiad ar ei wefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn –

(i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal, ac oedran y siaradwyr hynny;
(ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gan y Cyngor neu a ariannwyd ganddo yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg. (Safon 146 – ERBYN MEDI 2016)

DRAFT

# 9.0 Cadw Cofnodion

9.1 Bydd y Cyngor yn cadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion y mae'n eu cael sy'n ymwneud â'i gydymffurfedd â'r safonau. (Safon 147)

9.2 Bydd y Cyngor yn cadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig y mae'n ei chael sy'n ymwneud â'i gydymffurfedd â'r safonau y mae'r Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. (Safon 148)

9.3 Bydd yn Cyngor y cadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig y mae'n ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg (pa un ai yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau y mae'r Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy ai peidio). (Safon 149)

9.4 Bydd y Cyngor yn cadw cofnod o'r camau y mae wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi y mae'r Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. (Safon 150)

9.5 Bydd y Cyngor yn cadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg ei cyflogeion a wnaed ganddo yn unol â safon 127), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus iddo, bydd yn cadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny. (Safon 151)

9.6 Bydd y Cyngor yn cadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o –

(a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd ganddo yn Gymraeg (yn unol â safon 128), a
(b) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs ganddo yn unol â safon 128, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs. (Safon 152)

9.7 Bydd y Cyngor yn cadw cofnod o bob asesiad a gynhelir (yn unol â safon 136) mewn cysylltiad â'r sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag. (Safon 153)

9.8 Bydd y Cyngor yn cadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 136) fel swyddi sy'n gofyn

(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;
(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd;
(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu
(ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol. (Safon 154)

DRAFT

# 10.0 Materion Atodol

### 10.1 Rhoi cyhoeddusrwydd i safonau'r Gymraeg

10.1.1 Bydd y cyngor yn sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael –

(a) ar ei wefan, a
(b) ym mhob un o'i swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. (Safonau 155, 161, 167, 173 a 175)

### 10.2 Cyhoeddi gweithdrefn gwyno

10.2.1 Bydd y Cyngor yn –

(a) sicrhau bod ganddo weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn

(i) sut y mae'n bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'i gydymffurfedd â safonau'r Gymraeg y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a
(ii) sut y bydd yn darparu hyfforddiant i'w staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny,

(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar ei wefan, ac

(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'i swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. (Safonau 156, 162 a 168)

### 10.3 Cyhoeddi trefniadau goruchwylio, hybu ayyb

10.3.1 Bydd y Cyngor yn –

(a) sicrhau bod ganddo drefniadau ar gyfer

(i) goruchwylio'r modd y mae'n cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaeth y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,
(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir ganddo yn unol â'r safonau hynny, a
(iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny,

(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar ei wefan, ac

(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'i swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. (Safon 157)

10.3.2 Bydd y Cyngor yn –

(a) sicrhau bod ganddo drefniadau ar gyfer goruchwylio'r modd y mae'n cydymffurfio â'r safonau llunio polisi y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,

(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar ein gwefan, ac

(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'i swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. (Safon 163)

10.3.3 Bydd y Cyngor yn –

(a) sicrhau bod ganddo drefniadau ar gyfer

(i) goruchwylio'r modd y mae'n cydymffurfio â'r safonau gweithredu y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,
(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir ganddo yn unol â'r safonau hynny, a
(iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny, a

(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar ei fewnrwyd. (Safon 169)

## 10.4 Llunio adroddiad blynyddol

10.4.1 Bydd y Cyngor yn llunio ac yn cyhoeddi adroddiad ("Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg"), yn ddwyieithog, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu iddo gydymffurfio â safonau'r Gymraeg yr oedd o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno. (Safonau 158, 164, a 170)

## 10.5 Rhoi cyhoeddusrwydd i'r modd y bwriedir cydymffurfio â safonau'r Gymraeg

10.5.1 Bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r ddogfen hon ar ei wefan sy'n esbonio sut y mae'n bwriadu cydymffurfio â safonau'r Gymraeg y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. (Safonau 159, 165 a 171)

## 10.6 Darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg

10.6.1 Bydd y Cyngor yn darparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'n cydymffurfedd â safonau'r Gymraeg y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. (Safonau 160, 166, 172, 174 a 176)



DRAFT

## 11.0 Gwella'r Gwasanaeth

11.1 Bydd y Cyngor yn falch iawn o dderbyn sylwadau ac awgrymiadau gan ei gwsmeriaid ar sut i wella'r gwasanaeth dwyieithog a roddir iddynt.

11.2 Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau at y Prif Weithredwr Cynorthwyol a fydd yn ystyried yr hyn a dderbynnir cyn cyflwyno adroddiad i'r pwyllgor gweithredol ar unrhyw fater a fydd, ym marn y Prif Weithredwr Cynorthwyol, angen ei ystyried gyda golwg ar newid neu ddiwygio'r polisi.

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn |
| **Dyddiad:** | 25/04/2016 a 12/05/2016 |
| **Pwnc:** | Er mwyn i'r Cyngor fabwysiadu'r pwerau a gynhwysir yn y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 a'u dirprwyo i swyddogion priodol fel y rhestrwyd yn yr adroddiad. |
| **Aelod (au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones, Y Cynghorydd J Arwel Roberts, Y Cynghorydd Richard A Dew, Y Cynghorydd Alwyn Rowlands |
| **Penaethiaid Gwasanaeth:** | Lynn Ball - Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro; Shan L Williams - Pennaeth Tai; Dewi R Williams - Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo; Jim Woodcock - Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | Robyn Jones - Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol<br>Est. 2134<br>rwjcs@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | D/B |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

1. Bod y Cyngor llawn:

1.1 Yn mabwysiadu pwerau a gynhwysir yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 mewn perthynas â gwaharddebau sifil, rhybuddion a gorchmynion gwarchod cymunedol, rhybuddion a gorchmynion cau, rhesymau absoliwt ar gyfer meddiant tai, gorchmynion gwarchod mannau cyhoeddus a gorchmynion cau adeiladau;

1.2 Yn cytuno i ddiwygio'r cynllun dirprwyo i swyddogion yn y Cyfansoddiad er mwyn dirprwyo'r hawl i weithredu'r pwerau fel y cawsant eu mabwysiadu ymhlith y Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol fel y nodir yn yr adroddiad hwn;

1.3 Yn rhoi'r awdurdod i'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro wneud y newidiadau angenrheidiol i'r cynllun dirprwyo i swyddogion yn y Cyfansoddiad i adlewyrchu'r ffaith fod y pwerau a gynhwysir yn y Ddeddf fel y sonnir amdanynt yn yr adroddiad hwn wedi cael eu mabwysiadu a'u dirprwyo.

2. <u>Cyflwyniad</u>

2.1 Mae'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 ("y

Ddeddf") yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, trosedd ac anhrefn ac amryw o faterion cysylltiedig eraill gan gynnwys adennill meddiant o dai annedd a darpariaethau eraill amrywiol mewn perthynas â throsedd a phlismona.

2.2 Mae swyddogion yn Adrannau canlynol y Cyngor wedi ystyried darpariaethau'r Ddeddf a rhaid i'r Cyngor fabwysiadu darpariaethau amrywiol a dirprwyo eu gweithrediad i'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol: Tai, Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

3. Adran Tai

3.1 Mae'r Adran yn gofyn am gael mabwysiadu'r pwerau canlynol a dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Tai) y grym i'w gweithredu ar ran y Cyngor:

3.1.1 Pwerau'r Cyngor mewn perthynas â gwaharddebau yn Rhan I y Ddeddf
3.1.2 Pwerau'r Cyngor mewn perthynas â rhybuddion gwarchod cymunedol sydd ym Mhennod 1 Rhan 4 y Ddeddf;
3.1.3 Pwerau'r Cyngor mewn perthynas â chau safleoedd sy'n gysylltiedig â niwsans neu anhrefn fel y cânt eu cynnwys ym Mhennod 3 yn Rhan 4 y Ddeddf; ac
3.1.4 Adennill meddiant a meddiannu tai annedd ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol fel y caiff y pwerau hynny eu rhoi i'r Cyngor dan Ran 5 y Ddeddf.

3.2 Rhesymau a Chyfiawnhad

3.2.1 Gwaharddeb Sifil: Bydd y Gwasanaeth Tai yn gallu gwneud cais i'r llys am waharddeb i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â thai yn gyflym, lle mae ymddygiad wedi achosi neu'n debygol o achosi aflonyddwch, braw neu ofid i unrhyw berson mewn perthynas â'u meddiant o eiddo preswyl neu lle gall yr ymddygiad achosi niwsans neu flinder sy'n gysylltiedig â thai i unrhyw berson. Gellir defnyddio gwaharddeb sifil hefyd yn erbyn tramgwyddwyr nad ydynt yn denantiaid. Gall pŵer i arestio fod ynghlwm wrth y waharddeb.

DS Mae'r diffiniad o 'sy'n gysylltiedig â thai' yn golygu ymddygiad sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r swyddogaeth rheoli tai.

3.2.2 Rhybuddion Gwarchod y Gymuned (CPN) yn: Mewn achos lle mae troseddwr eisoes wedi cael rhybudd ysgrifenedig ond wedi methu newid ei ymddygiad, bydd y Gwasanaeth Tai yn gallu defnyddio'r pŵer hwn i ymdrin ag unrhyw ymddygiad sydd yn afresymol, yn barhaus neu'n cael effaith negyddol ar y gymuned, drwy dargedu'n uniongyrchol y person (dros 16 oed), y busnes neu'r sefydliad sy'n gyfrifol. Bydd y CPN naill ai'n mynnu bod y troseddwr yn rhoi'r gorau i wneud rhywbeth penodol neu'n mynnu bod y troseddwr yn cymryd camau rhesymol i sicrhau canlyniad penodol. Graffiti, sbwriel a sŵn yw'r tri maes.

3.2.3 Rhybudd Cau a Gorchmynion Cau: Bydd y Gwasanaeth Tai yn gallu defnyddio'r pwerau hyn i gau adeiladau'n gyflym os ydynt yn cael eu defnyddio neu'n debygol o gael eu defnyddio fel lle i gyflawni niwsans neu anhrefn. Caiff rhybudd cau ei gyhoeddi y tu allan i'r llys a gellir cau eiddo am 48 awr i unrhyw un ond y preswylwyr arferol. Yn dilyn y rhybudd cau, gall y Gwasanaeth Tai lle mae angen, gyflwyno cais i'r llys am orchymyn cau sy'n golygu y gellir cau adeilad i bawb gan gynnwys y preswylwyr arferol am hyd at chwe mis.

3.2.4 Sail Absoliwt ar gyfer Meddiant: Bydd y Gwasanaeth Tai yn gallu gwneud cais i'r llys am feddiant tŷ dan y pŵer hwn pan fydd unrhyw un o'r 5 amod a nodir yn y Ddeddf yn cael ei fodloni.

Caiff amodau 1,2, a 3 eu bodloni os yw tenant, aelod o aelwyd y tenant neu berson sy'n ymweld â'r eiddo wedi:
(A) bod yn euog o drosedd ddifrifol;
(B) ei ganfod yn euog mewn llys o dorri gwaharddeb a sicrhawyd o dan y Ddeddf;
(C) bod yn euog o dorri Gorchymyn Ymddygiad Troseddol a gafwyd o dan y Ddeddf;

Caiff amod 4 ei fodloni os bydd eiddo'r tenant wedi cael ei gau dan orchymyn cau o ganlyniad i YGG yn neu yng nghyffiniau'r eiddo a bod cyfnod y gorchymyn hwnnw'n fwy na 48 awr.

Caiff amod 5 ei fodloni os yw'r tenant, aelod o aelwyd y tenant neu berson sy'n ymweld â'r eiddo wedi'i gael yn euog o dorri rhybudd neu orchymyn i dawelu sŵn mewn perthynas ag eiddo'r tenant o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

4. Adran Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

4.1 Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu'r pwerau canlynol a dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) y grym i'w gweithredu ar ran y Cyngor:

4.1.1 Y pwerau yn adrannau 64 a 65 y Ddeddf sy'n ymwneud â chyfyngiadau ar hawliau tramwy cyhoeddus a'r pwerau angenrheidiol eraill a geir ym Mhennod 2 Rhan 4 y Ddeddf.

4.2 Rhesymau a Chyfiawnhad

4.2.1 Hawliau Tramwy Cyhoeddus – Bydd y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yn gallu defnyddio'r pwerau hyn er mwyn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus ar lwybrau cyhoeddus.

5. Adran Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd:

5.1 Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu'r pwerau canlynol a dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) y grym i'w gweithredu ar ran y Cyngor:

5.1.1 Pwerau'r Cyngor mewn perthynas â gwaharddebau yn Rhan I y Ddeddf
5.1.2 Pwerau'r Cyngor mewn perthynas â rhybuddion gwarchod cymunedol

sydd ym Mhennod 1 Rhan 4 y Ddeddf;

5.1.3 Pwerau'r Cyngor mewn perthynas â rhybuddion gwarchod mannau cyhoeddus fel y cânt eu cynnwys ym Mhennod 2 Rhan 4 y Ddeddf; ac

5.1.4 Pwerau'r Cyngor o ran cau adeiladau sy'n gysylltiedig â niwsans neu anhrefn fel y caiff y pwerau hynny eu cynnwys ym Mhennod 3 Rhan 4 y Ddeddf.

5.2 Rhesymau a Chyfiawnhad

5.2.1 Gwaharddeb yn Rhan 1 y Ddeddf – i atal neu stopio ymddygiad gwrthgymdeithasol nad yw'n ymddygiad dibwys megis perchnogion nad ydynt yn cymryd cyfrifoldeb am eu cŵn, cymdogion swnllyd neu gardota mewn modd ymosodol.
Rhybuddion Gwarchod Cymunedol ym Mhennod 1 Rhan 4 y Ddeddf – i stopio person, busnes gyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n difetha ansawdd bywyd y gymuned trwy greu niwsans sŵn neu adael i'w cŵn grwydro byth a hefyd.
Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ym Mhennod 2 Rhan 4 y Ddeddf – a gynlluniwyd i stopio unigolion neu grwpiau sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol mewn man cyhoeddus drwy, er enghraifft, wahardd cŵn neu wahardd yfed alcohol neu chwarae cerddoriaeth swnllyd mewn ardal benodol.
Cau Adeiladau sy'n gysylltiedig â Niwsans neu Anhrefn ym Mhennod 3 Rhan 4 y Ddeddf – i ganiatáu i'r awdurdod lleol gau eiddo preswyl neu fusnes yn gyflym sy'n cael eu defnyddio neu sy'n debygol o gael eu defnyddio i gyflawni niwsans neu anhrefn megis chwarae cerddoriaeth yn uchel neu gynnal digwyddiadau heb drwydded, e.e. partis gwyllt anghyfreithlon ('raves').

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae gan y Cyngor y dewis o beidio â dirprwyo cyfrifoldeb am weithredu'r pwerau hyn, ond mae Adrannau perthnasol yn teimlo bod mabwysiadu a dirprwyo'r pwerau i swyddogion yn fodd i'r Cyngor weithredu ystod ehangach o bwerau i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau cysylltiedig.

Os nad yw'r pwerau'n cael eu mabwysiadu, byddwn yn parhau i gael ein cyfyngu o ran yr ystod o bwerau sydd ar gael i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a sicrhau canlyniadau llwyddiannus i ddioddefwyr, troseddwyr a'r gymuned yn gyffredinol.

**C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Gan fod yr adroddiad yn cynnig diwygio'r cynllun dirprwyo i swyddogion sy'n rhan o gyfansoddiad y Cyngor, rhaid i adroddiad o'r fath gael ei anfon at y Pwyllgor Gwaith am

| |
|---|
| argymhelliad yn y lle cyntaf cyn cael ei anfon at y Cyngor llawn. |

| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Mae hwn yn ddarn newydd o ddeddfwriaeth, ond bydd llawer o'r pwerau'n gyson â pholisïau eraill a fabwysiadwyd eisoes gan y Cyngor. |

| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Bydd y gost o weithredu'r pwerau newydd hyn gan swyddogion yn dod o fewn y gyllideb weithredol ar gyfer pob gwasanaeth. Bydd costau posibl yn un peth (ond nid yr unig beth) i'w cymryd i ystyriaeth cyn i'r pwerau gael eu defnyddio a hynny ar sail achos wrth achos. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd ei sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (Gorfodol) | Dim Sylwadau |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (Gorfodol) | Dim Sylwadau |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (Gorfodol) | Dim Sylwadau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | d / b |
| 5 | **eiddo** | d / b |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | d / b |
| 7 | **Craffu** | d / b |
| 8 | **Aelodau lleol** | d / b |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall / au** | d / b |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | d/b |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | Bydd defnyddio'r pwerau'n seiliedig ar amgylchiadau a byddant o fudd i ardaloedd tlotach a difreintiedig yn gymaint ag i unrhyw ardal arall. |
| 3 | **Troseddau ac Anhrefn** | Mae llawer o'r pwerau yn y Ddeddf yn anelu at fynd i'r afael â materion trosedd ac anrhefn, ynghyd ag ymddygiad gwrthgymdeithasol lle |

| | | |
|---|---|---|
| | | mae'r rhain yn achosi problem i gymunedau lleol. |
| **4** | **Amgylcheddol** | Bydd gweithredu rhai o'r pwerau'n cael ei ddirprwyo i swyddogion i geisio cyfyngu'r hyn y gellir ei ystyried yn niwsans cyhoeddus yn gyffredinol. |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Bydd defnydd o'r pwerau yn fodd i'r Cyngor fynd i'r afael yn well ag ymddygiad a allai gael ei dargedu at aelodau o grwpiau lleiafrifol ac o'r herwydd, bydd yn sicrhau gwell cydymffurfiaeth â dyletswyddau'r Cyngor o ran cydraddoldeb |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | d / b |
| **7** | **arall** | d / b |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Dim |

| **Papurau cefndir (cysylltwch â'r awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach) - FF:** |
|---|
| Dim |

LM-19,072-RWJ / 295,209

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | CYNGOR SIR |
| **DYDDIAD:** | 12 MAI 2016 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | MABWYSIADU CÔD YMDDYGIAD NEWYDD AR GYFER AELODAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | LYNN BALL<br>PENNAETH SWYDDOGAETH (BUSNES Y CYNGOR) / SWYDDOG MONITRO |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | LYNN BALL<br>PENNAETH SWYDDOGAETH (BUSNES Y CYNGOR) / SWYDDOG MONITRO<br>01248 752586 / lbxcs@anglesey.gov.uk |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | CYDYMFFURFIO Â'R GORCHYMYN AWDURDODAU LLEOL (CÔD YMDDYGIAD ENGHREIFFTIOL) (CYMRU) (DIWYGIAD) 2016 |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae'n ofynnol i bob Awdurdod perthnasol yng Nghymru fabwysiadu Côd sy'n nodi'r ymddygiad a ddisgwylir gan Aelodau etholedig. Pennwyd y Côd gan Weinidogion Cymru ers ei gyflwyno yn 2000.

1.2 Daeth y Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Côd Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2016 i rym ar 1 Ebrill 2016 ac mae'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod perthnasol fabwysiadu'r Côd newydd erbyn dim hwyrach na 26 Gorffennaf 2016.

1.3 Mae'r Gorchymyn Statudol yn diwygio rhai elfennau o'r Côd presennol. Mae angen i'r Aelodau fod yn ymwybodol o'r newidiadau hynny ac mae'n rhaid diwygio Cyfansoddiad y Cyngor i sicrhau bod y newidiadau yn cael eu hymgorffori.

1.4 Unwaith y bydd y Côd newydd yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor, mae Aelodau wedi eu hymrwymo'n otomatig i lynu wrth ei ddarpariaethau yn sgil Adran 52(2) Deddf Llywodraeth Leol 2000 a Gorchymyn Etholiadau Lleol (Datganiad Derbyn Swydd) (Cymru) 2004.

1.5 O dan yr amgylchiadau, nid oes angen i Aelodau lofnodi ymrwymiad o'r newydd i lynu wrth y Côd diwygiedig.

## 2. NEWIDIADAU I'R CÔD YMDDYGIAD AR GYFER AELODAU

2.1 Nid oes angen mwyach i Aelodau roi gwybod i'r Ombwdsmon am ymddygiad gan Aelod y credir yn rhesymol ei fod yn torri'r Côd Ymddygiad.

**RHESYMEG**

Mae'r Ombwdsmon wedi gwneud yn glir ei fod yn dymuno canolbwyntio adnoddau prin ar y cwynion mwyaf difrifol, ac felly mae wedi cyflwyno prawf trothwy uwch ar gyfer ymchwilio i honiadau o dorri'r Côd. Nid yn unig y mae'r Ombwdson angen digon o dystiolaeth i ddangos bod yna achos i'w ateb, rhaid iddo fod er budd y cyhoedd i ymchwilio.

O ystyried y trothwy uchel hwn, nid yw bellach yn briodol gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar Aelodau i roi gwybod am bob achos posib o dorri'r Côd; ni waeth na fyddant yn addas ar gyfer ymchwiliad.

Yn lle hynny, mae'n rhaid i Aelodau godi eu pryderon yn gyntaf gyda'r Swyddog Monitro lleol a gofyn am gyngor ynghylch yw'r achos yn cwrdd â'r prawf trothwy. Mae'r Aelodau yn yr Awdurdod hwn yn gofyn am y fath yma gyngor eisoes beth bynnag, felly ni ddylai hyn arwain at unrhyw newid mewn arferion.

2.2 Mae adran 10(2) (b) y Côd Ymddygiad cyfredol yn cael ei dileu. Hon yw'r ddarpariaeth sy'n ymwneud â sefyllfa lle gallai aelod o'r cyhoedd yn rhesymol ystyried bod gwrthdaro rhwng rôl Aelod yn cynrychioli eu ward ac sydd hefyd yn gweithredu ar ran y Sir gyfan ar yr un pryd.

**RHESYMEG**

Mae wedi ei hen sefydlu, trwy Ganllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon ym mis Medi 2012, mai camgymeriad drafftio oedd y ddarpariaeth hon, ac nid oedd ond i fod yn berthnasol i aelodau o'r Pwyllgor Gwaith sy'n gwneud penderfyniadau fel Aelodau Portffolio (yn hytrach na fel rhan o'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfanrwydd). Dyna'r dehongliad a fabwysiadwyd yma ers i'r Canllawiau ddod i rym ac mae'n golygu felly na ddylai'r newid hwn i'r Côd newid arferion cyfredol y Cyngor hwn.

2.3 Cyflwynir darpariaeth newydd sy'n rhoi hawl ychwanegol i Aelodau gyflwyno sylwadau ysgrifenedig o dan amgylchiadau lle mae ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu, ond lle mae aelodau o'r cyhoedd yn cael mynychu'r cyfarfodydd er mwyn gwneud sylwadau. Rhaid i unrhyw Aelod sy'n dibynnu ar y ddarpariaeth

hon gydymffurfio ag unrhyw weithdrefn y mae'r Cyngor wedi ei mabwysiadu ar gyfer cyflwyno sylwadau.

**RHESYMEG**

Rhoi Aelodau yn yr un sefyllfa â'r cyhoedd. Ni fydd unrhyw Aelod yn y sefyllfa hon yn gallu trafod na phleidleisio ar y mater.

## 3 ARGYMHELLION

3.1 Gofynnir i'r Cyngor nodi'r newidiadau i'r Côd.

3.2 Bod y Cyngor yn awdurdodi’r Swyddog Monitro i newid y Cyfansoddiad i ymgorffori'r newidiadau i'r Côd a chyhoeddi'r newidiadau yn unol â gofynion Adran 51 (b) Deddf Llywodraeth Leol 2000.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Cyngor Sir Ynys Môn** |
| **Dyddiad:** | **12.5.16** |
| **Pwnc:** | **Dogfen Cyflawni Blynyddol 16/17** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Alwyn Rowlands** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Scott Rowley** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Gethin Morgan**<br>**752111**<br>**GethinMorgan@anglesey.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Ddim yn berthnasol** |

| A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor rhoi'r hawl i Swyddogion drwy law y Deilydd Portffolio i ymgymryd ar dasg o orffen y cynllun drafft ac argymell i'r Cyngor llawn fabwysiadu y Ddogfen Cyflawni Blynyddol ar gyfer 16/17 yn ei gyfarfod ar y 12fed o Fai, 2015.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith hefyd gadarnhau pa mor ymarferol ydyw o'i gyflawni fel cynllun sydd yn cydnabod y meysydd hynny o waith sydd wedi'i amserlennu ar gyfer y flwyddyn gyfredol o dan flaenoriaethau'r cynllun corfforaethol.<br><br>At ddibenion eglurder mae'r Ddogfen Cyflawni Blynyddol yn cael ei adnobod fel arall fel y   Cynllun Gwella (a amlinellir yn y Cyfansoddiad). |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Nid oes unrhyw opsiynau eraill yn cael eu hystyried gan fod hyn yn rhan o'r Fframwaith Polisi sy'n nodi'r angen i ddogfen o'r fath gael ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dangos y prif feysydd ar gyfer gwella a chyflawni blaenoriaethau corfforaethol y cyngor yn ystod 2016-17 sydd yn clirio'n swyddogaeth ni o wellhad parhaol sy'n cael ei gydnabod yn ofyniad statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol - Cymru 2009 a 2011. |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)**<br><br>(mandadol) | Cytuno gyda'r cyfeiriad gweithredol ar gyfer 16/17 ond angen ei fireinio ymhellach i bwrpas cyhoeddi. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylw pellach |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylw pellach |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | Yn ei gyfarfod o’r 11eg o Ebrill, 2016 bu I’r pwyllgor sgrwtini corfforaethol ofyn I’r draft terfynol gysidro cynnwys y meysydd gwaith canlynol –<br><br>1. Maes gwaith yn cydnabod effeithlonrwydd ynni<br><br>2. Y buddion cysylltiedig a geir o welliant yn ein trefniadau pwrcasu<br><br>3. Ymateb y Cyngor i grisis y ffoaduriaid sy’n digwydd<br><br>Yr oedd hefyd yn argymell y byddai sesiwn briffio pwrpasol yn cael ei gynnal o’r ddogfen cyflawni blynyddol I holl aelodau cyn cyfarfod cyflawn y Cyngor Sir. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Dogfen Cyflawni Blynyddol 2016/17 |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Cynllun Corfforaethol 2013-17 fel a fabwysiadwyd gan y Cyngor llawn yn Rhagfyr 2013 |

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Dogfen Gyflawni Flynyddol

# (Cynllun Gwella)
# 2016/17

# DRAFFT TERFYNOL

Cyngor Sir Ynys Môn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW
Ffon: (01248) 752111

# RHAGARWEINIAD

Mae'r ddogfen gyflawni flynyddol hon yn canolbwyntio ar y gwaith yr ydym yn ei wneud i wireddu'r targedau uchelgeisiol a bennwyd yng Nghynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn am y cyfnod 2013-17.

Mae ein Cynllun Corfforaethol yn seiliedig ar rai o'r ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori mwyaf pellgyrhaeddol 'rydym wedi eu cynnal. Gofynnwyd i'n trigolion pa rai o'n gwasanaethau oedd bwysicaf iddynt, ynghyd a'r rheini oedd lleiaf pwysig.

Y blaenoriaethau cyson a ddaeth i'r amlwg ar draws yr holl ddemograffeg ar yr Ynys oedd:

- Cefnogi'r bobl sydd fwyaf bregus
- Datblygu'r Economi
- Codi safonau a moderneiddio ein hysgolion

Mae'r blaenoriaethau hyn yn sylfaen ac yn ganolbwynt i'n Cynllun Corfforaethol sy'n nodi ein hamcanion strategol hyd at 2017.

O ganlyniad i'r atborth a gafwyd gan y cyhoedd mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ei brif nod, sef ein bod - erbyn 2017**.." yn gyngor proffesiynol sy'n cael ei redeg yn dda, yn arloesol yn ein hymagwedd, yn ymrwymedig i ddatblygu ein pobl a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o ansawdd da, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ein dinasyddion"**

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, bu angen i'r Cyngor newid y ffordd mae llawer o'i wasanaethau yn cael eu darparu.

Bydd saith blaenoriaeth allweddol yn siapio'r trawsnewid hwn dros y blynyddoedd nesaf, sef:

- Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn
- Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi
- Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion
- Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi
- Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd
- Canolbwyntio ar Gwsmeriaid, Dinasyddion a Chymunedau
- Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

Hon yw'r drydedd flwyddyn i ni gynhyrchu Dogfen Gyflawni Flynyddol. Mae'r ddogfen (a elwir hefyd yn Gynllun Gwella) yn dangos sut y byddwn yn cyflawni ein blaenoriaethau allweddol dros y 12 mis nesaf

ac yn amlygu ein cymhelliant i sicrhau gwelliant parhaus yn y gwasanaeth fel y disgwylir gan Lywodraeth Cymru. Byddwn hefyd yn gwneud y gwelliannau gan gadw mewn cof egwyddorion cynaliadwyedd a chydraddoldeb bob amser.

Mae gwrando ar yr hyn yr ydych chi wedi ei ddweud fel trigolion a busnesau lleol Ynys Môn wedi bod yn rhan hanfodol o'r broses drawsnewid hon. Bydd ymgysylltu yn y fath fodd yn parhau i fod yn rhan allweddol o'n ffordd o weithredu.

Mae'r cyfan o'r amcanion a amlinellir isod wedi cael eu hystyried yn erbyn yr adnoddau sydd ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Gwariant Cyfalaf — Cyfalaf
2. Gwariant Refeniw — Refeniw
3. Cyllid Allanol (boed yn Grantiau Ewropeaidd neu'n grantiau neu fenthyciadau domestig) — CA
4. Cyfrif Refeniw Tai — CRT

# Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn

Wrth drawsnewid gofal i oedolion hŷn, byddwn, erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2016/17, ar y ffordd i gychwyn adeiladu cyfleuster gofal ychwanegol. Byddwn hefyd wedi cwblhau'r gwaith paratoadol yng ngogledd yr ynys ac wedi dod o hyd i drydydd safle yn ne'r ynys.

Byddwn hefyd wedi parhau i ganolbwyntio ar leihau'r angen am ofal preswyl drwy ein cymunedau a'n polisïau sy'n seiliedig yn y gymuned drwy gyflwyno strategaeth Ynys Môn ar gyfer cymorth cymunedol ac ataliol a Chydlynwyr Ardal Lleol.

Bydd hyn yn ategu ein gwaith i ddatblygu blaenoriaethau domestig, gofal cartref ac ailalluogi arbenigol yn y maes dementia.

**Sut byddwn yn gwneud hyn yn 2016/17?**

**Byddwn yn datblygu ac yn sefydlu, ar y cyd â phartneriaid, 2 gynllun tai gofal ychwanegol yng ngogledd a chanolbarth yr Ynys ac yn cynllunio ar gyfer cynllun tai gofal ychwanegol pellach yn ne'r Ynys drwy:**

- Gytuno ar ddyddiad cychwyn ar gyfer adeiladu'r Cyfleuster Gofal Ychwanegol yn Llangefni a fydd yn darparu fflatiau hunangynhwysol gyda gofal ar gael ar y safle i gefnogi pobl
- Cytuno ar safle ac achos busnes ar gyfer cyfleuster Gofal Ychwanegol yn ne'r ynys. Fel rhan o'r broses hon, byddwn yn ymgysylltu gyda'r gymuned leol er mwyn sicrhau opsiwn ymarferol a fforddiadwy
- Ymchwilio i opsiynau ynghylch datblygu cyfleuster gofal ychwanegol yn Amlwch

Adnoddau - Cyfalaf Refeniw

**Gwella ystod ac argaeledd gwasanaethau yn y gymuned ar gyfer pobl hŷn a fydd yn lleihau'r ddibyniaeth a'r angen am gartrefi gofal preswyl drwy:**

- Symud ymlaen gyda Strategaeth Ynys Môn ar gyfer cymorth cymunedol ac ataliol.
- Cefnogi unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau a manteisio ar y cymorth sydd ar gael yn lleol.
- Cytuno rhaglen gymorth i annog datblygu modelau hyb lleol gan gynnwys grantiau sefydlu i gynnig cymorth a gwasanaethau mewn cymunedau lleol.

Adnoddau - Refeniw

**Ailddatblygu ein gwasanaeth ailalluogi i gefnogi a helpu pobl i wella ac adennill annibyniaeth trwy ddefnyddio cynlluniau cymorth sy'n seiliedig ar ganlyniadau trwy:**

- Gryfhau capasiti'r sector annibynnol drwy osod contractau ar sail ardal er mwyn sicrhau partneriaid gofal cartref sy'n seiliedig yn yr ardaloedd hynny

Adnoddau - Refeniw

**Mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd , datblygu trefniadau i ddarparu gwasanaethau ar y cyd, yn enwedig mewn perthynas â dementia, gwasanaethau i bobl hŷn yn gyffredinol a chymorth i ofalwyr trwy:**

- Ddatblygu cynnig i sicrhau capasiti nyrsio / dibyniaeth uchel ychwanegol ar gyfer unigolion gyda dementia a chytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer gwella Cymorth Dementia mewn cymunedau

- Cynnal y gwasanaethau "Homeshare" cyfredol lle mae unigolion â dementia yn cael cymorth yng nghartrefi eu gofalwyr

- Datblygu mwy o Gaffis Cofio sy'n darparu mannau cyfarfod ar draws Ynys Môn lle gall unigolion â dementia a'u gofalwyr gyfarfod yn anffurfiol

Adnoddau – Refeniw

# Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi

Wrth adfywio ein cymunedau a datblygu'r economi eleni, rydym yn gobeithio drafftio Achosion Busnes cadarn i sicrhau cyllid allanol i wireddu nifer o fentrau gwahanol ar draws ystod o feysydd blaenoriaeth strategol.

Byddwn wedi creu swyddi newydd neu ddiogelu nifer o swyddi trwy gefnogi busnesau yn ardal Caergybi a'r cyffiniau. Byddwn wedi parhau i ganolbwyntio ar dwristiaeth trwy ddenu mwy o ymwelwyr na'r 1,500,000 sy'n ymweld ar hyn o bryd a byddwn yn cefnogi digwyddiadau i dwristiaid sy'n gynyddol boblogaidd.

Byddwn wedi gwneud cynnydd gyda'r rhaglen Ynys Ynni a'r rhaglen Parth Menter i sicrhau cyflogaeth ychwanegol a gwaddol hirhoedlog ar gyfer Ynys Môn o'r datblygiadau mawr arfaethedig (gan gynnwys ynni carbon isel). Yn ogystal, byddwn wedi parhau i reoli a gweithredu'r fenter Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid gyffrous yng Nghaergybi.

**Sut byddwn yn gwneud hyn yn 2016/17?**

**Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i gryfhau economi'r ynys drwy wella isadeiledd, argaeledd sgiliau a chefnogi cwmnïau lleol. Byddwn y gwneud hyn drwy:**

- Ddatblygu o leiaf 8 o Achosion Busnes / Astudiaethau Dichonoldeb newydd i sicrhau cyllid Ewropeaidd a domestig ar gyfer y meysydd blaenoriaeth canlynol:
- Gweithredu prosiectau (a ddatblygwyd eisoes) i wneud y gorau o gyfleoedd cyllido Ewropeaidd a domestig i roi sylw i heriau economaidd-gymdeithasol a nodwyd
- Cefnogi ac annog cystadleugarwch busnesau a thwf cyflogaeth drwy greu swyddi newydd a diogelu eraill drwy Gronfa Fuddsoddi Caergybi (HIF)
- Sicrhau buddsoddiad sector preifat o £150,000 drwy'r gronfa HIF ynghyd â rhoi cefnogaeth, arweiniad neu gyngor i 100 o fusnesau ar yr ynys

Adnoddau – Refeniw CA

**Cefnogi'r economi dwristiaeth drwy:**

- Weithio mewn partneriaeth i hybu delwedd a nodweddion arbennig Ynys Môn trwy sicrhau cynnydd yn nifer yr ymweliadau gan dwristiaid a datblygu cynllun newydd i reoli'r gyrchfan
- Marchnata'r Ynys drwy ddulliau traddodiadol a digidol er mwyn cadw/cynyddu'r 400,000 o ddefnyddwyr unigryw sydd wedi defnyddio gwefan Ymweld â Môn

- Hwyluso dwy ymgyrch hysbysebu twristiaeth yn ystod haf 2016 a'r Pasg 2017 (yn canolbwyntio ar gyfryngau digidol)

- Croesawu'r nifer uchaf o Longau Mordeithio (30 yn cludo 18,804 o deithwyr) i Borthladd Caergybi mewn un flwyddyn

- Cefnogi a chynorthwyo 6 o ddigwyddiadau bwyd lleol i dwristiaid (gan gynnwys Gŵyl Bwyd Môr Menai, Gŵyl Fwyd Biwmares a 4 Slam Bwyd)

- Darparu swyddogaeth Arforol fodern, effeithiol a masnachol sy'n diwallu anghenion cymunedau arfordirol yr Ynys, defnyddwyr Arforol ac ymwelwyr

Adnoddau - Refeniw CA

**Gweithio gyda phartneriaid i oresgyn cyfyngiadau isadeiledd (er enghraifft, lled band eang a thechnolegau symudol) i alluogi datblygiad, buddsoddiad a chreu swyddi drwy:**

- ymgymryd â gweithgareddau cydweithredol rhanbarthol i gefnogi'r sectorau cyhoeddus a phreifat i wella cyfleoedd ar gyfer swyddi, twf a ffyniant cynyddol drwy arwain a rheoli'r Rhaglen Gadwyn Gyflenwi Ranbarthol ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a pharhau i weithio gyda Chyrchfan Gogledd Cymru i sicrhau'r manteision mwyaf yn lleol o gyfleoedd mewnfuddsoddi posibl

- Dylanwadu ar y Sector Preifat i barhau i fuddsoddi ar yr Ynys.

- Parhau i ddatblygu cynlluniau ar gyfer unedau busnes yng Nghaergybi a Llangefni a gweithredu prosiect Ffordd Gyswllt Llangefni drwy gydol 2016/17

Adnoddau - CA

**Cyflawni ein cyfrifoldebau cynllunio yn effeithiol mewn perthynas â'r holl brosiectau mawr ar Ynys Môn, gan sicrhau bod modd lleihau'r effeithiau negyddol posib a sicrhau'r budd cymunedol mwyaf posib trwy:**

- Gydlynu'r Rhaglen Ynys Ynni i wneud y gorau o fanteision economaidd-gymdeithasol lleol drwy brosesau a dulliau statudol a gwirfoddol

- Sicrhau adnoddau a chapasiti trwy Gytundebau Perfformiad Cynllunio (CPC) i gefnogi a hwyluso pecynnau gwaith Pŵer Niwclear Horizon a'r Grid Cenedlaethol yn ystod 2016/17

- Sefydlu data gwaelodlin cynhwysfawr fel sail ar gyfer asesu effeithiau datblygiadau Ynni Mawr ar Ynys Môn.

- Ystyried ac ymateb i ail ymgynghoriad cyn-cais Horizon (PAC2) a cheisiadau cynllunio gwlad a thref

- Rheoli Strategaeth A.106 y Cyngor Sir i sicrhau aliniad rhwng yr holl gytundebau A.106

- Adolygu a diweddaru'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer yr Orsaf Niwclear Newydd

- Datblygu a pharatoi Datganiad o Dir Cyffredin ac Adroddiad ar yr Effaith Leol mewn perthynas â Gorsaf Niwclear Newydd Wylfa.

Adnoddau - Refeniw CA

**Gyrru adfywiad cymunedol gan ddatblygu cynlluniau tref a chymuned cyfannol ar gyfer y prif aneddiadau ar yr ynys gan roddi blaenoriaeth i Gaergybi, Llangefni ac Amlwch drwy:**

- Reoli a chyflawni'r Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (LlLlLlA) yng Nghaergybi

- Buddsoddi £2.8m ym Mhobl, Lleoedd a Chartrefi Caergybi (gweler Tai)

Adnoddau - CA

# Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion

Mae'r Cyngor yn awyddus i bob plentyn, person ifanc a dysgwr, waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau, gyrraedd eu llawn botensial a chwarae rôl weithredol fel dinasyddion cyfrifol ac eiriolwyr cymunedol. I wireddu hyn, ac i gyfrannu at weledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yn genedlaethol, rydym yn dymuno codi safonau addysg ar Ynys Môn.

Wrth wireddu'r uchod, byddwn wedi gweld cyrhaeddiad addysgol yn gwella yn CS a Chyfnodau Allweddol 2 a 3 erbyn diwedd 2016/17. Yn ogystal, byddwn wedi cymryd camau breision i sicrhau bod dwy ysgol ardal newydd yn cael eu hagor yn Llnfaethlu a Chaergybi erbyn 2017. Byddwn hefyd wedi cymeradwyo Achosion Busnes a nodi safleoedd ar gyfer ysgolion ardal Bro Rhosyr ac Aberffraw.

Byddwn wedi parhau i nodi, herio a chynorthwyo ysgolion sy'n tanberfformio, yn ogystal â sicrhau bod y disgyblion mwyaf dawnus a galluog yn cael eu herio i gyrraedd eu potensial.

Byddwn wedi datblygu rhagor o gydweithio rhwng ysgolion Môn a'r Rhaglen Ynys Ynni i hyrwyddo sgiliau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn y sector ynni; a sicrhau bod pobl ifanc Môn yn cael cyfleon i gael mynediad i hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith a phrentisiaethau ardderchog.

**Sut byddwn yn gwneud hyn yn 2016/17?**

**Parhau i godi safonau o ran cyrhaeddiad addysgol a phresenoldeb drwy:**

- Sicrhau bod Cadeirydd pob Corff Llywodraethu'n gweithredu'n gadarnhaol i sicrhau gwelliant mewn ysgolion sydd angen cymorth, a hynny mewn cydweithrediad gyda'r awdurdod lleol a'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion.

- Nodi ymarferwyr a allai fod yn arweinwyr ardderchog

- Sicrhau bod gan bob ysgol gynradd ac uwchradd weithdrefnau a chynlluniau effeithiol i wella safonau llythrennedd a rhifedd [darllen yn arbennig].

- Codi safonau cyrhaeddiad ar draws y cyfnodau allweddol, gan leihau'r bwlch rhwng perfformiad plant sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim a phlant nad ydynt, a chynyddu'r ganran o ddisgyblion sy'n ennill y graddau uchaf ar draws yr ystod o ddangosyddion perfformiad

- Cynyddu nifer a chanran y dysgwyr sy'n ennill asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf yn CS a Chyfnodau Allweddol 2 a 3. Cynyddu nifer a chanran y dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 sy'n ennill gradd C neu uwch mewn Saesneg a Mathemateg yn arbennig

Adnoddau - Refeniw

**Datblygu a chytuno ar strategaeth moderneiddio ysgolion i lywio penderfyniadau tymor hir a fydd yn cynnwys darparu dwy ysgol gynradd ardal newydd trwy:**

- Adolygu'r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion a blaenoriaethu prosiectau ar gyfer gweddill yr Ysgolion yn seiliedig ar newidiadau demograffig a'r angen i fynd i'r afael â heriau o ran recriwtio penaethiaid, a ffactorau eraill

- Datblygu'r Achos Busnes Llawn ar gyfer prosiect moderneiddio ysgolion Bro Rhosyr / Bro Aberffraw

- Monitro a rheoli'r cyfnod adeiladu ar gyfer prosiectau Ysgol Rhyd y Llan ac Ysgol Cybi

Adnoddau – Cyfalaf Refeniw CA

**Mabwysiadu a chyflawni strategaeth sgiliau rhanbarthol sy'n fodd i Ynys Môn a Gogledd Cymru wella sgiliau'r gweithlu ac alinio eu hunain gyda chyfleoedd yn y dyfodol drwy:**

- Cynhyrchu Cynllun Gweithredu Addysg a Sgiliau Lleol ar gyfer Ysgolion a Dysgu Gydol Oes ar y cyd â'r gwasanaeth datblygu economaidd a phartneriaid allweddol eraill

- Nodi anghenion buddsoddi allweddol mewn pynciau STEM o ran anghenion cyfalaf (buddsoddi mewn offer Dylunio a Thechnoleg fodern, cyfleusterau labordy) ac anghenion datblygiad proffesiynol athrawon lleol a gweithwyr sy'n dymuno manteisio ar gyfleon prentisiaeth

- Gwella'r modd o hyrwyddo a rhoi gwybod am gyfleon prentisiaethau lleol er mwyn cynyddu'r nifer sy'n manteisio arnynt.

Adnoddau - Refeniw

# Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi

Yn ystod y flwyddyn, byddwn wedi cynyddu'r opsiynau tai fforddiadwy sydd ar gael ledled yr Ynys. Byddwn yn gwneud hyn trwy ddod â 65 o gartrefi gwag yn ôl i ddefnydd yn ogystal â chynorthwyo prynwyr tro cyntaf drwy Tai Teg a cheisiadau grant eraill i brynu eu cartrefi cyntaf. Byddwn hefyd wedi dechrau adeiladu tai cyngor newydd.

Drwy'r fenter Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, byddwn hefyd wedi darparu mwy o eiddo 2 ystafell wely i gefnogi deiliaid tai a effeithiwyd gan y mesurau Diwygio Lles ac wedi gwella ansawdd tai fforddiadwy drwy fynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni.

**Sut byddwn yn gwneud hyn yn ystod 2016/17?**

**Gweithio gyda phartneriaid i foderneiddio a chydlynu'r gwasanaeth cyngor am fudd-daliadau a fydd yn gwella annibyniaeth, yn cefnogi ein strategaeth gwrthdlodi ac yn lliniaru effeithiau mesurau diwygio lles drwy:**

- Leihau effeithiau tlodi a gwella cyfleon i unigolion yn sgil cydlynu nifer o brosiectau (yn cynnwys Cefnogi Pobl / Cymunedau yn Gyntaf / Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf)
- Cwblhau adolygiad annibynnol o'r Gwasanaethau Cynghori ar Ddyled a Lles
- Cyflwyno 8 ciosg sgrin gyffwrdd i alluogi defnyddwyr gwasanaeth i dalu eu rhent a chael cyngor am faterion lles yn eu cymunedau
- Parhau i weithredu cronfa i gynorthwyo tenantiaid i osgoi mynd i ddyled gyda'u rhent o ganlyniad i effaith y newidiadau Diwygio Lles
- Gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau [AGP] i ddarparu cymorth i bobl fregus hawlio Credyd Cynhwysol.

Creu cyfleon ar gyfer pobl o aelwydydd sy'n gweithio trwy: -

- Weithio gyda phobl ifanc 16-24 oed yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf Môn i'w cefnogi i gael gwaith ac i ddod o hyd i ddatrysiadau arloesol ar gyfer pobl 25 oed a hŷn.
- creu 15 o gyfleoedd prentisiaeth a hyfforddiant drwy'r Academi Alwedigaethol Gymunedol.

Adnoddau – CRT Refeniw CA

**Cynyddu'r opsiynau tai fforddiadwy sydd ar gael ar hyd a lled yr ynys a dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd drwy:**

- Ddod â 65 o dai gweigion preifat sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir yn ôl i ddefnydd
- Sicrhau cyllid allanol arloesol i ddechrau adeiladu 15 o dai cyngor fforddiadwy newydd
- Prynu 15 o anheddau sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir mewn ardaloedd lle mae'r angen ar ei fwyaf, o bosib hen dai cyngor a werthwyd dan y ddeddfwriaeth hawl i brynu
- Ailddatblygu fflatiau Llawr y Dref yn Llangefni ar gyfer tenantiaid tro cyntaf a thenantiaid sy'n symud i gartrefi llai o ganlyniad i'r 'dreth ystafell wely'

Adnoddau - CRT CA

**Ymchwilio i opsiynau i gefnogi pobl ifanc i gael i mewn i'r farchnad dai drwy:**

- Helpu prynwyr tro cyntaf trwy'r broses ymgeisio am grantiau a chynorthwyo ymgeiswyr sy'n ymgeisio am fenthyciadau Troi Tai'n Gartrefi
- Cynyddu nifer yr ymgeiswyr am dai fforddiadwy sydd wedi cofrestru gyda Tai Teg (i 350)
- Hwyluso datblygu cartrefi fforddiadwy ar draws ardaloedd gwledig Ynys Môn

Adnoddau - Cyfalaf Refeniw

**Cynorthwyo pobl ddigartref a phobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref i ddod o hyd i gartrefi parhaol drwy:**

Weithredu'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (LlLlLlA) a -

- Defnyddio'r cyllid i gynyddu'r cymorth i nifer o unedau bychan sydd wedi eu heffeithio gan y Mesurau Diwygio Lles, yn arbennig y 'dreth ystafell wely'
- Gwella ansawdd tai fforddiadwy drwy fynd i'r afael â thlodi tanwydd trwy wella effeithlonrwydd ynni.
- Cynyddu nifer y landlordiaid preifat (20) sy'n darparu llety i gleientiaid a gyfeiriwyd atynt gan y Gwasanaethau Tai

Adnoddau - CA

# Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd

Erbyn Ebrill 2017, byddwn wedi gwella cyfleusterau amdden a chyynyddu lefelau cyfranogiad, gwella'r profiad i'r cwsmer a chynyddu'r incwm a gynhyrchir ym mhob un o'n canolfannau hamdden.

Byddwn hefyd wedi trosglwyddo nifer o'n cyfleusterau hamdden a threftadaeth i sefydliadau rheoli arall ac wedi datblygu a gweithredu Rhaglen ar gyfer Gwella Gofal Cwsmer yn y maes Hamdden a darparu cymysgedd o weithgareddau allgyrraedd i gynyddu nifer y defnyddwyr a chyfranogiad.

Byddwn hefyd wedi cytuno ar fodelau newydd ar gyfer darparu'r gwasanaethau Diwylliannol a Llyfrgell o Ebrill 2017 ymlaen.

**Sut byddwn yn gwneud hyn yn 2016/17?**

**Datblygu a gweithredu strategaeth hamdden ar gyfer y tymor canol i arwain penderfyniadau a lleihau'r angen i'r Cyngor fuddsoddi dros oes y cynllun hwn drwy:**

- Barhau i gynnal ymagwedd fasnachol at reoli Canolfananu Hamdden Amlwch, Caergybi, Plas Arthur a David Hughes drwy:
    - gynyddu incwm a chodi'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ein canolfannau hamdden ar hyd a lled yr ynys
    - gweithredu mesurau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy ym mhob un o Ganolfannau Hamdden Cyngor Sir Ynys Môn
- Gwella iechyd a lles trigolion Ynys Môn drwy gynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden
- Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni datblygu chwaraeon / allgymorth ( i 70,000 ). Gwneir hyn mewn nifer o ffyrdd yn cynnwys:
    - gofrestru 6,600 o unigolion ar gyfer rhaglen Campau'r Ddraig
    - sicrhau bod o leiaf 70% ohonynt yn cyrraedd safon nofio Cyfnod Allweddol 2
    - denu 62,000 o bobl i gymryd rhan mewn sesiynau 5X60
    - sicrhau y bydd mwy o bobl ifanc yn ennill cymhwyster chwaraeon (65) a sicrhau bod 6 o glybiau yn ennill achrediad chwaraeon.
    - sicrhau bod mwy o bobl yn cwblhau'r Cynllun Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer Corfforol a sicrhau y bydd 100 o gleifion lefel pedwar risg uchel yn cwblhau eu rhaglen 16 wythnos dan y cynllun (sy'n cynnwys cynllun adsefydlu cardiaidd, cynllun adsefydlu cleifion yr ysgyfaint a chynllun adsefydlu ar ôl canser)
    - Cynyddu nifer yr aelodau iau yng Nghanolfannau Hamdden Ynys Môn i 2,500

Adnoddau – Refeniw CA

**Annog datblygu a chefnogi darpariaeth o weithgareddau chwaraeon a hamdden yn y cymunedau, gan y cymunedau drwy:**

- Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o frand newydd Môn Actif
- Codi ymwybyddiaeth o Môn Actif a chodi ei broffil i gwsmeriaid waeth beth fo'u lefelau ffitrwydd, oed, diddordeb a gallu
- Lansio, gweithredu a rheoli system ar-lein y Canolfannau Hamdden i logi cyrsiau a gweithgareddau
- Gwella hygyrchedd i gwsmeriaid drwy ddarparu gwybodaeth gyfredol a dibynadwy ar y wefan sy'n gyson gyda brand Môn Actif.

Adnoddau – Refeniw

**Ymchwilio i opsiynau a gweithredu model diwygiedig ar gyfer darparu gwasanaeth Llyfrgelloedd drwy:**

- Agor trafodaethau ar lyfrgelloedd a reolir gan y gymuned gyda Chynghorau Tref a Chymuned a grwpiau cymunedol eraill
- Ymchwilio i fodel gwirfoddoli ar gyfer gweithgareddau sy'n ychwanegu gwerth ac ystyried darparu mwy o wasanaethau'r Cyngor o adeiladau llyfrgelloedd
- Datblygu a mabwysiadu model cyflawni newydd ar gyfer llyfrgelloedd ar gyfer ei weithredu erbyn mis Ebrill 2017

Adnoddau – Refeniw

**Ymchwilio i opsiynau sy'n gysylltiedig â darparu'r profiad diwylliannol a gynigir yn ein safleoedd treftadaeth a gweithredu'r opsiwn a ffefrir drwy:**

- Gychwyn proses dendro ar gyfer allanoli safleoedd treftadaeth ym Melin Llynnon, Carchar a Llys Biwmares ac adrodd yn ôl yn hydref 2016 ar yr opsiwn a ffefrir
- Sefydlu gweithgor i sicrhau'r incwm mwyaf ar gyfer Oriel Ynys Môn a datblygu model cynaliadwy i'r Oriel fod yn fwy hunangynhaliol yn ariannol trwy fabwysiadu cynllun gweithredu ac opsiynau ar gyfer dyfodol yr Oriel erbyn hydref 2016

Adnoddau - Refeniw

# Canolbwyntio ar Gwsmeriaid, Dinasyddion a Chymunedau

Mae gennym beth gwaith i'w wneud i safoni a symleiddio prosesau a thrwy ein gwaith gyda Chynghorau eraill, rydym yn rhagweld y byddwn yn sicrhau effeithlonrwydd pellach yn ein swyddogaethau cefnogi a gwell cydnerthedd o ran gwasanaethau arbenigol a sgiliau prin.

Wrth wireddu'r amcan hwn, byddwn, erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2016/17, wedi cyflwyno prosiect i Reoli Cysylltiadau Cwsmeriaid a fydd yn cyfrannu at wasanaethau sy'n canolbwyntio'n ardderchog ar y cwsmer, y dinesydd a'r gymuned. Byddwn wedi cymryd camau i sicrhau bod gennym bolisi a phroses recriwtio sy'n recriwtio'r bobl iawn i'r swyddi iawn. Byddwn hefyd wedi gwella'r profiad i'r cwsmer ym mhrif swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni, nid yn unig drwy ein derbynfa a'n harferion gwaith newydd, ond drwy ein trefniadau gweithio'n gallach sy'n ceisio lleoli staff yn agosach at y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

**Sut byddwn yn gwneud hyn yn ystod 2016/17?**

**Archwilio ansawdd yr adeiladau y mae cwsmeriaid yn derbyn gwasanaethau ynddynt, gan anelu at gyrraedd safon gyson ar draws y Cyngor sy'n cyfleu'r ddelwedd gywir i'r gwasanaethau sydd ar gael drwy:**

- Ailfodelu prif dderbynfa'r Cyngor i ddarparu ystafelloedd cyfweld ffurfiol, llecynnau cyfarfod anffurfiol a chyfrifiaduron hunanwasanaeth i gynorthwyo i wasanaethau ein cwsmeriaid yn y man cyswllt cyntaf.
- Cynnal cynllun peilot ar y pecyn cymorth 'Rhoi Pobl yn Gyntaf' sy'n alinio agweddau staff tuag at wasanaeth cwsmer gyda gwerthoedd y Cyngor, adolygu'r canfyddiadau a'i ehangu i wasanaethau eraill
- Sicrhau bod mwy o wasanaethau ar gael i'n cwsmeriaid o un lleoliad yn Llangefni drwy newid adeilad y Cyngor gan ein galluogi i symud staff o'r swyddfeydd Addysg a Chynllunio cyfredol
- Ymchwilio i ddarparu "Mannau Cyswllt" mewn lleoliadau cymunedol eraill fel y gall ein staff weithio yn y gymuned a bod yn agosach at eu cwsmeriaid

Adnoddau - Cyfalaf Refeniw

**Sicrhau yr hyrwyddir yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig drwy greu a gweithredu strategaeth iaith Gymraeg ddatblygedig drwy:**

- Greu a chymeradwyo Strategaeth Iaith Gymraeg mewn cydweithrediad gyda phartneriaid allweddol erbyn diwedd mis Medi 2016.

Adnoddau - Refeniw

# Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu ( TGCh )

Wrth drawsnewid ein gwasanaethau, bydd adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon ac effeithiol i gyflawni'r targedau a nodwyd ac i gynllunio'n unol â hynny. Bydd y Cyngor yn dod yn sefydliad 24/7 drwy ddefnyddio sianeli megis gwefannau a chyfryngau cymdeithasol, dulliau sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan ein cwsmeriaid i ddiwallu llawer o'u hanghenion personol neu eu hanghenion busnes megis i fancio neu i siopa. Fel hyn, gall ein cwsmeriaid gael at yr hyn y maent ei angen, pan fyddant ei angen, ble bynnag y maent ac yn eu dewis iaith.

Gellir rhyngweithio yn electronig, yn fewnol ac yn allanol ac ar bob lefel. Bydd dulliau cyfathrebu wyneb yn wyneb a ffyrdd eraill o gyfathrebu ar gael hefyd i'r rheini sydd eu hangen. Drwy newid systemau, byddwn yn gallu rhyddhau amser staff fel bod modd iddynt 'wneud eu gwaith' o fewn ffiniau clir gan ddefnyddio prosesau sy'n gadarn ond eto'n ystwyth. Bydd ein systemau yn cefnogi ein blaenoriaethau a bydd rhesymoli trylwyr yn sicrhau nad yw'r systemau hynny nad ydynt yn cefnogi'n blaenoriaethau yn cael eu defnyddio mwyach.

**Sut byddwn yn gwneud hyn yn ystod 2016/17?**

**Galluogi staff i gael mynediad diogel i'r systemau cyfrifiadurol y maent eu hangen o unrhyw leoliad drwy :**

- Ddefnyddio e-ddatrysiad o'r enw Citrix yn y sefydliad i gefnogi gweithio'n ystwyth ac fel bod modd i bobl dderbyn gwasanaethau'r Cyngor yn agosach i'w cymunedau
- Newid y rhwydwaith craidd presennol i ddarparu mwy o wytnwch, mwy o gapasiti a chysylltedd cyflymach i staff a dinasyddion

Adnoddau - Cyfalaf

**Galluogi cwsmeriaid a dinasyddion i gyfathrebu gyda'r Cyngor yn electronig dros y we ar adegau ac o leoliadau sy'n gyfleus iddynt drwy:**

- Cyflwyno a hyrwyddo ap ffôn symudol o'r enw 'ApMon' i ganiatáu i bobl roi gwybod i'r Cyngor am bethau yn gyflym a chyfleus.
- Datblygu'r Ap ymhellach gan gynnwys ei integreiddio gyda systemau busnes a systemau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (RhCC)
- Adolygu a nodi prosiectau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Rhagoriaeth Gofal Cwsmer ar gyfer eu gweithredu.

Adnoddau - Refeniw

**Sicrhau bod gwasanaethau yn defnyddio technoleg yn ehangach i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol drwy:**

- Gefnogi ail-lansiad y datrysiad Adnoddau Dynol / Cyflogres i ddarparu system fusnes gadarn a fydd yn hwyluso defnydd pellach o gyfleusterau hunanwasanaeth i staff er mwyn gwella effeithlonrwydd

- Integreiddio'r recriwtio ar y we gyda'r wefan i ddarparu datrysiad rheoli recriwtio awtomataidd fel y gall pobl gyflwyno ceisiadau am swyddi yn electronig

- Cyflwyno System Wybodaeth Ddaearyddol Gorfforaethol (GIS) i wneud gwell defnydd ar draws y Cyngor o ddata gofodol a gwybodaeth am eiddo sy'n gysylltiedig â mapio i helpu i nodi a dadansoddi patrymau gwybodaeth i bwrpas cynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol

- Cyflwyno system Rheoli Galwadau Ffôn er mwyn rheoli galwadau ffôn gan ein cwsmeriaid yn effeithiol

Adnoddau - Cyfalaf Refeniw

**<u>Chwilio am dechnolegau TGCh newydd i gwrdd ag anghenion y Cyngor a dinasyddion yr Ynys yn awr ac i'r dyfodol drwy</u>:**

- Datblygu lleoliad ar gyfer ail ganolfan ddata i sicrhau bod data'r Cyngor yn cael ei storio'n ddiogel oddi ar y safle

**Adnoddau -** Cyfalaf

# Blaenoriaethu Gwelliannau eraill

Y llynedd, cynhaliwyd hunanasesiad cadarn a oedd yn cydnabod y gwelliannau a wnaed dros y tair blynedd diwethaf.

Amlygwyd hefyd welliannau pellach i gwrdd â gofynion ein 6 thema allweddol, a sefydlu'n hunain a chystadlu fel un o'r cynghorau gorau yng Nghymru.

Amlygwyd bod rolau a chyfrifioldebau aelodau a staff bellach yn llawer cliriach. Cydnabuwyd bod cydweithio i bwrpas gwella yn cynyddu yn sgil datblygu perthnasau gweithio ac ymddygiad proffesiynol ar draws y gorfforaeth. Nodwyd hefyd bod y Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'r hinsawdd ariannol sydd ohoni ac yn cydnabod yr heriau pellach y mae'n eu hwynebu.

Mae cyfeiriad clir yn awr ar gyfer trawsnewid gwasanaethau i bobl hŷn ar yr Ynys ac mae strategaeth ar gyfer moderneiddio addysg. Byddwn yn datblygu cynllun gweithio'n gallach er budd y dinesydd ac yn cydnabod fod angen i ni wella ein rheolaeth gyllidol a sefydlu'n gadarn ein harferion rheoli risg.

Gan ystyried yr hyn a fynegwyd eisoes felly, ein bwriad fel corff cyhoeddus eleni yw cyflawni'r gwelliannau pellach a restrir isod dan y tri maes allweddol isod -

**(a) Arweinyddiaeth –**

**Byddwn yn darparu arweinyddiaeth effeithiol a chryf ac yn sefydlu'r ymddygiad proffesiynol a sefydliadol angenrheidiol i sicrhau gwelliant. I wneud hyn byddwn yn –**

- Datblygu ymhellach rôl ein Huwch Dim Arweinyddiaeth i yrru cyfeiriad strategol y Cyngor yn ei flaen gan sicrhau fod blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol yn cael sylw mewn modd amserol e.e. crisis Ffoaduriaid Syria.
- Cynnal a chynyddu'r rhaglen drawsnewid i foderneiddio dulliau cysylltu a darparu gwasanaethau yn y Cyngor
- Arwain datblygiad ein gweithlu i sicrhau fod y sgiliau cywir gennym i ddarparu gwasanaethau o'r ansawdd uchaf ac adnabod staff sydd gyda'r potensial i ddatblygu fel rheolwyr ac arweinwyr y dyfodol
- Cryfhau'r berthynas bartneriaethol gyda Chynghorau Tref a Chymuned ac arwain ar fentrau partneriaethol a chydweithredol fydd yn datblygu manteision posib i ddinasyddion a staff i'r dyfodol

**(b) Llywodraethiant –**

**Byddwn yn darparu fframwaith rheoli perfformiad integredig, gan gysylltu'r Cynllun Corfforaethol i'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol a'r broses o bennu'r gyllideb flynyddol ac adolygiadau o berfformiad unigol. I gyflawni hyn byddwn yn –**

- Mireinio'n trefniadau rheolaeth ariannol mewnol gan gyflunio cyllid a gwariant yn erbyn blaenoriaethau corfforaethol

- Gweithredu prosiect caffael corfforaethol diwygiedig i gyflawni arbedion sylweddol a gwreiddio trefniadau parhad busnes yn gorfforaethol ac ar lefel gwasanaeth

- Ymateb yn gadarnhaol i argymhellion gan ein harchwilwyr mewnol ac allanol.

- Gwreiddio prosesau rheoli risg ymhellach a datblygu polisi partneriaeth gyda chyfarwyddyd clir ar feini prawf ar gyfer sefydlu partneriaeth gyda modelau llywodraethiant clir

- Sefydlu rhaglen buddsoddi er budd i alluogi a gwireddu blaenoriaethau sy'n datblygu yn ystod y flwyddyn

**(c) Perfformiad –**

**<u>Byddwn yn Gyngor sy'n rhoi pwyslais ar ganlyniadau a deilliannau i'n dinasyddion ac yn ymdrechu i wella perfformiad mewn meysydd pwysig o'n gwaith. I gyflawni hyn, byddwn yn</u> –**

- Adeiladu ar lwyddiant y Byrddau Trawsnewid Corfforaethol a'r prosesau sy'n sylfaen iddynt.

    - Cyflwyno a sefydlu rhaglen effeithlonrwydd ynni trwy'r holl sefydliad gyda'r nod o ostwng costau ac allyriadau carbon

- Parhau i fireinio'n cardiau sgorio corfforaethol a chardiau sgorio gwasanaeth a sicrhau cysondeb o ran ein cynlluniau darparu gwasanaeth.

- Caffael a gweithredu system rheoli perfformiad electronig gorfforaethol, gan sicrhau'r sgiliau dadansoddol sydd eu hangen i rymuso staff drwy hyfforddiant ar reoli perfformiad

Drwy gyflawni'r uchod fe fyddwn yn cymryd camau breision i fod, erbyn 2017, yn –

***'yn gyngor proffesiynol sy'n cael ei redeg yn dda, yn arloesol yn ein hymagwedd, yn ymrwymedig i ddatblygu ein pobl a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o ansawdd da, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ein dinasyddion'.***

# Manylion Pellach

**I gael mwy o wybodaeth am unrhyw beth yn y ddogfen hon neu i wneud unrhyw sylwadau, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:**

**Gwasanaeth Trawsnewid Corfforaethol**
**Cyngor Sir Ynys Môn**
**Swyddfeydd y Cyngor**
**Llangefni Ynys Môn**
**LL77 7TW**
**Ffôn - 01248 752111**
**Ebost :–**
**ScottRowley@ynysmon.gov.uk**
**GethinMorgan@ynysmon.gov.uk**

**Mae'r ddogfen hon ar gael ar dâp, mewn braille ac ar y wefan y Cyngor:**
**www.ynysmon.gov.uk/cynlluncorfforaethol**

**Gallwch gael mwy o wybodaeth hefyd fel a ganlyn:**
**Gellir gweld polisïau, cynlluniau a strategaethau a gyhoeddir gan y Cyngor www.ynysmon.gov.uk**

**Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol ar gael ar wefan y Cyngor trwy glicio ar y ddolen a ganlyn:**
**www.ynysmon.gov.uk/AGBSAC**

**Mae Adroddiadau Archwilio ac Arolygu a gynhyrchwyd gan Reoleiddwyr y Cyngor ar gael ar eu gwefannau unigol fel a ganlyn:**

- **Swyddfa Archwilio Cymru:**
  **www.wao.gov.uk**
- **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:**
  **www.cssiw.org.uk**
- **Estyn:**
  **www.estyn.gov.uk**

**Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, neu i gael dogfen nad yw wedi ei rhestru uchod, cysylltwch â'r Cyngor os gwelwch yn dda trwy'r manylion cyswllt a amlinellir ar frig y dudalen hon.**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **12 MAI 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG 2015/16** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **GWEITHREDU:** | **DERBYN YR ADRODDIAD** |

**Rhagarweiniad**

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn Bwyllgor statudol o'r Cyngor ac mae arno wyth Aelod etholedig a dau Aelod Lleyg. Rôl y Pwyllgor Archwilio yw rhoi sicrwydd annibynnol ynghylch pa mor ddigonol yw trefniadau llywodraethu'r Cyngor, yr amgylchedd rheoli cysylltiedig â'r fframwaith rheoli risg. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am wneud gwaith sgriwtini annibynnol ar berfformiad ariannol ac anariannol yr Awdurdod (i'r graddau y mae'n effeithio ar ba mor agored yw'r awdurdod i risgiau ac yn gwanhau'r amgylchedd rheoli), a goruchwylio'r broses adrodd ariannol ac adolygu'r cyfrifon blynyddol a'u cymeradwyo i'r Cyngor.

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yw'r Cynghorydd Robert Llewelyn Jones a'r Is-Gadeirydd yw'r Cynghorydd John Griffith.

Yn unol â'i gylch gorchwyl, rhaid i'r Pwyllgor baratoi adroddiad ar gyfer cyfarfod blynyddol y Cyngor ar ei weithgareddau ar gyfer y flwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn cwrdd â'r gofyniad hwnnw.

**Cyfarfodydd**

Yn y flwyddyn ddinesig, mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod yn llawn wyth gwaith ac mae'r ffigyrau presenoldeb ar gyfer y cyfarfodydd er gwybodaeth yn Atodiad A.

Roedd y cyfarfodydd cyffredin yn dilyn calendr y Pwyllgor Archwilio ac ystyriwyd, ymysg busnes arferol y Cyngor: adroddiadau gwaith gan archwilwyr mewnol ac allanol, y datganiad cyfrifon ac adroddiad yr archwiliwr allanol ar y datganiad. Yn ogystal, derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau ar gynnydd o ran Rheoli'r Trysorlys a'r Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys, adroddiad ar y fframwaith rheoli risg a'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol. Yn ogystal, derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau penodol ar adolygiad o Ddiesel Arforol, Argaeledd Grantiau a gwneud y mwyaf ohonynt, Archwiliad yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Adfer Trychineb TGCh a Pharhad

Busnes.  Ceir manylion pellach am y materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn y tabl yn Atodiad B.

Cwblhawyd y gwaith o baratoi'r Datganiad Cyfrifon wedi ei archwilio ar gyfer 2014/15 erbyn y dyddiad cau, sef 30 Medi 2015 a'u hargymell gan y Pwyllgor i'w cymeradwyo gan y Cyngor. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gefnogi rheolwyr gyda mesurau i gryfhau'r swyddogaeth gyllid ymhellach ac i sicrhau fod modd cynnal y cynnydd presennol yn y dyfodol.

**Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Llywodraethu Corfforaethol yw'r ymadrodd a ddefnyddir i ddisgrifio'r trefniadau ar gyfer cyfarwyddo a rheoli sefydliadau. Mae'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd a ddefnyddir gan Aelodau a Swyddogion i redeg busnes y Cyngor a'r modd yr ydym yn ymgysylltu gyda'n cymunedau a'n partneriaid a rhoi arweiniad iddynt lle mae hynny'n briodol.

Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei system ar gyfer rheolaeth fewnol a threfniadau llywodraethau gyda'i Ddatganiad Cyfrifon bob blwyddyn. Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael ei gynhyrchu ar gyfer 2014/15 er mwyn cefnogi'r Datganiad Cyfrifon blynyddol.

Mabwysiadodd y Pwyllgor Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2014/15 yn unol â'r gofynion statudol.  Cynhyrchwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar ôl ymgynghori'n eang ac adolygu'r trefniadau llywodraethu yn ystod y flwyddyn.  Roedd Datganiad 2014/15 yn gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE ar gyfer Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol.

Fodd bynnag, roedd y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol yn parhau i adlewyrchu rhai gwendidau o ran trefniadau llywodraethu.  Cynhyrchwyd Cynllun Gwella er mwyn rhoi sylw i'r gwendidau hyn.

**Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant**

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant wedi gweithio o fewn ei gylch gorchwyl sy'n cynnwys gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â rôl Pwyllgorau Archwilio o ran monitro Rheoli Risg, Llywodraethu a Rheolaeth Fewnol yn y Cyngor.

Nid yw'r Pwyllgor wedi cynnal hunanasesiad o'i effeithiolrwydd yn ystod 2015/16. Bydd rhestr wirio a gafwyd o ganllawiau ymarferol CIPFA 'Audit Committeess: Practical Guidance for Local Authorities' yn cael ei defnyddio i gynnal hunanasesiad yn 2016/17 a bydd canlyniad yr hunanasesiad hwn yn llywio'r rhaglen hyfforddi a'r camau gweithredu ar gyfer y Pwyllgor.  Bydd adroddiad ar ganlyniad yr hunanasesiad hwn yn cael ei gyflwyno yn 2016/17 ynghyd â Chynllun Gweithredu ar gyfer gwelliant parhaus. Bydd y cynllun gweithredu hwn yn cael ei ddiweddaru ac adroddir yn ôl ar gynnydd i'r Pwyllgor yn rheolaidd yn ystod 2016-17.

**Effeithiolrwydd**

Mae aelodau Pwyllgor Archwilio yn cymryd eu rôl mewn perthynas â llywodraethu a stiwardiaeth o ddifrif calon. Maent yn cydnabod mai Pwyllgor anwleidyddol yw hwn ac, o'r herwydd, swyddogaeth y Pwyllgor yw dal rheoleiddwyr a swyddogion yn atebol a chyflawni'r

dyletswyddau mewn perthynas â rheoleiddio’r fframweithiau rheoli risg, llywodraethu a sicrwydd yn y Cyngor.

Mae’r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau rheolaidd i gael sicrwydd ynghylch meysydd gweithgaredd allweddol ac mae hefyd yn cwblhau hunanasesiad o’i effeithiolrwydd ei hun. Bydd hunanasesiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor, fel y disgrifiwyd eisoes, yn cael ei gynnal yn 2016/17 er mwyn adolygu cynnydd yn 2015/16 yn erbyn rhestr wirio CIPFA mewn perthynas ag arfer dda ar gyfer Pwyllgorau Archwilio.

Un maes a nodwyd ar gyfer ei wella yn 2015/16 oedd yr angen i godi proffil y Pwyllgor Archwilio a gwneud cydranddeiliaid yn fwy ymwybodol o’r gwaith pwysig y mae’n ei wneud. Bydd y Pwyllgor yn datblygu ymhellach ei rôl o ran ymgysylltu gyda rheoleiddwyr allanol ac eithrio archwilwyr (oherwydd bod lefel effeithiol o ymgysylltiad gyda rheoleiddwyr yn barod).

**Archwilwyr Allanol**

Mae’r Cyngor yn cael ei archwilio’n allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) er bod rhan o’r gwaith, sef agweddau ariannol yr archwiliad a rhywfaint o waith perfformiad, yn cael ei wneud gan Deloittes, sef PwC gynt (2014/15) ar gyfer yr archwilydd penodedig yn SAC. Mae’r Pwyllgor Archwilio wedi bod yn ystyried adroddiadau rheolaidd gan Deloittes ac mae diweddariad yn cael sylw ym mhob cyfarfod.

Mae’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant wedi bod yn cael diweddariadau rheolaidd gan SAC ar y Rhaglen Waith Perfformiad. Mae hon yn agwedd bwysig ar fusnes y Cyngor i sicrhau bod yr holl adroddiadau allanol yn cael sylw, un ai gan y Pwyllgor Archwilio neu un o’r Pwyllgorau Sgriwtini a bod camau priodol yn cael eu cymryd.

Ynghyd â diweddariadau ar y Rhaglen Gwaith Perfformiad, mae’r Pwyllgor hefyd yn derbyn diweddariadau gan Deloittes ar y gwaith archwilio ariannol sy’n cael ei wneud. Mae diweddariadau eleni wedi cynnwys y cynllun gwaith ac amserlen y gwaith.

**Archwilio Mewnol**

Mae gan y Cyngor Dîm Archwilio Mewnol a reolir gan Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o 1 Awst 2015. Cymeradwyodd y Pwyllgor y Cynllun Gweithredol Mewnol am 2015/16 yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2015. Bydd y Rheolwr Archwilio yn adrodd ar ganlyniadau yn erbyn y Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol i bob un o gyfarfodydd cyffredin y Pwyllgor fel rhan o’r adroddiadau cynnydd ar Archwilio Mewnol. Mae adroddiadau cynnydd hefyd yn cynnwys adroddiadau ar berfformiad gwasanaethau o ran gweithredu argymhellion archwilio mewnol.

Mae adroddiadau gwaith hefyd yn cynnwys manylion ynghylch adolygiadau Archwilio Mewnol a gwblhawyd ynghyd â lefelau sicrwydd a roddir. Dros y flwyddyn, mae’r rhain yn datblygu i fod yn asesiad o gryfder fframwaith rheolaeth fewnol y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn hon, mae’r Adroddiadau Cynnydd ar Archwilio Mewnol wedi cynnwys gwybodaeth ychwanegol ynghylch pob adolygiad a gynhaliwyd gan gynnwys manylion am y casgliadau allweddol yn codi o’r gwaith a wnaed.

Darperir datganiad cyffredinol ar reolaeth fewnol yn adroddiad blynyddol y Rheolwr Gwasanaeth Archwilio ac yn Natganiad Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor.

**Rheoli Risg**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mae'n rhaid i awdurdodau lleol benodi Pwyllgor sy'n gyfrifol am adolygu ac asesu'r trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol yn yr Awdurdod. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywdraethiant wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu gofynion y Mesur Lleol.

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith Rheoli Risg yn y Cyngor yn ystod y flwyddyn a bydd Rheoli Risg ac mae derbyn y Gofrestr Risg Gorfforaethol bellach wedi bod yn eitem sefydlog ar raglen y Pwyllgor ers 2015/16.

Mae'r Pwyllgor yn ystyried mai ei rôl allweddol ef o ran y broses Rheoli Risg yw bodloni ei hun ynghylch digonolrwydd y strwythurau, y prosesau a'r cyfrifoldebau ar gyfer nodi a rheoli'r risgiau allweddol sy'n wynebu'r sefydliad.

**Atal Twyll**

Bydd y Swyddog Atal Twyll Corfforaethol yn cyflwyno adroddiadau'n rheolaidd ar ganlyniadau ei waith yn ystod 2016/17. Bydd y Polisi Atal Twyll Corfforaethol yn cael ei adolygu yn ystod 2016/17.

**Cynlluniau i'r Dyfodol**

Yn ogystal â'i fusnes rheolaidd, bydd y Cyngor yn parhau gyda'i raglen ddatblygu, a rhoddir siâp ar y rhaglen ddatblygu honno drwy ddefnyddio'r hunanasesiad o effeithiolrwydd a chanlyniadau'r newidiadau'r i drefniadau atal twyll y Cyngor. Bydd hyn eto yn cynnwys digwyddiadau hyfforddi perthnasol a fydd yn ymwneud â'i weithgareddau yn 2016/17.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i ddatblygu ei rôl mewn perthynas â Rheoli Risg yn ystod 2016/17 a bydd yn edrych ar fabwysiadu dull o fedru asesu'n barhaus ddigonolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer atal twyll a llygredd.

Yn dilyn cyhoeddi'r Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2014/15 yn Rhagfyr 2015, bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn cefnogi'r Cyngor i roi sylw systematig i'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwelliant sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Mae rhaglen waith arfaethedig y Pwyllgor Archwilio ar gael yn Atodiad C.


**Monitro Argymhellion**

Er mwyn cyflawni mandad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant fel y caiff ei nodi yn y cylch gorchwyl, rhaid i'r Pwyllgor gael sicrwydd y bydd Rheolwyr yn gweithredu ar y materion y mae'n dwyn sylw atynt. Mae'r dangosydd sy'n ymwneud â gweithredu argymhellion yn rhoi tystiolaeth o'r canlyniadau a lefel y dylanwad o ran gyrru gwelliant a hyrwyddo rheoli risg.

Yn **Nhabl 1** isod, ceir crynodeb o'r argymhellion a oedd wedi/heb eu gweithredu ar 31 Mawrth

2016. Roedd 69% o'r argymhellion lefel 'uchel' a 'chanolig' wedi cael eu cofnodi fel rhai a oedd wedi cael eu gweithredu ar 31 Mawrth 2016.

Tabl 1




**Sylwadau'r Cadeirydd**

Hoffai'r Cadeirydd ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor am eu presenoldeb a'u cyfraniad at waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ynghyd â'r gweithwyr hynny sydd wedi mynychu a chyfrannu cymaint. Mae'r Cadeirydd yn dymuno diolch i'r holl staff yn y Gwasanaethau Cyllid ac Archwilio Mewnol sydd wedi bod mor gymwynasgar bob amser.

Hoffai'r Cadeirydd achub ar y cyfle i atgoffa'r Cyngor o bwysigrwydd gwaith y Pwyllgor sy'n fwy perthnasol hyd yn oed yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni o ran sicrhau fod y Cyngor yn cael ei redeg yn gadarn ac y ceir gwerth am arian.

Mae'r Pwyllgor yn ymrwymo i barhau i weithio gyda gweithwyr y Cyngor i gefnogi gwelliant parhaus yng ngweithgareddau'r Cyngor yn 2016/17.

**Y CYNGHORYDD ROBERT LLEWELYN JONES**

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO** **29 Chwefror 2016**

# ATODIAD A

| AELODAU | Cyfarfod ar 27.04.15 | Cyfarfod ar 14.05.15 | Cyfarfod ar 23.06.15 | Cyfarfod ar 27.07.15 | Cyfarfod ar 23.09.15 | Cyfarfod ar 08.12.15 | Cyfarfod ar 18.02.16 | Cyfarfod ar 15.03.16 | Nifer y Cyfarfodydd a Fynychwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyng T.Ll.Hughes (Cadeirydd) | DO | | | | | | | | 1 |
| Cyng R.Ll.Jones (Cadeirydd) | DO | DO | DO | DO | DO | DO | Ymddiheuriad | DO | 7 |
| Cyng John Griffith (Is-Gadeirydd) | DO | DO | DO | DO | DO | DO | DO | DO | 8 |
| Cyng Jim Evans | DO | DO | DO | DO | DO | Heb Fynychu | DO | DO | 7 |
| Cyng R O Jones | Ymddiheuriad | DO | Ymddiheuriad | DO | Ymddiheuriad | DO | DO | Ymddiheuriad | 4 |
| Cyng Dafydd Thomas | DO | DO | Ymddiheuriad | DO | DO | DO | DO | DO | 7 |
| Cyng Alun Mummery | DO | DO | DO | DO | DO | DO | DO | DO | 8 |
| Cyng Peter Rogers | | DO | DO | DO | DO | DO | DO | | 6 |
| Cyng Nicola Roberts | | | Heb Fynychu | Heb Fynychu | Heb Fynychu | Heb Fynychu | Heb Fynychu | Heb Fynychu | 0 |
| Cyng R Meirion Jones | | DO | | | | | | | 1 |
| Mrs Sharon Warnes | DO | DO | DO | DO | Ymddiheuriad | DO | DO | DO | 7 |
| Mr Richard Barker | Ymddiheuriad | DO | DO | DO | Ymddiheuriad | DO | DO | DO | 6 |
| Cyfanswm i'r Pwyllgor | 7 | 10 | 7 | 9 | 6 | 8 | 8 | 7 | 62 |

**PWYLLGOR ARCHWILIO – CYNNYDD AR FATERION A GODWYD 2015-16** **ATODIAD B**



| Cyf | Dyddiad y Codwyd y Mater | Min. Ref. | Mater a Godwyd | Gweithredu Angenrheidiol | Cyfrifoldeb am Weithredu | Angen Gweithredu Erbyn | Statws Cyfredol | Statws CAG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 27/04/15 | 4 | **Adolygu'r Siarter Archwilio Mewnol** – Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn cynnwys y Siarter arfaethedig fel sy'n ofynnol dan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. | Cyflwyno'r Siarter Archwilio Mewnol i'w ystyried a'i gymeradwyo | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant | 27/04/15 | Cymeradwywyd | Gwyrdd |
| 2 | 27/04/15 | 5 | **Adolygu'r Protocol Diwygiedig a Diweddaredig** – sy'n nodi amrywiol gamau yr ymgysylltiadau Archwilio Mewnol. Mae'r protocol wedi'i ddiweddaru yn unol â rheoliadau ac arferion cyfredol. | I'w ystyried a'i gymeradwyo | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant | 27/04/15 | Cymeradwywyd | Gwyrdd |
| 3 | 27/04/15 | 9 | **Disel Morwrol** – Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Adfywio Economaidd a Chymunedol) ar yr ymateb a'r camau gweithredu a gymerwyd yn dilyn yr adolygiad Archwilio Mewnol. | Darparu mantolen y Gwasanaeth Disel Morwrol am y pum mlynedd diwethaf i'r Pwyllgor | Pennaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol | 23/06/15 | Gweler 27/7/15 Eitem 10 | Gwyrdd |
| 4 | 27/04/15 | 10 | **Argaeledd Grantiau ac Uchafu'r Grantiau sydd ar gael** – Adroddiad yn amlinellu'r prif ffynonellau cyllid sydd wedi bod ar gael yn 2014/15 a'r ffyrdd y gellir uchafu cyllid dros y blynyddoedd i ddod. | Er gwybodaeth yn unig – dim gweithredu pellach yn codi | D/B | D/B | D/B | Gwyrdd |
| 5 | 27/04/15 | 11 | **Rheoli Risg** – Roedd y Pwyllgor | Penderfynwyd derbyn yr | Rheolwr Risg ac | Diweddari | Diweddariadau | Gwyrdd |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Archwilio a Llywodraethiant wedi gofyn i'r Rheolwr Risg ac Yswiriant adrodd yn ôl ym mis Ebrill 2015 ar statws a gweithrediad y matrics/cofrestr risg corfforaethol diwygiedig a'r dogfennau cysylltiedig sy'n rhoi arweiniad ar risg. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor ei ystyried yn egluro'r cynnydd ar weithredu'r matrics/cofrestr risg corfforaethol diwygiedig a'r dogfennau cysylltiedig sy'n rhoi arweiniad ar risg. | adroddiad ynghyd â'r dogfennau Rheoli Risg cysylltiedig. | Yswiriant | adau bob 6 mis | ar weithredu'r Cynllun Gweithredu Lliniaru Risg. | |
| 6 | 23/06/15 | 3 | **Datganiad Cyfrifon Drafft 2014/15 a Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2014/15** – Mae'r Pwyllgor wedi adolygu'r Datganiad Cyfrifon Drafft a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft | Penderfynwyd nodi y bydd y ffigyrau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad adolygiad yn aros yn ffigyrau dros dro hyd nes y bydd yr archwiliad ar Ddatganiad Cyfrifon 2014/15 wedi cael ei gwblhau a'i lofnodi ac y bydd unrhyw addasiadau sylweddol o ganlyniad i'r ffigyrau yn yr adroddiad yn cael eu hadrodd yn briodol. | D/B | D/B | D/B | Gwyrdd |
| 7 | 23/06/15 | 7 | **Ymgais o Dwyll yn erbyn y Cyngor** – Ymchwiliad Heddlu Gogledd Cymru i ymgais o dwyll yn erbyn y Cyngor fel rhan o gynllwyn ehangach o dwyll yn | Swyddog Adran 151 i geisio cael eglurhad pellach gan Heddlu Gogledd Cymru ynglŷn â sut maent yn gweithredu ar y mater. | Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 | 23/9/15 | Gweler 8/12/15 Eitem 13 | Ambr |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | erbyn awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. | | | | | |
| 8 | 27/07/15 | 3 | **Adolygiad Blynyddol Rheolaeth Trysorlys 2014/15** – Cyflwynwyd yr Adolygiad Rheolaeth Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2014/15 i'r Pwyllgor ei ystyried a'i sgriwtineiddio. | Penderfynwyd nodi:<br>• y bydd y ffigyrau yn aros yn rhai dros dro hyd nes y bydd yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2014/15 yn cael ei gwblhau a'i lofnodi<br>• Y dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro a gwirioneddol ar gyfer 2014/15 o fewn yr Adroddiad<br>• Yr Adroddiad ar Adolygiad Rheolaeth Trysorlys 2014/15 | D/B | D/B | D/B | Gwyrdd |
| 9 | 27/07/15 | 6 | **Cynllun Archwilio Mewnol Strategol 2015/16 to 2017/18** – Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Archwilio Mewnol Dros Dro yn ymgorffori Cynllun Archwilio Mewnol diwygiedig ar gyfer 2015/6 i 2017/18 i'w ystyried a'i gymeradwyo. | Archwilio Mewnol i ymgorffori yn ei drefniadau adrodd ddarpariaeth i ddangos materion sydd dal yn mynd rhagddynt. | Rheolwr Archwilio | Adrodd yn Chwarter ol | Gweler 8/12/15 Eitem 21 | Gwyrdd |
| 10 | 27/07/15 | 7 | **Gwasanaeth Disel Morwrol** – Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg i adrodd ar lafar ar y wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani ynglŷn â'r Gwasanaeth Disel Morwrol mewn perthynas ag incwm a gwariant a dileu dyledion. | Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg wybodaeth ychwanegol i'r mewn perthynas ag incwm a gwariant a dileu dyledion. Rhoddodd y Swyddog wybod i'r Pwyllgor fod cofnodion Disel Morwrol wedi cael eu | D/B | D/B | D/B | Gwyrdd |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | harchwilio am y chwe blynedd diwethaf a gellir cadarnhau bod elfen disel y gwasanaeth wedi aros yn broffidiol am bob un o'r 6 blynedd. Penderfynwyd nodi'r wybodaeth. Dim gweithredu pellach i ddilyn. | | | | |
| 11 | 27/07/15 | 10 | **Rheoli Risg** – Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Risg ac Yswiriant. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a gofynnodd am eglurhad ar sut y bydd yn parhau i dderbyn gwybodaeth am weithgareddau rheoli risg, gan gyfeirio'n enwedig at unrhyw newidiadau a all ddigwydd a'r rhesymau pam, fel y gellir sicrhau bod y risgiau allweddol yn cael eu rheoli'n briodol. Bwriedir adrodd dwywaith y flwyddyn a chaiff y Pwyllgor ddiweddariad hefyd ar y broses rheoli risg. Caiff y Pwyllgor ei friffio ar unrhyw eithriadau / llithriadau ac unrhyw risgiau sy'n cael eu huwch gyfeirio. | Darparu adroddiad cynnydd cryno ar reoli risg i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf. | Rheolwr Risg ac Yswiriant | 23/09/15 | Gweler 23/9/15 Eitem 15 | Gwyrdd |
| 12 | 27/07/15 | 12 | **Darparu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol** - Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 yn amlinellu'r | Penderfynwyd derbyn a nodi'r wybodaeth. Dim gweithredu pellach. | D/B | D/B | D/B | Gwyrdd |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | trefniadau ar gyfer darparu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Roedd yr adroddiad yn egluro'r trefniadau lle bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar Cyngor hwn yn darparu'r gwasanaeth ar y cyd, gyda Chonwy'n darparu goruchwyliaeth rheolwyr ar Wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor hwn, ynghyd â manylion y cytundeb partneriaeth gyda Chonwy. | | | | | |
| 13 | 23/09/15 | 2 | **Ymgais o Dwyll yn erbyn y Cyngor** – Ymchwiliad Heddlu Gogledd Cymru i ymgais o dwyll yn erbyn y Cyngor fel rhan o gynllwyn ehangach o dwyll yn erbyn awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Adroddodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 nad ydynt wedi derbyn ymateb manwl gan Heddlu Gogledd Cymru eto. Oherwydd yr oedi awgrymwyd ysgrifennu eto at y Prif Gwnstabl i gael sicrwydd bod yr ymchwiliad yn mynd yn ei flaen. | Cefnogodd y Pwyllgor yr awgrym a chynigiodd y dylid anfon yr ohebiaeth at Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a darparu copi i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru. | Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 | 8/12/15 | Gweler 8/12/15 Eitem 16 | Ambr |
| 14 | 23/09/15 | 3 | **Datganiad Cyfrifon 2014/15 ac Adroddiad ISA 260**– Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad | Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro i gylchredeg yr | Y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran | 8/12/15 | Cylchredeg yr atodlen | Gwyrdd |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 Dros Dro yn ymgorffori’r cyfrifon terfynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15. Trafodwyd nifer o faterion gan gynnwys arafwch y broses o werthu asedau nad yw’r Awdurdod eu hangen. | atodlen o asedau’r Awdurdod sydd ar werth i Aelodau’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant. | 151 Dros Dro | | | |
| 15 | 23/9/15 | 6 | **Rheoli Risg –** Rhoddodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant ddiweddariad ar lafar o’r sefyllfa ddiweddaraf ynghylch rheoli risg. | Penderfynwyd nodi’r sefyllfa o ran Rheoli Risg a’r Rhestr Risg Gorfforaethol. Dim gweithredu pellach. | D/B | D/B | D/B | Gwyrdd |
| 16 | 8/12/15 | 2 | **Ymgais o Dwyll yn erbyn y Cyngor** - Ymchwiliad Heddlu Gogledd Cymru i ymgais o dwyll yn erbyn y Cyngor fel rhan o gynllwyn ehangach o dwyll yn erbyn awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Y Pennaeth Adnoddau a’r Rheolwr Archwilio i roi adroddiad llawn ynglŷn â’r ymchwiliad. Adroddodd y Pennaeth Adnoddau a’r Swyddog Adran 151 fod Prif Arolygydd yr Heddlu wedi cyfarfod yn lleol gyda’r Pennaeth Adnoddau a’r Rheolwr Archwilio. Mewn achosion o’r fath mae’r arian sy’n cael ei gymryd trwy dwyll (ni chollwyd unrhyw arian yn achos | Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a derbyniodd fod yr Heddlu wedi gwneud cymaint â phosib yn yr amgylchiadau a bod dyletswydd ar yr Awdurdod i ddysgu gwersi o’r profiad, yn enwedig o ran sicrhau bod mesurau diogelwch ar waith a’u bod yn gadarn, cryfhau’r rheolaethau mewnol a gweithredu ar unwaith pan ganfyddir fod rhywbeth o’i le. Yn y dyfodol, bydd achosion o’r fath yn cael eu trosglwyddo i Action Fraud iddynt ddelio â hwy. | D/B | D/B | D/B | Gwyrdd |

## PWYLLGOR ARCHWILIO – CYNNYDD AR FATERION A GODWYD 2015-16     ATODIAD B

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Ynys Môn) fel arfer yn cael ei symud rhwng cyfrifon ac allan o'r wlad. Gan fod awdurdodau lleol yn dod yn dwy effro i'r risgiau o dwyll o'r fath, mae'r troseddwyr yn targedu sefydliadau eraill. O ystyried nad oedd y Cyngor wedi adrodd am yr ymgais o dwyll am ddeufis, roedd yr oedi'n golygu bod tebygolrwydd is o gael canlyniad positif o ran dal ac arestio'r twyllwyr. | | | | | |
| 17 | 8/12/15 | 3 | **Archwiliad yr Asiantaeth Safonau Bwyd** – Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd yn ymgorffori adroddiad yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd a Bwyd Anifeiliaid ar Ynys Môn yn dilyn archwiliad a wnaed ym mis Gorffennaf, 2014. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys y Cynllun Gweithredu a luniwyd i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ynghyd â diweddariad ar y cynnydd hyd yma. Cododd y Pwyllgor y materion canlynol:<br><br>• Y sefyllfa staffio | Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn adroddiad Archwilio yr Asiantaeth Safonau Bwyd a nodi ei gynnwys. Y Pwyllgor i dderbyn diweddariad ar y cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu. | Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd | Heb nodi dyddiad | Angen diweddariad | Ambr |

**PWYLLGOR ARCHWILIO – CYNNYDD AR FATERION A GODWYD 2015-16** **ATODIAD B**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | • A fyddai cydweithio yn ateb posib i'r anawsterau staffio? | | | | | |
| 18 | 8/12/15 | 6 | **Archwilio Allanol – Tystysgrif o Gydymffurfiaeth** – Cyflwynwyd i'r Pwyllgor y Tystysgrif o Gydymffurfiaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cadarnhau bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i gyhoeddi asesiad o'i berfformiad yn 2014/15 cyn 31 Hydref, 2015 yn y flwyddyn ariannol. Nododd y Pwyllgor hyn. | Dim gweithredu pellach. | D/B | D/B | D/B | Gwyrdd |
| 19 | 8/12/15 | 6 | **Adfer systemau TGCh mewn Trychineb a Pharhad Busnes** – lefel sicrwydd cyfyngedig a meysydd o bryder parhaus i'r Pwyllgor. | Rheolwr Archwilio i gwblhau Archwiliadau Dilyn i Fyny ar Adfer systemau TGCh mewn Trychineb a Pharhad Busnes.<br><br>Y Rheolwr Trawsnewid TGCh i friffio'r Pwyllgor ar y cynnydd hyd yma yn y ddau faes. | Rheolwr Archwilio<br><br>Rheolwr Trawsnewid TGCh | 15/3/16<br><br>15/3/16 | Adroddiadau Dilyn i Fyny<br><br>Briffio i'r Pwyllgor | Ambr |
| 20 | 8/12/15 | 6 | **Gwaith Archwilio Mewnol heb ei Gynllunio** – Roedd y Pwyllgor wedi gofyn am eglurhad ar faint o waith archwilio heb ei gynllunio oedd yno, a'i effaith ar y Cynllun Archwilio, yn enwedig gwaith yn gysylltiedig â grantiau. | Cytunwyd i ddarparu adroddiad i'r Pwyllgor yn amlinellu'r broses ar gyfer archwilio grantiau sut y caiff disgwyliadau Swyddfa Archwilio Cymru eu bodloni. | Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 | 15/3/16 | Adroddiad i'r Pwyllgor | Gwyrdd |
| 21 | 8/12/15 | 6 | **Llywodraethu Gwybodaeth** – ar | Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar | Pennaeth | 15/3/16 | Diweddariad ar | Ambr |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | ôl derbyn Nodyn Gorfodaeth ar 1 Hydref 2015, nododd y Pwyllgor fod y lefel sicrwydd yn cael ei farnu fel 'Rhesymol' tra bod y negeseuon allweddol o'r Adolygiad Blynyddol o Gydymffurfiaeth yn dal yn negyddol ar y cyfan. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod sgôp yr adolygiadau a wnaed gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn 2012 a 2013/14 yn ymwneud â Llywodraethu Diogelu Data a Rheoli Cofnodion, ac felly'n wahanol i'r hyn a wnaed gan Archwilio Mewnol oedd yn edrych ar gydymffurfiaeth â pholisïau cyfredol. | y gwaith ar lywodraethiant gwybodaeth, gan gynnwys rhoi sylw i'r argymhellion sy'n deillio o'r nodyn gorfodaeth a'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiadau Archwilio Mewnol, dan oruchwyliaeth y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth. | Busnes y Cyngor | | y sefyllfa o ran cydymffurfio â Llywodraethiant Gwybodaeth | |
| 22 | 8/12/15 | 7 | **Adolygu'r Protocol Archwilio Mewnol – Cyfraddau Gweithredu Argymhellion AM** – yn dilyn pryderon a godwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ynghylch y cyfraddau gweithredu a gafodd eu hadrodd a'u trafod, mae'r Protocol Archwilio Mewnol wedi cael ei ddiwygio nawr i gynnwys proses Dilyn i Fyny a Monitro i roi sicrwydd bod yr argymhellion y cytunwyd arnynt yn cael eu | Adroddodd y Rheolwr Archwilio na fyddai modd gwella'r fframwaith rheolaethau mewnol na lleihau'r risgiau cysylltiedig hyd nes y caiff yr argymhellion eu gweithredu'n llawn.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn y Protocol Archwilio Mewnol fel cafodd ei gyflwyno. Dim gweithredu pellach. | Rheolwr Archwilio | Yn Chwarter ol | Monitro Cyfraddau Gweithredu | Gwyrdd |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | gweithredu o fewn yr amserlenni a nodir yn yr Adroddiad Gweithredu Terfynol. | | | | | |
| 23 | 18/2/16 | 2 | **Cyfarfod Arbennig – Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2016/17** – Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar y Strategaeth Fuddsoddi Fewnol, y Datganiad Polisi ar y Ddarpariaeth Refeniw Lleiafswm a Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys 2016/17. | Cefnogi'r adroddiad a phasio unrhyw argymhellion a/neu sylwadau ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith. | Y Pwyllgor Gwaith | 14/3/16 | I'w gymeradwyo | Gwyrdd |
| 24 | 15/3/16 | 3 | **Sicrwydd a Monitro Risgiau: Partneriaethau** – Ystyried argymhellion ynglŷn â rôl monitro'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant dros drefniadau llywodraethiant partneriaethau allweddol y Cyngor. | | | | | Ambr |
| 25 | 15/3/16 | 4 | **Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth** – Derbyn diweddariad ar faterion Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth. | | | | | Ambr |
| 26 | 15/3/16 | 5 | **Adfer systemau TGCh mewn Trychineb a Pharhad Busnes** – Cyflwyno adroddiadau Dilyn i Fyny ar Adfer systemau TGCh mewn Trychineb a Pharhad Busnes. | | | | | Ambr |
| 27 | 15/3/16 | | **Cynllun Archwilio Mewnol** | | | | | Gwyrdd |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Strategol 2016/17 i 2018/19 a Chynllun Gweithredol 2016/17** - | | | | | |

| Dyddiad | **Cyfrifon** | **Archwilio Mewnol** | **Archwilio Allanol** | **Rheoli Trysorlys** | **Rheoli Risg** | **Llywodraethiant** | **Arall** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mawrth 2016 | | Ystyried a mabwysiadu'r Cynllun Archwilio mewnol ar gyfer 2016/17 | Adroddiad Cynnydd | | | | |
| Mai 2016 | Datganiad Cyfrifon Drafft a Datganiad Llywodraethu Blynyddol | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar gyfer 2015/16 | Ystyried a mabwysiadu Cynllun ar gyfer 2016/17<br><br>Adroddiad Cynnydd | Adroddiad Rheoli Trysorlys – Chwarter 4 | Adolygiad Blynyddol o'r Strategaeth Rheoli Risg | | Cynllun Hyfforddiant Blynyddol i Aelodau<br><br>Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer cyfarfod Blynyddol y Cyngor |
| Gorffennaf 2016 | Adolygu'r Datganiad Cyfrifon | Adroddiad Cynnydd Chwarter 1 | Adroddiad Cynnydd | Adroddiad Blynyddol ar Reoli Trysorlys<br><br>Adroddiad Rheoli Trysorlys Chwarter 1 | Cofrestr Risg Gorfforaethol | Ystyried y Datganiad Llywodraethu<br><br>Adolygu'r Côd Llywodraethu Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol | |
| Medi 2016 | Argymell i'w gymeradwyo gan y Cyngor, y Datganiad | Adroddiad Cynnydd | | Derbyn Adroddiad ar y Cyfrifon gan y | Cofrestr Risg Gorfforaethol | Diweddariad ar Lywodraethiant a Sicrwydd | Adroddiad Blynyddol ar Dwyll a Llygredd |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfrifon (erbyn 30 Medi) | | | sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu<br><br>Adroddiad Cynnydd | | Mabwysiadu'r Datganiad ar Lywodraethiant | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhagfyr 2016 | | Adroddiad Cynnydd Chwarter 2 | Derbyn y Llythyr Blynyddol ar Flwyddyn Archwilio 2015/16 | Adroddiad Rheoli Trysorlys Chwarter 2<br><br>Sgriwtineiddio'r Adroddiad Canol Blwyddyn a pharatoi ar gyfer 2016/17 | Cofrestr Risg Gorfforaethol | | |
| Chwefror 2017 | | Adroddiad Cynnydd Chwarter 3 | Adroddiad Cynnydd | Ystyried ac argymell i'w gymeradwyo, y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2017/18 | | Pwyllgor Archwilio – Cylch Gorchwyl | Adolygiad Blynyddol o Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio a Threfniadau Atal Twyll<br><br>Adroddiad Blynyddol – Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Gwynedd |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **Cyngor Sir** |
| **DYDDIAD:** | **12 Mai 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Sgriwtini- 2015/2016** |
| **ADRODDIAD GAN :** | **Cynhorydd Meirion Jones (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol) a Cynghorydd Derlwyn Hughes (Cadeirydd Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar Waith y ddau Pwyllgor Sgriwtini yn 2015/2016** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:**<br>**E-bost:**<br>**Rhif Ffon:** | **Bev Symonds (Rheolwr Sgriwtini)**<br>**BevSymonds@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752078** |

**1.0 ARGYMHELLION**

1.1 Nodi a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Sgriwtini 2015-2016.

1.2 Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio fel "eiriolydd sgriwtini" am y cyfnod Mai 2016 i Mai 2017.

**2.0 CEFNDIR**

2.1 Mae Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Sgriwtini 2015-2016 yn cynnwys y gwaith a wnaed gan y ddau bwyllgor sgriwtini rhwng cyfarfod blynyddol y cyngor ar 14 Mai 2015 a 12 Mai 2016. Drwy gydol y cyfnod hwn, mae'r pwyllgorau sgriwtini wedi bod yn ddigon ffodus i gael cyfraniadau gan aelodau a swyddogion.

2.2 Arweiniwyd y gwaith yn ystod y cyfnod hwn gan gadeiryddion y ddau bwyllgor sgriwtini. Mae rhaglenni gwaith y pwyllgorau sgriwtini hefyd yn cael eu cyflwyno I'r pwyllgor sgriwtini penodol a derbyn ystyriaeth bob mis gan Fforwm Cyd-lynu Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Pwyllgorau Sgriwtini. Mae manylion am y materion a drafodwyd wedi eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Sgriwtini ar gyfer 2015/2016 sydd ynghlwm.

2.3 Ar 14 Mai 2015 penderfynodd y Cyngor i benodi gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fel "eiriolydd sgriwtini" am y cyfnod Mai 2015 i Mai 2016 a Chadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio am y cyfnod Mai 2016 i Mai 2017. Wedyn, bydd rôl yr "eiriolydd sgriwtini" yn newid bob yn ail blwyddyn rhwng dau gadeirydd y pwyllgorau sgriwtini.

2.4 Nid oes tâl ar gyfer y rôl "eiriolydd sgriwtini. Rôl yr eiriolydd sgriwtini yw:
- Hyrwyddo'r swyddogaeth sgriwtini y tu mewn a'r tu allan i'r cyngor
- Cefnogi datblygiad parhaus sgriwtini yn y cyngor.

| **Atodiad:** |
|---|
| Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Sgriwtini- 2015/2016 |

# CYNGOR SIR YNYS MôN

# PWYLLGORAU SGRIWTINI

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2015-2016

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Sgriwtini Cyngor Sir Ynys Môn 2015-2016** | |
| | Rhagair |
| 1. | Beth yw trosolwg a sgriwtini |
| 2. | Perfformiad sgriwtini |
| 3. | Ffocws y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| 4. | Aelodaeth y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| 5. | Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| 6. | Ffocws y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| 7. | Aelodaeth y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| 8. | Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ) |
| 9. | Paneli Canlyniad Sgriwtini |
| 10. | Edrych Ymlaen at 2016-2017 |
| 11. | Cysylltu â Sgriwtini |
| **Atodiad 1**<br>Darn o'r "Adroddiad Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus" dyddiedig Ionawr 2014. (fe'i adwaenir hefyd "Adroddiad Williams"). Argymhellion 31-33. | |

# Rhagair

## Cyngorydd R Meirion Jones



- **Cadeirydd Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2015-16**
- **Eiriolydd Sgriwtini 2015-2016**

Mae Sgriwtini wedi parhau i berfformio'n dda yn 2015/16 mewn amgylchiadau herio iawn ac mae wedi parhau i ddatblygu. Roedd hi'n flwyddyn arall o adeiladau ar brofiadau'r ddwy flynedd flaenorol a pharhau i hyrwyddo sgriwtini, a gwneud gwahaniaeth ac ychwanegu gwerth.

Roedd Sgriwtini'n medru parhau gyda'i brif waith o ganolbwyntio ar berfformiad y cyngor, darpariaeth gwasanaethau, cyflawni amcanion corfforaethol a rhai gwasanaethau a chyflawni gwelliant parhaus. Fe wnaeth adolygu a sgriwtineiddio penderfyniadau a wnaed neu gamau gweithredu eraill a roddwyd ar waith wrth gyflawni swyddogaethau'r Cyngor gan y Pwyllgor Gwaith neu fel arall. Bu llawer o alw ar sgriwtini ac mae wedi perfformio'n dda o dan bwysau gydag adnoddau cyfyngedig.

Gellir gweld dros amser bod newid diwylliant wedi digwydd. Mae'r swyddogion a'r aelodau Sgriwtini wedi gweithio'n galed ac wedi cyfrannu'n uniongyrchol at fod yng nghanol y broses sgriwtini o herio polisi ac ymarfer a meddwl am syniadau newydd a gyrru gwelliant. Mae'r rheini sydd ynghlwm â Sgriwtini wedi ymddwyn yn gyfrifol ac yn adeiladol fel ffrindiau beirniadol i gefnogi'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau, a blaenoriaethau ac amcanion y Cyngor, ond hefyd wrth sgriwtineiddio a chwestiynu pan fo raid.

Un datblygiad penodol oedd gwneud mwy o ddefnydd o Banelau Canlyniad Sgriwtini. Fe wnaed llawer iawn o waith effeithiol yn y modd hwn ac mae'r adroddiad yn crynhoi manylion am y Panelau, y cyfarfodydd a gynhaliwyd a'r gwaith a wnaed. Rwy'n arbennig o ddiolchgar am y gwaith a wnaed gan y panelau hyn.

Mae sesiwn friffio anffurfiol hefyd wedi dod yn rhan reolaidd o baratoi at y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol llawn. Teimla'r aelodau fod eu gwaith yn fwy effeithiol ar ôl sesiynau briffio o'r fath.

Mae cyfarfodydd o Fforwm y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion wedi bod yn digwydd yn rheolaidd ac maent yn cyfrannu'n llwyddiannus at effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd sgriwtini a'i ddau bwyllgor.

Yn yr adroddiad y llynedd fe gyfeiriais at Adroddiad Williams, ac fe wnaf hynny eto (Atodiad) gan fod y geiriau a'r argymhellion ynglŷn â sgriwtini yn bwysig ar hyn o bryd, a byddant yr un mor bwysig pan fydd y cwestiwn ynghylch ad-drefnu llywodraeth leol yn cael ei ystyried unwaith eto.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r holl swyddogion ac aelodau hynny sydd wedi cyfrannu at waith sgriwtini yn ystod y flwyddyn. Er efallai nad yw'r geiriau hyn o ddiolch yn llawer,

maent yn ddiffuant a gwerthfawrogir pob cyfraniad.

**Yn gywir,**
**R Meirion Jones (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a’r Hyrwyddwr Sgriwtini)**

## Cynghorydd  Derlwyn Hughes

- **Cadeirydd Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2015-16**



Roedd 2015/2016 yn flwyddyn lwyddiannus o gyfnerthu unwaith eto ar gyfer sgriwtini yn Ynys Môn. Llwyddwyd i adeiladu ar y profiad a'r arferion da a fireiniwyd dros y 3 blynedd diwethaf i siapio sut yr aethom ati i adolygu a herio polisïau a phenderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith.

Mae'n parhau i fod yn hanfodol bwysig fod Sgriwtini yn dal i gyfrannu'n gadarnhaol i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r ynys drwy ei rôl fel ffrind beirniadol, trwy ei gyfraniad at wneud penderfyniadau a thrwy ei swyddogaeth unigryw o ddod â'r cyhoedd, partneriaid ac aelodau etholedig at ei gilydd i ymchwilio i faterion yn fanylach a darparu atebion.

Wrth i ni barhau i lywio ein ffordd drwy'r cyfnod hwn o galedi ariannol mae  wedi dod yn gynyddol bwysig ein bod yn canolbwyntio ein hadnoddau Sgriwtini ar y meysydd sydd bwysicaf i'r cyhoedd ac ar faterion lle teimlwn y gallwn ni helpu'r Cyngor i weithio'n graffach ac yn fwy effeithlon.

'Rwyf wedi pwysleisio bob amser ei bod yn bwysig i'r Pwyllgorau Sgriwtini gadw meddwl agored a beirniadol, a hynny er mwyn cynnig beirniadaeth mewn ffordd adeiladol a rhoi clod diffuant lle bo'n briodol.

Mae'r adroddiad canlynol yn cynnwys amlinelliad o elfennau allweddol y rhaglen o waith sgriwtini ar gyfer 2015/2016, gan dynnu sylw at ehangder y cylch gorchwyl ac amrywiaeth a maint y gwaith.  Rwy'n gobeithio y byddwch yn teimlo ei fod yn ddiddorol ac yn llawn gwybodaeth ac y byddwch yn cyflwyno sylwadau, cwestiynau neu gynigion ar gyfer adolygiadau yn y dyfodol.

Hoffwn ddiolch i'r nifer fawr o aelodau, swyddogion a chynrychiolwyr allanol y mae eu cyfraniadau ystyriol, eu hamynedd a'u brwdfrydedd wedi bod yn amhrisiadwy trwy gydol y flwyddyn. Heb eu cymorth nhw ni fyddai gan sgriwtini lais a byddai ein prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau yn llai atebol, yn llai cynhwysol a chymaint â hynny'n wannach."

Wrth edrych ymlaen at 2016/2017, rydym yn gobeithio parhau â'r gwaith da a wnaed gan sgriwtini dros y flwyddyn ddiwethaf o ran ymgysylltu â chymunedau a grwpiau preswylwyr wrth i ni geisio ehangu gorwelion sgriwtini  ymhellach ac annog cyfranogiad yn y broses sgriwtini.

**Yr gywir,**
**Derlwyn Rees Hughes (Cadeirydd Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)**

## 1. BETH YW TROSOLWG A SGRIWTINI

1.1 Mae Pwyllgorau Sgriwtini yn rhan o'r ffordd y mae llywodraeth leol yng Nghymru yn gweithredu. Ynghyd â sefydlu Pwyllgor Gwaith a chanddo bwerau i wneud penderfyniadau, bu'n rhaid, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, sefydlu un neu ragor o Bwyllgorau Sgriwtini i ddal y sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn atebol, i yrru gwelliant ac i chwarae rôl o ran cynorthwyo i ddatblygu ac adolygu polisi.

1.2 Yng Nghyngor Sir Ynys Môn, bu dau Pwyllgor Sgriwtini yn ymwneud â'r swyddogaeth sgriwtini yn 2015-2016.

- Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

1.3 I scirhau bod swyddogaeth sgriwtini yn Cyngor Sir Ynys Mon yn gweithio'n effeithiol mae'r Ganolfan Sgriwtini Cyhoeddus [1] wedi rhoi ymlaen pedair egwyddor allweddol. Yn marn y Ganolfan ei barn, dylai sgriwtini :

1. Darparu sialens "cyfaill beirniadol" i wneuthurwyr polisi a rhai sy'n gwneud penderfyniadau.
2. Sicrhau i llais a phryderon y cyhoedd a'i gymunedau yn cael clywed.
3. Yn gael ei wneud gan "lywodraethwyr annibynnol eu meddwl" sy'n arwain ac s'yn berchen ar y broses sgriwtini.
4. Gyrru gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.

1.4 Gall y Pwyllgor Sgriwtini wneud ei waith mewn un o'r ffyrdd canlynol:

- Ystyried pwnc yn ystod cyfarfod ffurfiol.
- Ystyried pwnc dros gyfnod hwy o amser trwy sefydlu Panel Adolygiad Sgriwtini.
- Cynnal sesiynau anffurfiol ar faes penodol.
- Ymweld â safleoedd.

[1] " Good Scrutiny Guide", Llundain, Canolfan am Sgriwtini Cyhoeddus,2004.

## 2. PERFFORMIAD SGRIWTINI

2.1 Prif nod Adroddiad Blynyddol Sgriwtini yw rhoi gwybod am yr hyn y mae'r Pwyllgorau Sgriwtini wedi bod yn ei wneud yn y flwyddyn sirol. Mae cyfnod y flwyddyn sirol yn rhedeg lle rhwng cyfarfodydd blynyddol y cyngor mis Mai. Mae'r adroddiad yma yn cynnwys crynodeb o'r hyn y mae'r ddau pwyllgor wedi ei ystyried rhwng Mai 2015 a Mai 2016.

2.2 Mae'n rhaid i bob Cyngor yng Nghymru ddarparu gwasanaethau yn erbyn cefndir o ostyngiad mewn gwariant cyhoeddus. Yn ogystal, mae'r amgylchedd ariannol cyffredinol ar yr Ynys yn anodd ac mae gan sgriwtini rôl bwysig i'w chwarae i wella effeithlonrwydd gwasanaethau ac o ran sut mae'r Cyngor yn gweithredu.

2.3 Er mwyn mesur ei gyfraniad mae gan Sgriwtini gyfres eang o ddangosyddion perfformio chwarterol y gellir eu defnyddio i gymharu cynnydd o un chwarter i'r llall. Mae rhestr o'r holl ddangosyddion ar gael o'r Uned Sgriwtini ond mae'r tabl isod yn amlygu dau ddangosydd allweddol ar gyfer 2015/16:

| **Teitl y Dangosydd (2014-2015)** | **Targed** **(Ch) – Chwarterol** (B) – Blynyddol | **Ch. 1** | **Ch. 2** | **Ch. 3** | **Ch. 4** | **Diwedd Blwyddyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % presenoldeb Aelodau Pwyllgor ac Aelodau Portffolio yn y Pwyllgorau Sgriwtini | 80%<br>(Ch) | **80%** | **83%** ⇧ | **84%** ⇧ | **76%** ⇩ | **81%** |
| Y % o argymhellion y Pwyllgor Sgriwtini a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith. | 90%<br>(Ch) | **100%** | **100%** ⇔ | **67%** ⇩ | **90%** ⇧ | **89%** |

2.4 Er mwyn cynorthwyo gyda pherfformiad sgriwtini penderfynodd y cyngor, ar 29 Medi 2015, i ddiweddaru cylch gorchwyl y pwyllgorau sgriwtini er mwyn galluogi'r ddau i drosglwyddo ein baich gwaith rhwng y naill a'r llall pan mae pwysau gwaith yn gofyn am hyblygrwydd. Yn ychwanegol, eglurwyd mai rôl y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yw monitro'r gyllideb a sgriwtineiddio'r Gyllideb Flynyddol ddrafft. Bydd ffocws y pwyllgorau sgriwtini yn parhau fel o'r blaen ond mae'r hyblygrwydd ychwanegol a'r eglurder a roddir i'r pwyllgorau sgriwtini gan y cyngor yn cael ei groesawu.

## 3. Ffocws y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

Bydd gwaith y Pwyllgor yn canolbwyntio ar roi sicrwydd ynglŷn â pherfformiad /darpariaeth yr holl wasanaethau, sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol a'i amcanion gwasanaeth (fel yr amlinellwyd yn ei Gynllun Busnes Corfforaethol , Cyllideb Flynyddol, Fframwaith Cyllideb a Pholisi, Fframwaith Rheoli Perfformiad, Polisïau Corfforaethol neu gynlluniau a pholisïau sy'n eu holynu) ac i gefnogi a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaol.

## 4. Aelodaeth y Pwyllgor 2015-16

| | Enw | Ward | Parti Gwleidyddol /Grwp |
|---|---|---|---|
|  | Cyng. R Meirion Jones (Cadeirydd) | Aethwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng Raymond Jones | Caergybi | Annibynnol |
|  | Cyng Victor Hughes | Bro Rhosyr | Annibynnol |
|  | Cyng Ann Griffith | Bro Aberffraw | Plaid Cymru |
|  | Cyng R Llewelyn Jones | Caergybi | Heb ymuno |

| | Enw | Ward | Parti Gwleidyddol /Grwp |
|---|---|---|---|
|  | Cyng Gwilym Jones (Vice Chair) | Llifon | Annibynnol |
|  | Cyng Jim Evans | Aethwy | Annibynnol |
|  | Cyng Lewis Davies | Seiriol | Plaid Cymru |
|  | Cyng Llinos Medi Huws | Talybolion | Plaid Cymru |
|  | Cyng Peter Rogers | Bro Aberffraw | Grwp Chwyldroad |

## 5. Rhaglen Waith y Pwyllgor (2015/2016)

Cynhaliwyd 14 cyfarfod o’r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

| Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2015/16 | |
|---|---|
| **Dyddiad Pwyllgor** | **Eitem a ystyrwyd** |
| **14 Mai 2015** | Ethol Cadeirydd ar gyfer Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| | Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| | |
| **10 Mehefin 2015** | Diweddariad y Cadeirydd ac Aelodau |
| | Monitro Perfformiad –Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chw 4 2014/2015 |
| | Monitro’r Cyllideb – Canlyniad y Gyllideb Corfforaethol 2014/2015 |
| | Monitro’r Gyllideb – Canlyniad Dros Dro y Gyllideb Refeniw 2014/2015 |
| | Mynychu Cynhadledd ar 27 Mawrth 2015 |
| | Rhaglen Waith |
| | |
| **6 Gorffennaf 2015** | Diweddariad y Cadeirydd ac Aelodau |
| | Enwebiad I’r Panel Rhiantu Corfforaethol |
| | Trefniadau’r Awdurdod Lleil I gefnogi Diogelu Plant |
| | Monitro Perfformiad – cerdyn Sgorffwrdd Corfforaethol Chw4 |
| | Adroddiad Perfformiad Blynyddol Drafft 2014/2015 |
| | Matrics Sgorio Strategaeth Gyfalaf 2015 |
| | Rhaglen Waith |
| | |
| **17 Medi 2015** | Diweddariad y Cadeirydd ac Aelodau |
| | Adroddiad Perfformiad Blynyddol ( Cynllun Gwella) 2014/2015 |
| | Monitro Perfformiad – Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chw 1 2015/2016 |
| | Monitro’r Gyllideb- Y Gyllideb Gyfalaf Chwarter 1 2015/2016 |
| | Monitro’r Gyllideb- Y Gyllideb Refeniw Chwarter1 2015/2016 |

| | |
|---|---|
| | Cynllun Ymgynhori: Cyllideb 2016/2017 |
| | Moderneiddo Ysgolion – Ymgynhoriad ffurfiol Ardaloedd Bro Rhosyr a Bro Aberffraw |
| | Paneli Canlyniad Sgriwtini- Datganiad o'r Sefyllfa |
| | Rhaglen Waith |
| | |
| **16 Tachwedd 2015** | Enwebiad I Fwrdd Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant |
| | Cyllideb Refeniw Drafft 2016/2017 |
| | Bidiau Cyfalaf 2016 /2017 |
| | |
| **1 Rhagfyr 2015** | Diweddariad y Cadeirydd ac Aelodau |
| | Monitro Perfformiad-Y Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chw 2 2015/2016 |
| | Monitro Perfformiad – Rheoli Pobl |
| | Monitro'r Gyllideb-Y Gyllideb Refeniw Chw2 2015/2016 |
| | Monitro'r Gyllideb- Y Gyllideb Cyfalaf Chw2 2015/2016 |
| | Adroddiad Performiad Blynyddol Llyfrgelloedd 2014/2015 |
| | Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol AGGCC o'r Gwasanethau Cymdeithasol 014/2015 |
| | Adolygiad Achos Penodol yn y Gwasanaethau Plant |
| | Panel Canlyniad Sgriwtini – Gwaredu Asedau |
| | Rhaglen Waith |
| | |
| **1 Chwefror 2016** | Diweddariad y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd |
| | Gosod Cyllideb 2016/2017- Refeniw a Chyfalaf |
| | Panel Canlyniad Sgriwtini:Arbedion Effeithlonrwydd 2015/2016 |
| | Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cymunedol |
| | Sicrhau Gwasanethau Cynaliadwy ac Effeithlon ar Gyfer y Dyfodol: Trawsnewid Llyfrgelloedd |
| | Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad Ysgolion Mon |
| | Rhaglen Gwaith |
| | Datganiad Sefyllfa: Paneli Canlyniad Sgriwytini |
| | |
| **14 Mawrth 2016** | Monitro'r Gyllideb: Y Gyllideb Refeniw Ch3 2015/2016 |
| | Monitro'r Gyllideb: Y Gyllideb Gyfalaf Ch3 2015/2016 |

| | |
|---|---|
| | Monitro Perfformiad: Cerdyn Sgorio Corfforaethol Ch3 2015/2016 |
| | Monitro Perfformiad: Y Cofrestr Risg Corfforaethol |
| | Rhaglen Waith |
| | |
| **11 Ebrill 2016** | Trawsnewid y Gwasanaeth Anableddau Dysgu |
| | Dogfen Gyflawni Flynyddol |
| | Panel Canlyniad Sgriwtini-Rheoli Dyledion |
| | Paneli Canlyniad Sgriwtini -Diweddariad |
| | |

## 6. Ffocws y Pwyllgor Sgriwtini Parrtneriaeth ac Adfywio

Bydd gwaith y Pwyllgor yn canolbwyntio ar sicrhau bod buddiannau dinasyddion Ynys Môn yn cael eu hyrwyddo a bod blaenoriaethau ac adnoddau'r Cyngor yn cael eu hadlewyrchu yn llesol yn y partneriaethau, y cydweithio, y gweithio ar y cyd â threfniadau asiantaeth allanol, fel fydd yn bodoli o bryd i'w gilydd. Bydd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn ymestyn i drefniadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a bydd yn cynnwys (ond heb fod wedi ei gyfyngu i'r meysydd lle mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol mewn materion trosedd ac anhrefn. Yn ychwanegol at hyn, mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ymestyn i faterion yn ymwneud ag adfywio a'r cysyniad "Ynys Fenter" (neu gynlluniau a pholisïau fydd yn eu holynu).

## 7. Aelodaeth y Pwyllgor 2015-2016

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys 10 Aelod .

| | Enw | Ward | Parti Gwleidyddol/Grwp |
|---|---|---|---|
|  | Cyng. Derlwyn R Hughes (Cadeirydd ) | Lligwy | Annibynol |
|  | Cyng.William T Hughes | Twrcelyn | Annibynol |
|  | Cyng. Dafydd Rhys Thomas | Ynys Cybi | Annibynol |
|  | Cyng. Carwyn Jones | Seiriol | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Robert Llewelyn Jones | Caergybi | Heb Ymuno |

| | Enw | Ward | Parti Gwleidyddol /Grwp |
|---|---|---|---|
|  | Cyng.Alun Mummery (Vice Chair) | Aethwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng.Richard Owen Jones | Twrcelyn | Annibynol |
|  | Cyng. John Griffith | Talybolion | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Dylan Rees | Canolbarth Mon | Plaid Cymru |
| 1 Sedd Wag | | | |

**8. Rhaglen Waith y Pwyllgor (2015/16)**

Cynhaliwyd 7 cyfarfod o’r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

| **Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2015/16** | |
|---|---|
| **Dyddiad y Pwyllgor** | **Eitem a Ystyrwyd** |
| **14 Mai 2015** | Ethol Cadeirydd ar gyfer yPwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| | Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| | |
| **15 Medi 2015** | Enwebu Aelod I’r Panel Rhiant Corfforaethol |
| | Adolygiad Blynyddol o Bartneriaeth dai Ynys Mon |
| | Diweddariad Blynyddol- trefniadau Diogelu ar gyfer Oedolion Bregus ym Mon |
| | Adroddiad Blynyddol –“ Gwrando ar Gwynion a Dysgu Oddi Wrthynt” |
| | Paneli Canlyniad Sgriwtini- Diweddariad |
| | Diweddariad ar drefniadau Arfaethedig y Bwrdd Gwasanethau Lleol ar y Cyd |
| | Cyhoeddiadau gan y cadeirydd neu’r Is-Gadeiryddion |
| | Rhaglen Waith |
| | |
| **12 Tachwedd 2015** | Gwerthuso Opsiynau ar gyfer Casglu Gwastraff |
| | Gwasanaeth Monitro galwadau Rhanbarthol Gogledd Cymru (Galw Gofal/ Care Connect) |
| | Enwebiad i Fwrdd Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant |
| | |
| **17 Tachwedd 2015** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Rhaglen Waith |

| | |
|---|---|
| | |
| **2 Chwefror 2016** | Sicrhau Gwasanaethau Cynaladwy ac Effeithlon i'r Dyfodol :<br>Trawsnewid y Gwasanaeth Ieuenctid |
| | Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd 2016 |
| | Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion - Diweddariad |
| | Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol – Trefniadau at y Dyfodol |
| | Diweddariad gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd |
| | Rhaglen Waith |
| | |
| **12 Ebrill 2016** | Dogfen Polisi Partneriaeth a Rôl Sgriwtini o ran Monitro'r Partneriaethau |
| | Cymunedau'n Gyntaf |
| | Diweddariad gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd |
| | Rhaglen Waith |
| | |

## 9. PANELI CANLYNIAD SGRIWTINI

9.1 Yn ystod y flwyddyn ddinesig, cwblhaodd 4 o Baneli Canlyniad Sgriwtini eu gwaith ar y materion a adolygwyd a chyflwynwyd adroddiadau arnynt. Ni chafodd yr un o'r argymhellion yn yr adroddiadau terfynol eu gwrthod.

Mae 2 o Baneli Canlyniad Sgriwtini eraill ar y gweill, mae eu gwaith yn parhau yn flynyddol.

| Panel Canlyniad Sgriwtini: Gwaredu Asedau<br>(Statws: wedi cwblhau ei waith) |
|---|
| **Aelodaeth y Panel:**<br><br>Y Cynghorwyr: R Meirion Jones (Cadeirydd), Llinos Medi Huws, Jim Evans a Raymond Jones. |
| **Crynodeb:**<br><br>Ar 1 Medi, 2014 cyflwynwyd adroddiad ar fonitro'r gyllideb, gan y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Oherwydd pryderon a godwyd am y broses o werthu asedau a chyflymder y gwaith hwnnw, penderfynodd y Pwyllgor sefydlu panel i edrych ar y dull o gael gwared ar y portffolio mân-ddaliadau ac asedau eraill.<br><br>Casglwyd gwybodaeth o amrywiaeth o ddogfennau polisi a'u dilysu gan swyddogion sy'n gweithio yn y maes gwaredu asedau.<br><br>Cyfarfu'r Panel ar 9 achlysur. Cafodd adroddiad terfynol y panel ei anfon ymlaen at y Pwyllgor Gwaith ar 14 Rhagfyr, 2015 a chafodd ei gymeradwyo'n llawn. Mae'r adroddiad yn cynnwys 6 o brif gasgliadau'r a 24 o argymhellion canlyniadol. |
| **Panel Canlyniad Sgriwtini: Arbedion Effeithlonrwydd 2015-2016**<br>**(Statws: wedi cwblhau ei waith)** |
| **Aelodaeth y Panel:**<br><br>Y Cynghorwyr: R Meirion Jones (Cadeirydd), Llinos Medi Huws a'r Cynghorydd Victor Hughes. |
| **Crynodeb:**<br><br>Ar 20 Ebrill, 2015, wrth ystyried adroddiad cychwynnol y "Panel Canlyniad Sgriwtini: Arbedion Effeithlonrwydd 2014-2015", cytunodd y Pwyllgor Gwaith y dylai'r panel barhau i fonitro gweithrediad y targedau arbedion a nodwyd gan wasanaethau ar gyfer 2015-16.<br><br>Parhaodd y Panel â'i waith yn 2015-2016, gan ganolbwyntio ar gynnydd y cyngor o ran cyflawni targedau effeithlonrwydd 2015-2016. Wrth ymgymryd â'i dasg, rhoes y panel sylw manwl i daenlen arbedion ariannol pob adran a holwyd swyddogion perthnasol er mwyn gweld sut mae'r sefyllfa'n datblygu.<br><br>Cyfarfu'r Panel ar 8 achlysur. Cafodd adroddiad terfynol y panel ei anfon ymlaen at y Pwyllgor Gwaith ar 14 Rhagfyr, 2015 a chafodd ei gymeradwyo'n llawn. Mae'r adroddiad yn cynnwys 5 o brif gasgliadau'r a 7 o argymhellion canlyniadol. |

## Panel Canlyniad Sgriwtini: Rheoli Dyledion
## (Statws: wedi cwblhau ei waith)

Aelodaeth y Panel:

Y Cynghorwyr: R Meirion Jones (Cadeirydd), Jim Evans a Robert Llewelyn Jones

Crynodeb:

Ar 24 Mawrth, 2015 cyflwynodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro adroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a oedd yn cynnwys dyledion o dros £5,000 i'w dileu. Roedd y Pwyllgor yn bryderus ynghylch y swm oedd i'w dileu a phenderfynodd sefydlu panel i edrych ar y broses a'r gweithdrefnau mewn perthynas â dileu dyledion ynghyd â threfniadau ehangach i reoli dyledion yn y cyngor.

Wrth ymgymryd â'i dasg, rhoes y Panel sylw i bolisi presennol y Cyngor mewn perthynas â dileu dyledion a sut yr oedd yn cael ei weithredu gan wahanol wasanaethau. Gwnaed ymholiadau hefyd gyda chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru o ran sut y maent yn delio â'r mater hwn.

Cyfarfu'r Panel ar 6 achlysur. Cafodd adroddiad terfynol y panel ei anfon ymlaen at y Pwyllgor Gwaith ar 25 Ebrill, 2015 a chafodd ei gymeradwyo.

## Panel Canlyniad Sgriwtini: Adolygiad o Achos Penodol yn y Gwasanaethau Plant
## (Statws: wedi cwblhau ei waith)

Aelodaeth y Panel:

Y Cynghorwyr: Gwilym Jones (Cadeirydd), y Cynghorydd Llinos Medi Huws a'r Cynghorydd Lewis Davies.

Crynodeb:

Yn gynnar yn 2015, cytunodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i sefydlu panel i sgriwtineiddio ymateb y gwasanaethau cymdeithasol i faterion a oedd yn codi yn sgil ymwneud y gwasanaethau ag achos plentyn penodol. Y nod oedd ceisio sicrwydd bod yr adolygiad achos dilynol wedi cael ei gynnal yn drylwyr, yn ddiduedd a bod y gwasanaeth wedi ymateb yn briodol.

Wrth ymgymryd â'r dasg, cymerodd y panel i ystyriaeth y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun gweithredu ac adroddiad cynnydd a baratowyd ar y mater er sylw'r: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Panel Rhianta Corfforaethol, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Barnwr 'Cylchdaith'. Rhoddwyd i'r Panel hefyd enghreifftiau o arfer dda ochr yn ochr â rhai meysydd lle gallai arferion wella.

O'r wybodaeth a ddarparwyd, daeth y panel i'r casgliad bod y gwasanaethau cymdeithasol wedi nodi gwersi sydd angen eu dysgu a'u bod wedi cymryd camau. .Ar 1 Rhagfyr 2015, cafodd adroddiad ar ran y panel i'r perwyl hwnnw, ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a nodwyd nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach bryd hynny.

## Panel Canlyniad Sgriwtini: Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion (Statws: gwaith yn parhau)

Aelodaeth y Panel:

Y Cynghorwyr: Derlwyn Hughes, Alun Mummery, Dylan Rees, Richard Owen Jones, R Meirion Jones, Gwilym Jones, Lewis Davies a Jim Evans.

(DS caiff aelod o'r Panel ei ethol i gadeirio ym mhob cyfarfod).

Crynodeb:

Sefydlwyd y Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion ar 21 Tachwedd, 2012 gan y cyn Bwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden. Cododd yn sgil argymhellion a wnaed gan Estyn ar ansawdd y gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yn Ynys Môn. Nod y grŵp yw cynorthwyo'r gwasanaeth addysg i wella perfformiad ysgolion ar yr Ynys, drwy gynyddu a datblygu atebolrwydd lleol ar gyfer perfformiad ysgolion a gwella gwybodaeth aelodau lleol am yrwyr perfformiad allweddol a'r heriau sy'n wynebu ysgolion yn Ynys Môn.

Gyda sefydlu strwythur newydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini yn ystod mis Mai 2013, cytunwyd y byddai aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio yn parhau gyda gwaith y Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion ond ei ddynodi'n Banel Canlyniad Sgriwtini. Mae'r panel yn monitro cynnydd ysgolion unigol i ddysgu oddi wrth ysgolion sy'n perfformio'n dda ac, os oes angen, yn gwneud argymhellion i'r Adran Dysgu Gydol Oes y gallai ysgol efallai fod angen cefnogaeth ychwanegol gan y gwasanaeth addysg a / neu'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol a elwir yn " Gwe ".

Yn ystod 2015, cyfarfu'r panel ar 9 achlysur a gwelodd 8 o ysgolion. Cyflwynwyd adroddiad ar waith y panel i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio ar 2 Chwefror 2016 a chymeradwywyd rhestr o ysgolion y byddir yn eu gweld yn 2016.

## Panel Canlyniad Sgriwtini: Sgriwtinieiddio ar y Cyd y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (Statws: gwaith yn parhau)

Aelodaeth y Panel: Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio wedi ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor ynghyd â'r Cynghorydd John Griffith. Yn ogystal, penodwyd y Cynghorydd Dylan Rees yn ddirprwy.

Crynodeb: Ar 14 Ionawr, 2015, cytunodd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio i sefydlu Panel i Sgriwtineiddio ar y Cyd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd.

Yn ystod mis Ebrill 2016, cafodd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ei ddisodli gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Statudol (BGC) ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ymwreiddio'n gadarn y sefydliad newydd. Nod y panel yw darparu her "cyfaill beirniadol" i'r BGCac i fynd ati i hyrwyddo gwelliant wrth ddatblygu a gweithredu prosiectau i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a gytunwyd gan y BGC (yn hytrach na rhai sefydliadau unigol a gynrychiolir ar y BGC). Bydd angen cytuno a gweithredu ar raglen waith ar gyfer y BGC am gyfnod cyn y gellir ei sgriwtineiddio'n ymarferol. Yn ogystal, mae angen datblygu trefniadau hyfforddi a llywodraethiant ar gyfer y Panel.

## 10. EDRYCH YMLAEN AT 2016-2017

10.1 Mewn llywodraeth leol a'r gwasanaethau cyhoeddus rydym yn dal i wynebu heriau ariannol a heriau o ran y galw am wasanaethau i raddau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen. Mae'r arbedion y mae'n rhaid i ni eu gwneud yn anferthol ac mae'n rhaid i ni drawsnewid gwasanaethau, gwneud penderfyniadau anodd ynghylch blaenoriaethau, a chyflwyno ffyrdd newydd o weithio er mwyn bod yn fwy effeithlon ac effeithlon gydag adnoddau sy'n prinhau.

10.2 Mae sgriwtini yn chwarae rhan fawr yng nghyswllt profi syniadau a chynigion am drawsnewid, a'u rhoi ar waith. Mae ein swyddogaeth Sgriwtini gyfredol yn cynnig her iach a chefnogaeth i'r Pwyllgor Gwaith o ran y penderfyniadau mae'n eu gwneud. Mae digonedd o enghreifftiau lle mae'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau a'r sgriwtineiddwyr wedi gweithio gyda'i gilydd dros y flwyddyn ddiwethaf.

10.3 Fodd bynnag, wrth edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf (2016-17) bydd angen i ni adnewyddu ac ail-fireinio ein swyddogaeth Sgriwtini o fewn ein capasiti is, wrth gefnogi a dylanwadu ar raglenni sefydliadol a rhaglenni newid gwasanaeth y Cyngor. Daw disgwyliadau arnom yn sgil y rôl estynedig hon. Bydd angen i Sgriwtini weithio'n gyflym a rhannu'r awch i newid gyda'r Pwyllgor Gwaith a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Ni fydd modd gorffwys rhag gwneud y penderfyniadau mawr dros y ddwy flynedd nesaf.

10.4 Wrth adnewyddu ein swyddogaeth Sgriwtini bydd angen i ni barhau i fabwysiadu syniadau o'r ddogfen 'Nodweddion Trosolwg a Chraffu Effeithiol' a roddwyd ynghyd gan swyddogion sgriwtini trwy Gymru gyfan, gan weithio gyda'r Ganolfan Graffu Gyhoeddus a Swyddfa Archwilio Cymru, a'u cymhwyso i'n dysg ein hunain.

10.5 Mae Awdurdodau eraill eisoes wedi ailfodelu eu Pwyllgorau Sgriwtini i wynebu'r heriau a ddaw yn sgil y Ddeddf Llywodraeth Leol Cymru newydd sy'n dod i rym ac etholiadau'r Cynulliad sydd ar y gweill. Mae'r pwyllgorau'n cael eu gwahodd a'u herio i wneud cyfraniad mwy byth, gydag adroddiadau sy'n llai goddefol, ac i gynllunio ymlaen llaw am raglenni mwy perthnasol sy'n adlewyrchu'r heriau a wynebwn.

10.6 Bydd hi'n gyfrifoldeb i'r holl aelodau a swyddogion sicrhau bod unrhyw fodel newydd yn gweithio'n dda ac i Sgriwtini helpu i dywys y Cyngor trwy'r heriau sydd o'i flaen. Mae angen i ni symleiddio presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Gwaith ac uwch swyddogion a chydbwyso'r llwyth gwaith rhwng ein pwyllgorau. Mae'n rhaid i Sgriwtini fedru cydbwyso sgriwtini manwl gyda throsolwg sy'n defnyddio mwy o ddychymyg.

**11. CYSYLLTU SGRIWTINI**

11.1 Mae sylwadau a syniadau sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau eraill sydd â diddordeb mewn pwnc dan sylw yn werthfawr i sicrhau sgriwtini effeithiol.

11.2 Mae arferion gorau o ran Sgriwtini fel arfer yn golygu bod rhaid i Aelodau weithio gyda phobl a sefydliadau lleol er mwyn darparu gwasanaethau sy'n effeithiol ac yn ymatebol.

11.3 Bydd Pwyllgorau Sgriwtini yn cyfarfod yn gyhoeddus (ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae angen trafod materion cyfrinachol) a bydd dyddiadau lleoliad y cyfarfodydd a'r blaenraglenni gwaith ar gael ar wefan y Cyngor yn Sgriwtini

11.4 Yn ogystal, gellir gwahodd partneriaid ac asiantaethau allanol i fynychu Pwyllgorau Sgriwtini fel y gall y Pwyllgor mofyn eu sylwadau a'u barn ar faterion sy'n cael effaith ar y modd y darperir yr amcanion corfforaethol.

11.5 I ddysgu mwy am Sgriwtini yn Ynys Môn neu i roi eich sylwadau, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda'r Tîm Sgriwtini yn:

Tîm Sgriwtini
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni.
Ynys Môn.
LL77 7TW

Sgriwtini@ynysmon.gov.uk

| | | |
|---|---|---|
| Bev Symonds | Rheolydd Sgriwtini yn gyfrifol am:<br>- Prif Swyddog Cefnogi'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | (01248) 752078<br><br>bsxce@ynysmon .gov.uk |
| Geraint Wyn Roberts | Swyddog Sgriwtini yn gyfrifol am:<br>- Prif Swyddog Cefnogi'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | (01248) 752039<br><br>gwrce@ynysmon.gov.uk |

**Atodiad 1- Darn o'r "Adroddiad Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus" dyddiedig Ionawr 2014. ( adnabod hefyd fel " Adroddiad Williams").**

## Rhestr o Argymhellion 31-33

### *Sgriwtini*

31. Rhaid cydnabod a rhoi blaenoriaeth i bwysigrwydd, statws a gwerth gwaith craffu, a'i gynnal a'i atgyfnerthu'n barhaus. Er mwyn cefnogi hyn:

• Rhaid i bob aelod etholedig, aelod annibynnol o fwrdd iechyd, cyfarwyddwr anweithredol, a swyddog, gydnabod pwysigrwydd a gwerth gwaith craffu wrth wella gwasanaethau i bobl a sefydliadau yng Nghymru. Rhaid arddel a diogelu annibyniaeth gwaith craffu yn gadarn, yn ogystal â'i natur adeiladol a chadarnhaol;

• Yn yr un modd, rhaid i aelodau gweithredol, cyfarwyddwyr anweithredol, a swyddogion, gydnabod gwerth gwaith craffu wrth eu helpu i ddarparu gwasanaethau'n well. Rhaid iddynt roi cyhoeddusrwydd i'w penderfyniadau a'u hegluro'n glir, a gwahodd gwaith craffu arnynt, gan gynnwys craffu cyn y caiff penderfyniadau eu gwneud, mewn modd parod ac agored. Rhaid iddynt hefyd gydnabod ac ymateb i adroddiadau craffu yn brydlon ac yn ddidwyll;

• Fel rhan o'r ymdrech i godi statws a phroffil gwaith craffu, ac ymgysylltu â dinasyddion, rhaid sicrhau bod allbynnau a chanlyniadau gwaith craffu llywodraeth leol yn fwy gweladwy.

32. Rhaid i sefydliadau ystyried craffu fel buddsoddiad i sicrhau gwelliannau ac arbedion yn y dyfodol. Rhaid iddynt felly neilltuo'r adnoddau a'r cymorth priodol ar gyfer gwaith craffu:

• Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod cymorth priodol ar gael, ar lefel swyddogion, i ddatblygu cynlluniau craffu cydgysylltiedig, nodi bylchau mewn arbenigedd o fewn y pwyllgorau a rhoi gwybodaeth gymesur a dealladwy i aelodau'r pwyllgorau. Yn yr un modd, rhaid i sefydliadau eraill sicrhau bod yr adnoddau craffu yn ddigonol er mwyn cyflawni swyddogaeth graffu effeithiol.

• Rhaid i holl aelodau a chadeiryddion pwyllgorau craffu llywodraeth leol gael hyfforddiant gorfodol. Rhaid i hyfforddiant cyfwerth hefyd fod yn orfodol i aelodau cynghorau iechyd cymuned sy'n cyflawni rolau craffu, aelodau awdurdodau tân ac achub, ac eraill sy'n gyfrifol am graffu ffurfiol. Dylid rhoi hyfforddiant cyfwerth i aelodau anweithredol neu aelodau annibynnol hefyd, i'w helpu i gyflawni eu rôl o ddwyn eu tîm gweithredol i gyfrif;

• Rhaid i sefydliadau fabwysiadu ymagwedd "arfer gorau" at graffu yn hytrach na gwneud dim ond yr hyn sy'n ofynnol. Rhaid i'r canlyniadau a'r nodweddion craffu sy'n cael eu paratoi gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus gael eu datblygu mewn trafodaeth â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Unwaith y cytunir iddynt, rhaid i bob sefydliad eu mabwysiadu o fewn chwe mis.

33. Rhaid i bwyllgorau craffu llywodraeth leol a chyrff craffu ffurfiol eraill ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd a phartneriaid. Dylai hynny gynnwys cyfethol unigolion o grwpiau eirioli a grwpiau eraill ar bwyllgorau craffu er mwyn cynyddu capasiti a gallu pwyllgorau o'r fath i gyflawni gwaith craffu adeiladol a hyddysg.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **12 MAI 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd – Adroddiad Blynyddol 2015/16** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cadeirydd y Gwasanaethau Democrataidd** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar waith y Pwyllgor yn ystod 2015/16** |

1) **Rhagarweiniad**

Rhydd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ddyletswydd ar y Cyngor i sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gefnogir gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Prif bwrpas y Pwyllgor yw adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth yn yr Awdurdod o ran staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill er mwyn cyflawni dyletswyddau a swyddogaethau Gwasanaethau Democrataidd. Dan y Mesur, rhaid i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn i adrodd ar faterion o'r fath i'r Cyngor.

Dyma'r pedwerydd adroddiad blynyddol y mae'r Pwyllgor wedi ei ddarparu ers ei sefydlu yn 2012.

2) **Rhaglen Waith y Pwyllgor**

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2015/16 a cheir ynddo hefyd sylwadau ar y statws cyfredol.

Yn gyffredinol, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar y meysydd canlynol:

- Datblygu Aelodau a Chynlluniau Hyfforddiant
- Gweddarlledu cyfarfodydd a gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned
- Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau
- Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol

Yn y tabl isod, ceir crynodeb o'r materion a drafodwyd ym mhob cyfarfod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

| Dyddiad y Pwyllgor | Pwnc | Statws Cyfredol |
|---|---|---|
| 30/09/2015 | Gwe-ddarlledu cyfarfodydd | Darparwyd gwybodaeth yn yr adroddiad hwn er mwyn diweddaru Aelodau ar y cynllun peilot. Darparwyd hefyd ystadegau ar y niferoedd sydd wedi ymweld â gwefan y Cyngor - dilyn cyfarfodydd yn fyw a hefyd cyfarfodydd sydd wedi eu harchifo. Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am sylwadau'r Pwyllgor ynghylch parhau i we ddarlledu yn y dyfodol gan fod y cynllun peilot i fod i ddod i ben Mawrth 2017. Penderfynodd y Pwyllgor gefnogi parhau i we-ddarlledu pwyllgorau sydd yn rhan o'r cynllun peilot yn y dyfodol.<br><br>Bellach gwnaed penderfyniad gweithredol gan y deilyddion portffolio perthnasol i barhau gwe-ddarlledu cyfarfodydd tan Fawrth 2017.<br><br>Bydd adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ystod 2016/17. Bydd angen ystyried materion cyllidol yn y dyfodol wrth baratoi'r gyllideb ar gyfer 2017/18. |
| | Adroddiadau Blynyddol Aelodau | Roedd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar drefniadau Aelodau i baratoi Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2015/16 gan nodi bod holl Aelodau wedi paratoi adroddiadau ar gyfer 2014/15 a chyhoeddwyd gwybodaeth ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin, 2014.<br><br>Mae'r dasg o baratoi adroddiadau blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf ar y gweill a'r bwriad fydd cynnwys gwybodaeth ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin, 2016. |
| | Sicrhau Democratiaeth Amrywiol | Darparwyd adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor yn dilyn adroddiad tebyg i'r Pwyllgor ar 18fed Mehefin, 2014 o safbwynt argymhellion y grwp arbenigol ar amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i wella amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol yn yr etholiadau lleol yn 2017.<br>Nodwyd fod y Cynghorydd Carwyn Jones yn gweithredu fel Eiriolydd Amrywiaeth ac yn rhan o rwydwaith Gogledd Cymru a sefydlwyd i gefnogi gwaith y grŵp |

| | | |
|---|---|---|
| | | arbenigol.<br><br>Wrth baratoi ar gyfer etholiadau lleol 2017 bydd gwybodaeth benodol gan y grŵp arbenigol yn cael ei gynnwys ar wefan y Cyngor yn ddiweddarach eleni. |
| | Rhaglen Waith y Pwyllgor | Nodwyd y materion yw trafod gan y Pwyllgor yn ystod 2015/16 ar sail rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn flaenorol ar sail 2014/15. Bydd y rhaglen waith yn cael ei ddiweddaru gan y Pwyllgor yn ystod 2016/17. |
| 23/3/2016 | Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol - adroddiad blynyddol ar gyfer 2016/17 | Cyflwynwyd gwybodaeth ar benderfyniad Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol ynghylch lefelau lwfansau ar gyfer 2016/17. Gwnaed argymhellion gan y Pwyllgor ynglŷn â lefel tâl i Aelodau Pwyllgor Gwaith, Cadeiryddion Pwyllgorau a Chadeirydd ag Is-Gadeirydd y Cyngor. Bydd y Cyngor yn rhoi sylw i'r materion hyn ar 12fed Fai, 2016. |
| | Sesiynau Cynefino ar gyfer Aelodau newydd 2017 | Cyflwynwyd fframwaith cychwynnol a baratowyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Aelodau newydd yn dilyn etholiadau lleol yn 2017. Cyflwynwyd sylwadau ar y fframwaith i'r CLlLC ar sail bod angen ystyried llwyth gwaith Aelodau wrth baratoi rhaglen hyfforddiant a'r cyfle hefyd i gael hyfforddiant trwy ddarpariaeth e-ddysgu. Bydd y fframwaith yn cael ei ddiweddaru ymhellach gan CLlLC dros y misoedd nesaf a bydd angen adolygu rhaglen hyfforddiant y Cyngor wrth gynllunio i'r dyfodol. |
| | Dyddiadur cyfarfodydd 2016/17 | Cyflwynwyd gwybodaeth fel rhan o'r adroddiad ynghylch amserlen pwyllgorau ar gyfer 2016/17 a hefyd y cyfle i'r Pwyllgor wneud sylwadau ar amser dechrau cyfarfodydd pwyllgorau craffu. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 12fed o Fai, 2016 |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | Gwefannau Cynghorau Cymuned | Diben yr adroddiad hwn oedd diweddaru'r pwyllgor ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran hawlio'r grant gan Gynghorau Tref a Chymuned. Cyflwynwyd gwybodaeth hefyd i'r Pwyllgor Safonau ar 9fed Fawrth, 2016 |

| **3) Argymhelliad** |
|---|
| Gofynnir i'r Cyngor Sir dderbyn yr adroddiad a nodi'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn 2015/16. |

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
**26/04/2016**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 12 Mai 2016 |
| **TEITL:** | Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Safonau |
| **ADRODDIAD GAN:** | Michael Wilson, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ac Aelod Annibynnol o'r Cyngor |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Adrodd ar Weithgareddau'r Pwyllgor Safonau yn 2015/16 a gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Rhaglen y Pwyllgor ar gyfer 2016/17 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (est 2568) |

**Rhagarweiniad**

1. Mae'r Pwyllgor Safonau'n bwyllgor statudol ac arno 9 aelod (2 Gynghorydd Sir, 5 Aelod Annibynnol a 2 Aelod o Gynghorau Cymuned).

2. Penodwyd yr aelodau annibynnol a'r aelodau o'r cynghorau cymuned cyfredol am gyfnod o 4 blynedd hyd at 17 Rhagfyr 2015. Caiff aelodau'r Cyngor Sir eu hailethol bob blwyddyn gan y Cyngor.

3. Yr isod yw prif rolau a swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau (o ran aelodau'r cyngor sir ac aelodau cynghorau cymuned):-

   (a) hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad ymysg cynghorwyr;
   (b) cynorthwyo cynghorwyr i lynu wrth y Côd Ymddygiad i Aelodau;
   (c) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr;
   (d) rhoi caniatadau arbennig;
   (e) delio gydag unrhyw adroddiadau a gyfeirir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghyd ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlysoedd achos dros dro, tribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd apêl gan Banel Dyfarnu Cymru.
   (f) delio gydag unrhyw faterion a gyfeiriwyd yn wirfoddol dan y Protocol ar gyfer Datrys Anghydfodau yn lleol.

**Cefndir**

4. Yn ei gyfarfod ar 14 Mai 2015, penderfynodd y Cyngor Sir gymeradwyo Rhaglen y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2015/16. Yn y Rhaglen wreiddiol, nodwyd meysydd gwaith arfaethedig, amserlen ac adnoddau. Gweler y ddogfen hon yn **ATODIAD A** yr Adroddiad hwn ac mae wedi cael ei diweddaru i gynnwys y gwaith sydd eisoes wedi cael ei gyflawni yn erbyn yr amcanion y cytunwyd arnynt.

5. Mae **ATODIAD B** yr adroddiad hwn yn cynnwys Rhaglen y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2016/17 a gyflwynir i'w chymeradwyo gan y Cyngor.

**Sylwadau'r Cadeirydd**

Hoffai'r Cadeirydd ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith caled a'u hymroddiad yn ystod y flwyddyn a chydnabod y cymorth a'r cyngor a gafwyd gan y Swyddogion sy'n cynorthwyo'r Pwyllgor.

**6. Cwynion**

Y llynedd, roedd y Pwyllgor yn falch o nodi ei fod wedi treulio "llai o'i amser yn cynnal gwrandawiadau neu'n mynychu cyfarfodydd/cyfryngu sy'n codi oherwydd achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad".

Yn unol â'r gobaith, mae'r datblygiad cadarnhaol hwn wedi parhau.

Mae'r Pwyllgor Safonau yn derbyn adroddiadau yn ei gyfarfodydd arferol sy'n darparu gwybodaeth ystadegol am nifer y cwynion ynghylch torri'r Côd Ymddygiad a gyflwynwyd i'r Ombwdsmon a statws cyfredol y cwynion hyn. Yng nghyfarfod diweddaraf y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2016, nodwyd, o blith holl aelodau'n cynghorau tref, cynghorau cymuned a'r Cyngor Sir, mai dim ond un mater y bu'r Ombwdsmon yn ymchwilio iddo yn ystod y flwyddyn.

Yn ychwanegol at hyn, edrychodd y Pwyllgor ar ddata cymharol ar gyfer cyfnod cyfatebol cyn, ac ers, tymor y Cyngor cyfredol (a gychwynnodd ym mis Mai 2013) ac mae'r gwelliant yn syfrdanol. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad fod hunanreoleiddiad yn gweithio a bod cyfeirio ond ychydig o gwynion i'r Ombwdsmon, pan mae hynny'n angenrheidiol ac yn briodol, yn arwydd o sefydliad sy'n gwerthfawrogi'r gwahaniaeth rhwng 'taro a gwrthdaro' gwleidyddiaeth a materion allai fod yn fwy difrifol a lle gellid cyfiawnhau ymchwiliad annibynnol. Ym marn y Pwyllgor, mae hyn yn arwydd o iechyd corfforaethol da.

**7. Cyfarfodydd**

Oherwydd y tueddiad hwn sydd wedi sefydlu ei hun, mae'r Pwyllgor o'r farn nad oes angen bellach i'r Pwyllgor gyfarfod bob chwarter.

Yn unol â'r gofyniad statudol, rhaid i bwyllgorau safonau gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn.

Yn dilyn argymhellion gan Swyddfa Archwilio Cymru, a Llywodraeth Cymru, gofynnwyd i'r Pwyllgor gymryd rôl fwy rhagweithiol a chyfarfod yn amlach. Yn ôl y dystiolaeth gyson yr ydym wedi ei gweld, ymddengys nad yw'r amgylchiadau a oedd yn gwneud hynny'n angenrheidiol bellach yn bodoli a bod cyffyrddiad ysgafnach

bellach yn fwy priodol. Mae hyn hefyd yn gwneud gwell defnydd o adnoddau'r Cyngor, felly rydym yn argymell gostwng y nifer o bwyllgorau arferol o'r Pwyllgor Safonau o 4 i 2 y flwyddyn.

Wrth gwrs, bydd cyfarfodydd arbennig yn cael eu cynnal i sicrhau ein bod yn cydymffurfio gydag unrhyw ymrwymiadau statudol a bydd cyfarfodydd anffurfiol yn parhau yn unol â gofynion y busnes.

Mae'r Pwyllgor o'r farn fod hyn yn taro cydbwysedd rhwng y capasiti sydd ar gael a chaniatáu'r hyblygrwydd sy'n angenrheidiol i'r Pwyllgor gyflawni ei gyfrifoldebau.

I'r perwyl hwn, rydym wedi gofyn i'r Swyddog Monitro, a chyda cytundeb Arweinyddion Grwpiau'r Cyngor, i gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith, a'r Cyngor, i ddiwygio'r Cyfansoddiad i ostwng nifer y cyfarfodydd arferol i 2. Gobeithir y bydd yr holl aelodau'n cefnogi hyn.

**8. <u>Cofrestrau Diddordebau'r Aelodau</u>**

Wedi cymryd drosodd y cyfrifoldeb gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant, mae'r Pwyllgor Safonau yn adolygu'r tair Gofrestr o ddiddordebau'r aelodau bob blwyddyn.

Cwblhawyd adolygiad y llynedd yn ddiweddar.

Roedd yr Aelodau'n falch o nodi bod ansawdd y datganiadau mewn cyfarfodydd yn uchel a bod yr aelodau'n gydwybodol o ran cyflawni eu rhwymedigaethau. Mae hwn yn ddangosydd pwysig o lywodraethiant cadarn ac yn dangos bod y rheini a allai'n rhesymol gael eu heffeithio gan ganlyniad trafodaeth/penderfyniad yn gadael cyfarfodydd pan mae hynny'n briodol. Rhaid i Aelodau gofio hefyd bod ganddynt efallai hawl i gael caniatâd arbennig mewn rhai amgylchiadau.

Er yn llai arwyddocaol, ond o bwysigrwydd hefyd, roedd y Pwyllgor yn pryderu y pery'r angen i nifer o aelodau adolygu eu datganiadau ymlaen llaw yn y "gofrestr sefydlog" oherwydd roedd rhai o'r manylion yn anghyflawn ac yn aneglur. Codwyd y pryderon hyn yn y gorffennol mewn nodiadau cynghori a anfonwyd at yr holl aelodau ac yn tynnu sylw at faterion penodol yn ymwneud ag aelodaeth cyrff allanol gan gynnwys cyrff llywodraethu ysgolion a diffyg eglurder o ran lleoliad tir/eiddo y mae rhai aelodau'n berchen arnynt.

Yn dilyn ei adolygiad yn ddiweddar, mae'r Pwyllgor yn awr yn bwriadu ysgrifennu at yr unigolyn hynny y mae angen iddynt egluro eu manylion yn y "gofrestr sefydlog" gan nodi, ar sail unigol, beth yw'r pryderon. Bydd yr e-byst hynny'n cael eu rhannu gydag Arweinyddion Grwpiau perthnasol ac maent eisoes wedi cytuno i gymryd y cyfrifoldebau am sicrhau bod y newidiadau hynny'n cael eu gwneud.

Hwn fydd yr adolygiad diwethaf o Gofrestrau'r Cyngor Sir tan ar ôl y Cyngor newydd ym mis Mai 2017. Fodd bynnag, bydd darn o waith yn cael ei wneud i adolygu sampl o'r cofrestrau (mewn cyfarfodydd) sydd gan gynghorau tref a chymuned ac adroddir yn ôl ar y canfyddiadau i'r holl gynghorau tref a chymuned yn ddiweddarach eleni. Bwriedir i hyn gynorthwyo'r cynghorau newydd i sicrhau cydymffurfiaeth ar ôl Mai 2017.

## 9. Hyfforddiant

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Pwyllgor Safonau wedi darparu hyfforddiant ar gyfer Cynghorau Tref yn canolbwyntio ar Egwyddorion Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus, y Côd Ymddygiad a Chanllawiau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Yn y flwyddyn nesaf, bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar baratoi ar gyfer yr hyfforddiant a fydd yn cael ei gynnal yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2017.

Mae'r Pwyllgor wedi cyfrannu hefyd at y rhaglen hon drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac mae'r ddau argymhelliad o'r Pwyllgor, sef, yn benodol, hyfforddiant ar y cyfryngau cymdeithasol a datblygu hyfforddiant ar ffurf 'webinar' i gynghorau cymuned yn cael sylw ar hyn o bryd.

**ATODIAD A**

## RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU – MAI 2015 I EBRILL 2016

| | | AMSERLEN | ADNODDAU | STATWS AR DDIWEDD Y FLWYDDYN |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Cynnal gwrandawiadau i achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad i Aelodau yn dilyn eu cyfeirio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) | • Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | Dim wedi eu cyfeirio yn ystod y cyfnod |
| 2. | Cynnal gwrandawiadau i geisiadau am ganiatâd arbennig gan Gynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref/Cymuned | • Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | • 24/9/2015 – rhoddwyd caniatâd arbennig i'r holl Aelodau |
| 3. | Cyflawni swyddogaeth ymgynghorol mewn perthynas â materion sy'n codi dan Brotocol Datrysiad Lleol y Cyngor neu unrhyw gynllun olynol os bydd model cenedlaethol yn cael ei ddatblygu. | • Fel a phryd y derbynnir cais | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | • Dim wedi eu derbyn yn ystod y cyfnod |
| 4. | Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad ar y Côd Ymddygiad i Aelodau yn unol â pharagraff 2.6 y Côd; yn arbennig Cynghorau Tref | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | • Cafwyd hyfforddiant ar:-<br>9/11/15<br>23/11/15<br>7/12/15<br>• Cynhelir sesiwn arall ar:-<br>16/5/16 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5. | Goruchwylio'r dair Gofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau drwy eu hadolygu bob blwyddyn gan roi cyngor a chyfarwyddyd wedyn os yw hynny'n briodol. | • Erbyn diwedd Ebrill 2016 | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | • Pwyllgor Safonau 16/9/2015<br>• Pwyllgor Safonau 9/3/2016<br>• Cyfarfod adolygu 18/4/16<br>• Cwblhawyd 30/4/2016 |
| 6. | Cyflawni rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad sy'n berthnasol i rôl y Pwyllgor Safonau yn enwedig lle gallai newidiadau arfaethedig o'r fath ragfarnu mewn modd anghymesur, hawliau neu ddiddordebau unrhyw grŵp lleiafrifol. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro Dirprwy Swyddog Monitro | • Ni chafwyd unrhyw gyfarwyddyd yn ystod y cyfnod |
| 7. | Cyflawni rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol/polisi arfaethedig sy'n berthnasol i faes cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | • Canllawiau ar y Côd Ymddygiad i Swyddogion<br>• Protocol Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 |
| 8. | Gwneud unrhyw argymhellion i'r Cyngor ar gyfer gwella'r meysydd gwaith hynny sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Safonau. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | • 12/5/2016 – argymell gostyngiad yn nifer y cyfarfodydd arferol o'r Pwyllgor Safonau |
| 9. | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor yn amlinellu gwaith y pwyllgor yn ystod y flwyddyn flaenorol. | • Mai 2016 | • Cadeirydd | • 12 Mai 2016 |
| 10. | Sicrhau fod gwybodaeth a sgiliau'r Pwyllgor Safonau'n cael eu datblygu a'u diweddaru drwy: | • Fel a phryd y bydd angen yn amodol ar | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | - Adolygu'n rheolaidd achosion y penderfynwyd arnynt gan:<br>○ awdurdodau perthnasol eraill<br>○ Panel Dyfarnu Cymru<br><br>- Cymryd rhan a gwneud cyfraniad yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru<br>- Cymryd rhan a gwneud cyfraniad yng Nghynhadledd Pwyllgorau Safonau Cymru Gyfan<br>- I'w adolygu dan gynllun adolygu perfformiad yn debyg i hwnnw a ddefnyddir gan yr aelodau etholedig | gapasiti | Swyddog Monitro | • Gwnaed hyn ar:-<br>16/9/2015<br>24/9/2015<br>19/2/2016<br>9/3/2016<br><br>• 16/6/2015<br><br>• 19 & 20/10/2015<br><br>• Bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2016 |
| 11.. | Monitro cynnydd o ran cwynion am Aelodau a gafodd eu cyflwyno i OGCC a dadansoddi'n flynyddol y wybodaeth ynglŷn â'r cwynion sy'n berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn er mwyn nodi unrhyw dueddiadau neu faterion sy'n peri pryder neu sy'n dangos fod angen hyfforddiant. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | • Dim wedi ei gyflawni. Dadansoddiad yn amhosib oherwydd niferoedd isel |
| 12. | Cynnal cyswllt gydag Arweinyddion Grwpiau drwy gyfrwng cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd er mwyn trafod materion sydd o bryder/diddordeb cyffredin. | • Fel a phryd y bydd angen | • Y Cadeirydd | • 4/2/2016<br>• 28/4/2016 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 13. | Adroddiad ar ddangosyddion perfformiad chwarterol<br>1. Y berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol<br>2. Effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor<br>3. Safonau ymddygiad Aelodau | • Yn chwarterol | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | • 7/8/2015<br>• 28/10/2015<br>• 27/1/2016<br>• 4/5/2016 |

**ATODIAD B**

## RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU – MAI 2016 I EBRILL 2017

| | | AMSERLEN | ADNODDAU | STATWS AR DDIWEDD Y FLWYDDYN |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Cynnal gwrandawiadau i achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad i Aelodau yn dilyn eu cyfeirio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) | • Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | • Swyddog Monitro | |
| 2. | Cynnal gwrandawiadau i geisiadau am Ganiatâd Arbennig | • Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | • Swyddog Monitro | |
| 3. | Cyflawni swyddogaeth ymgynghorol mewn perthynas â materion sy'n codi dan Brotocol Datrysiad Lleol y Cyngor | • Fel a phryd y derbynnir cais | • Swyddog Monitro | |
| 4. | Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad ar y Côd Ymddygiad i Aelodau yn unol â pharagraff 2.6 y Côd; gan ganolbwyntio ar baratoi ar gyfer aelodau newydd ym mis Mai 2017 | • Yn barod ar gyfer Mai 2017 | • Swyddog Monitro | |
| 5. | Adolygu sampl o'r Cofrestrau o Ddiddordebau'r Aelodau fel y cânt eu cadw gan y cynghorau tref a chymuned gan roddi unrhyw gyngor a chanllawiau angenrheidiol wedi hynny. | • Erbyn diwedd Ebrill 2017 | • Swyddog Monitro | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 6. | Cyflawni rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad sy'n berthnasol i rôl y Pwyllgor Safonau yn enwedig lle gallai newidiadau arfaethedig o'r fath ragfarnu mewn modd anghymesur, hawliau neu ddiddordebau unrhyw grŵp lleiafrifol. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro | |
| 7. | Cyflawni rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol/polisi arfaethedig sy'n berthnasol i faes cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro | |
| 8. | Gwneud unrhyw argymhellion i'r Cyngor ar gyfer gwella'r meysydd gwaith hynny sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Safonau. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro | |
| 9. | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor yn amlinellu gwaith y pwyllgor yn ystod y flwyddyn flaenorol. | • Mai 2017 | • Cadeirydd | |
| 10. | Sicrhau fod gwybodaeth a sgiliau'r Pwyllgor Safonau'n cael eu datblygu a'u diweddaru drwy:<br>- Adolygu'n rheolaidd achosion y penderfynwyd arnynt gan:<br>○ awdurdodau perthnasol eraill<br>○ Panel Dyfarnu Cymru | • Fel a phryd y bydd angen yn amodol ar gapasiti | • Swyddog Monitro | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | - Cymryd rhan a gwneud cyfraniad yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru<br>- Cymryd rhan a gwneud cyfraniad yng Nghynhadledd Pwyllgorau Safonau Cymru Gyfan<br>- I'w adolygu dan gynllun adolygu perfformiad yn debyg i hwnnw a ddefnyddir gan yr aelodau etholedig | | | |
| 11. | Monitro cynnydd o ran cwynion am Aelodau a gafodd eu cyflwyno i OGCC a dadansoddi'n flynyddol y wybodaeth ynglŷn â'r cwynion sy'n berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn er mwyn nodi unrhyw dueddiadau neu faterion sy'n peri pryder neu sy'n dangos fod angen hyfforddiant. | • Yn flynyddol os bydd y data'n caniatáu | • Swyddog Monitro | |
| 12. | Cynnal cyswllt gydag Arweinyddion Grwpiau drwy gyfrwng cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd er mwyn trafod materion sydd o bryder/diddordeb cyffredin. | • Fel a phryd y bydd angen | • Y Cadeirydd | |
| 13. | Adroddiad ar ddangosyddion perfformiad chwarterol<br>• Y berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol<br>• Effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r | • Yn chwarterol | • Swyddog Monitro | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyngor<br>• Safonau ymddygiad Aelodau | | | |

This page is intentionally left blank